

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING
PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO	GOVERNANCE AND AUDIT COMMITTEE
DYDD MAWRTH, 3 CHWEFOR 2026 am 2.00 y. p.	TUESDAY 3 FEBRUARY 2026 at 2:00 p.m.
YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHOL DRWY ZOOM	COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM
Swyddog Pwyllgor	Ann Holmes 01248 752518 Committee Officer

AELODAU / MEMBERS

Cynghorwyr / Councillors:-

PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES

Geraint Bebb, Eyrn Morris (*Diprwy Gadeirydd*), Margaret M. Roberts, *Sedd Wag/Vacant Seat*

Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP

Gwilym O. Jones

LLAFUR CYMRU/WELSH LABOUR

Keith Roberts

ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS

Paul Ellis, Kenneth Hughes

AELODAU LLEYG / LAY MEMBERS

Dilwyn Evans (*Cadeirydd*), Dr Geraint Jones, William Maund, William Parry

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod

R H A G L E N

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2025.

3 LOG GWEITHREDOEDD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO (Tudalennau 11 - 16)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

4 DIWYGIO'R CYFANSODDIAD: RHOI CYMERADWYAETH DERFYNOL I DDATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL Y CYNGOR (Tudalennau 17 - 22)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro.

5 ADRODDIAD SICRWYDD LLYWODRAETHU GWYBODAETH YSGOLION YNYS MÔN 2025 (Tudalennau 23 - 28)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

6 DATGANIAD AR STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2026/27 (Tudalennau 29 - 66)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

7 DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL (Tudalennau 67 - 72)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

8 DIWEDDARIAD AR Y GOFRESTR RISG STRATEGOL (Tudalennau 73 - 84)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

9 DIWEDDARIAD CYNNYDD YN ERBYN Y CAMAU GWELLA A NODWYD YN YR HUNAN ASESIAD A'R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL AR GYFER 2024/25 (Tudalennau 85 - 92)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio.

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod

10 ARCHWILIO ALLANOL: CYNGOR SIR YNYS MÔN - CRYNODEB ARCHWILIO BLYNYDDOL 2025 (Tudalennau 93 - 106)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Cymru.

11 ADOLYGIAD O'R BLAEN RAGLEN WAITH (Tudalennau 107 - 116)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

This page is intentionally left blank

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac ar Zoom ar 4 Rhagfyr, 2025

YN BRESENNOL:

Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Euryn Morris (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr Kenneth Hughes, Keith Roberts, Margaret Roberts.

Aelodau Lleyg: Dr Geraint Jones, William Maund, William Parry.

WRTH LAW:

Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog
Monitro (ar gyfer eitem 5, 6 a 7)
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc (ar gyfer eitem 8),
Pennaeth Gwasanaeth Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo (ar gyfer
eitem 5)
Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (MP)
Rheolwr Perfformiad a Phrosiectau Strategol (GP)
Swyddog Pwyllgorau (ATH)
Swyddog Gweddarlledu (FT)

YMDDIHEURIADAU:

Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Gwilym O. Jones

**HEFYD YN
BRESENNOL:**

Y Cynghorydd Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod
Portffolio Cyllid a Thai), Carwyn Rees (Rheolwr Archwilio
Perfformiad - Archwilio Cymru), Lora Williams (Archwilio
Cymru) (Uwch Archwilydd CSYM) (GC).

Nododd y Cadeirydd ei dristwch o glywed am farwolaeth y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes, MBE, a oedd yn aelod o'r pwyllgor, a nododd y bydd colled fawr ar ei ôl. Ar ran y pwyllgor, cydymdeimlodd yn ddwys â theulu a ffrindiau'r Cynghorydd Hughes. Nododd y Cadeirydd bod y Cynghorydd Gwilym O. Jones wedi cael ei benodi i'r pwyllgor unwaith eto. Er nad oedd yn gallu bod yn bresennol oherwydd ymrwymïadau blaenorol, croesawyd y Cynghorydd Gwilym O. Jones yn ôl i'r pwyllgor.

1. YMDDIHEURIADAU

Nodwyd yr ymddiheuriadau a gyflwynwyd.

2. DATGANIAD O FUDDIANT

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o fuddiant.

3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar y dyddiadau a ganlyn a chadarnhawyd eu bod yn gywir:-

- 30 Medi 2025
- 13 Hydref 2025 (cyfarfod arbennig)

4. LOG GWEITHREDOEDD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg, oedd yn cynnwys log gweithredoedd y pwyllgor, i'w ystyried gan y pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar statws a chynnydd y camau a gytunwyd.

Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod camau rhif 16, 19, 20, 25, 28, 30, 31 a 32 wedi cael eu cwblhau. Rhoddodd ddiweddariad ar y sefyllfa'n gysylltiedig â cham rhif 30 fel y nodir yn y log.

Penderfynwyd nodi'r camau gweithredu a oedd wedi'u nodi yn y log a chadarnhau bod y Pwyllgor yn hapus bod y camau wedi cael eu gweithredu'n foddhaol.

5. Cwynion a Chwythu'r Chwiban 2024/25 yn cynnwys Llythyr Blynnyddol OGCC ar Gyfer 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, a oedd yn darparu gwybodaeth am gwynion gwasanaeth ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025, i'w ystyried gan y pwyllgor. Roedd yr adroddiad hefyd yn cyfeirio at ddatgeliadau Chwythu'r Chwiban a chwynion Cod Ymddygiad a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ac roedd yn cynnwys Llythyr Blynnyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ar gyfer 2024/25.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro drosolwg o'r adroddiad ac amlygodd y prif bwyntiau. Roedd y gwasanaethau'n cytuno gyda'r data a gyflwynwyd ac yn derbyn y dadansoddiad. Darparwyd hyfforddiant i Swyddogion Cwynion gan OGCC yn ystod y flwyddyn a chafodd Polisi Cwynion y Cyngor ei ddiweddarau i egluro'r broses Cam 1 a Cham 2 a dileu'r elfen "pryderon".

Gwelwyd cynnydd yn nifer y cwynion yn gysylltiedig â'r Gwasanaeth Prifffyrdd ac Eiddo ac mae'n bosib y gallai nifer y cwynion ar gyfer chwarter 1 a 2 fod yn uwch nag a gofnodwyd. Tra bo'r Gwasanaethau Tai wedi gweld gostyngiad mewn cwynion, cafodd canran uchel eu cadarnhau ac mae'n bosib y gallai nifer y cwynion fod yn uwch nag a gofnodwyd ar gyfer y ddau chwarter cyntaf. Yn y Gwasanaeth Hamdden, cafodd 93% o gwynion eu cadarnhau, ac roedd yn oherwydd bod ceisiadau am wasanaeth yn cael eu cofnodi fel cwynion Cam 1. Roedd y Pennaeth Gwasanaeth yn derbyn hyn ac mae staff wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol. Cofnododd y gwasanaethau Cynllunio a Gwastraff berfformiad uchel, ac nid oedd unrhyw bryderon ynglŷn ag ymatebion hwyr mewn unrhyw wasanaeth.

Derbyniodd OGCC lai o gwynion yn erbyn y Cyngor yn 2024/25 ac roedd lleihad sylweddol mewn materion y gysylltiedig â thrin cwynion. Roedd Llythyr Blynnyddol OGCC yn amlygu bod angen hysbysu OGCC wrth roi argymhellion OGCC ar waith ac i wneud hynny'n unol â'r amserlen a osodwyd gan OGCC. Methwyd â gwneud hyn yn achos chwe argymhelliad yn 2024/25 ac o ganlyniad cofnodwyd diffyg cydymffurfiaeth yn gysylltiedig â'r argymhellion hyn.

Adroddodd y Pennaeth Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo ynglŷn â'r cynnydd mewn cwynion yn erbyn y Gwasanaeth Prifffyrdd a Gwastraff. Nododd bod nifer o faterion busnes fel arfer yn troi'n gwynion pan nad yw'r achwynydd yn derbyn yr ymateb a roddir. Oherwydd natur weithredol y gwasanaeth, mae nifer uchel o achosion o'r fath yn anochel. Dywedodd bod staff angen hyfforddiant pellach ar y system CRM, gan fod y system wedi arwain at gynnydd mewn cwynion ac amlygodd bod angen gwahaniaethu rhwng cwynion ac ymholiadau busnes fel arfer. Cyfeiriodd at y cwynion mwyaf cyffredin am y gwasanaeth ac amlinellodd yr amgylchiadau lliniarol. Nododd y bydd gwell defnydd o'r CRM yn helpu i sicrhau bod cwynion yn cael eu cofnodi ar amser ac yn gyson, gwahaniaethu rhwng cwynion ac ymholiadau arferol ynghyd â gwell monitro gan reolwyr. Cadarnhaodd bod y materion a

nodwyd yn cael eu hystyried yng nghyfarfodydd tîm corfforaethol y gwasanaeth sy'n goruchwyllo tueddiadau ac amseroedd ymateb i gwynion.

Penderfynwyd cefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad, sef -

- **Gweithredu'r isod, cyn gynted â phosib: -**
 - **Cyflwyno dashfwrdd Power BI ar gyfer Penaethiaid Gwasanaeth a Chyfarwyddwyr, mewn perthynas â chwynion am eu gwasanaeth**
 - **Darparu hyfforddiant ar gyfer swyddogion cwynion, a'u dirprwyon, ar ofal cwsmer a chydraddoldeb/amrywiaeth**
 - **Diweddarau'r canllawiau ar drin cwynion yn effeithiol**
- **Ar ôl ystyried y Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ar gyfer 2024/2025, bod data perfformiad ynglŷn a chwynion am wasanaethau yn dod yn eitem sefydlog yn y cyfarfodydd rheolaidd a gynhelir rhwng Penaethiaid Gwasanaeth/Cyfarwyddwyr a'u harweinwyr Pwyllgor Gwaith (Aelodau Portffolio).**
- **Cyfarwyddo'r Swyddog Monitro i atgoffa gwasanaethau bod angen:**
 - **Gweithredu unrhyw argymhellion gan OGCC, ac adrodd i OGCC eu bod wedi eu cwblhau o fewn yr amserlen a osodwyd**
 - **Cofnodi unrhyw wersi a ddysgwyd o ganlyniad i gwynion yn rheolaidd, adnabod unrhyw batrymau a gweithredu mesurau lliniaru addas.**
- **Cyfarwyddo'r Swyddog Monitro i ymateb i Lythyr Blynyddol OGCC 2024/25 yn ôl yr angen ym mharagraff olaf ond un y Llythyr dan sylw.**

6. LLYWODRAETHU GWYBODAETH: ADRODDIAD BLYNYDDOL YR UWCH BERCHENNOG RISG GWYBODAETH (SIRO) 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, a oedd yn darparu gwybodaeth am y prif faterion yn gysylltiedig â Llywodraethu Gwybodaeth ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025, i'w ystyried gan y pwyllgor.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro drosolwg o'r adroddiad ac amlygodd y prif bwyntiau. At ei gilydd mae'r ffigurau yn gysylltiedig â thor diogelwch data yn parhau i fod yn isel, ac mae hyn yn gyson â'r blynyddoedd blaenorol. Mae'n bosib bod hyn oherwydd diffyg ymwybyddiaeth ynglŷn â beth a ystyrir yn dor diogelwch data ac felly mae materion a ddylai gael eu cyfeirio at y Swyddog Diogelu Data Dros Dro yn cael eu hanwybyddu. Mae angen diweddau'r hyfforddiant a'r polisïau.

Er bod enghreifftiau o arferion da, mae ffigurau cydymffurfiaeth y Cyngor â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn parhau i fod yn isel ac maent bob amser yn is na'r isafswm y mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ei ddisgwyl (y targed yw 90%). Mae'n bosib bod hyn oherwydd nad oes cynlluniau cyhoeddi o fewn gwasanaethau ar hyn o bryd. Gall cynllun cyhoeddi rheolaidd leihau'r baich ar wasanaethau yn gysylltiedig â Cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth drwy ganiatáu eithriad ar gyfer deunydd sydd eisoes ar gael yn gyhoeddus.

Mae'r cymorth corfforaethol sydd ar gael ar gyfer llywodraethu gwybodaeth yn isel o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill. Mae'r swydd Swyddog Diogelu Data Corfforaethol wedi bod yn wag ers tro ac er gwaethaf sawl ymgais i recriwtio i'r rôl yn barhaol, mae'r rôl yn dal i gael i gael ei chyflawni gan swyddog dros dro. Mae'r swyddog dros dro wedi adolygu sefyllfa'r Cyngor ac mae wedi cynhyrchu rhaglen waith ddrafft. Er bod cyflawni'r rhaglen yn

llawn yn ddibynnol ar gapasiti, mae camau blaenoriaeth wedi cael eu nodi ac maent wedi cael eu hadlewyrchu yn yr argymhellion yn yr adroddiad. Mae cais i ariannu swydd paragyfreithiol wedi cael ei gyflwyno er mwyn galluogi'r Swyddog Diogelu Data Corfforaethol i ganolbwyntio ar bolisiau, strategaethau a hyfforddiant.

Mae'r prosiect CRM yn gysylltiedig â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth wedi cael ei gwblhau, ac mae prosiect ehangach newydd wedi cael ei roi ar waith a fydd yn ein galluogi i barhau i ddefnyddio'r dogfennau sydd wedi cael eu creu eisoes ynghyd â sawl ffrwd gwaith mewn system llywodraethu gwybodaeth fwy cynhwysfawr.

Wrth adolygu'r adroddiad, nododd y pwyllgor y sefyllfa o ran cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r methiant dros gyfnod o ddeg mlynedd i gwrdd â tharged y Comisiynydd Gwybodaeth, sef 90%. Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ynglŷn â'r broses ar gyfer delio â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth o fewn gwasanaethau.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro bod capasiti yn broblem a'i fod yn gyfyngedig oherwydd bod swyddogion rhyddid gwybodaeth a rheoli data mewn gwasanaethau eraill yn gorfod delio â chwynion ar ben eu dyletswyddau dydd i ddydd, gyda dim ond un swyddog corfforaethol canolog yn cefnogi pob gwasanaeth. Bydd gwaith pellach gyda gwasanaethau yn helpu i nodi'r rhwystrau a thargedu ymyraethau a hyfforddiant, ond mae'n rhaid i bob gwasanaeth benderfynu p'un a oes ganddo'r adnoddau i gefnogi'r gwaith ai peidio.

Aeth ymlaen i gynghori'r pwyllgor ei bod, yn dilyn trafodaeth gyda'r Prif Weithredwr, yn dymuno diwygio geiriad argymhelliad 2.3 yn yr adroddiad sef "bod ffigurau'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol chwarterol yn cael eu diwygio fel eu bod yn cynnwys cyfraddau cydymffurfiaeth gwasanaethau unigol a bod y data hwn yn cael ei adrodd i'r Tîm Arweinyddiaeth yn chwarterol fel y gall y Prif Weithredwr gwrdd â gwasanaethau sy'n tanberfformio er mwyn gwella cydymffurfiaeth statudol".

Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd nodi'r argymhellion yn yr adroddiad, sef -

- **Bod hyfforddiant ar dor diogelwch data yn cael ei ddarparu i Swyddogion Rhyddid Gwybodaeth i wella eu hymwybyddiaeth o'r hyn a ystyrir yn dor diogelwch data, sut i roi gwybod am dor diogelwch data a'r mesurau lliniaru y dylid eu cymryd pe byddai achos o dorri diogelwch data'n cael ei ganfod.**
- **Bod y Polisi Digwyddiadau Diogelwch Data Personol, a'r Canllaw atodol, yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau cyn cael ei ail lansio yn fewnol â Swyddogion Rhyddid Gwybodaeth. Dylai ail lansiad o'r fath gynnwys hyfforddiant penodol ar y Polisi a Chanllawiau diwygiedig.**
- **Bod ffigurau'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol chwarterol yn cael eu diwygio fel eu bod yn cynnwys cyfraddau cydymffurfiaeth gwasanaethau unigol a bod y data hwn yn cael ei adrodd i'r Tîm Arweinyddiaeth yn chwarterol fel y gall y Prif Weithredwr gwrdd â gwasanaethau sy'n tanberfformio er mwyn gwella cydymffurfiaeth statudol.**
- **Bod gwasanaethau'n asesu eu cynlluniau cyhoeddi er mwyn cynyddu dibyniaeth ar a20 ac a21 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (sef, gwybodaeth a fydd yn cael ei chyhoeddi yn y dyfodol neu wybodaeth sydd eisoes ar gael).**
- **Darparu hyfforddiant ar y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i Swyddogion Rhyddid Gwybodaeth yn cynnwys pryd i ddefnyddio'r eithriadau perthnasol.**

7. DIWYGIO'R CYFANSODDIAD - RHOI CYMERADWYAETH DERFYNOL I GYFRIFON BLYNYDDOL Y CYNGOR

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a oedd yn gofyn i'r pwyllgor roi ei farn ar y newid arfaethedig i Gyfansoddiad y Cyngor i ganiatáu i Gyfrifon Blynyddol y Cyngor gael eu cymeradwyo'n derfynol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn hytrach na'r Cyngor.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a amlinellodd y rhesymeg y tu ôl i'r cynnig sef gwella effeithlonrwydd, cefnogi bwriad Archwilio Cymru i leihau'r amserlen archwilio ar gyfer llywodraeth leol yn 2025/26 fel bod rhaid cymeradwyo'r cyfrifon erbyn 30 Medi 2026, osgoi gorfod aildrefnu cyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Medi neu drefnu cyfarfod arbennig os bydd y Cyngor yn parhau'n gyfrifol am eu cymeradwyo, a sicrhau bod trefniadau'r Cyngor yn cyd-fynd â'r trefniadau sydd ar waith mewn prif gynghorau yng Nghymru. Cadarnhawyd na fydd unrhyw barti dan anfantais yn sgil y newid arfaethedig.

Gofynnodd yr aelodau am sicrwydd y byddai'r pwyllgor yn derbyn y cyfrifon terfynol mewn da bryd i'w hadolygu pe byddai'n dod yn gyfrifol am eu cymeradwyo. Holwyd a fyddai'r newid hwn hefyd yn berthnasol i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y byddai'r pwyllgor yn parhau i adolygu'r cyfrifon drafft ym mis Gorffennaf ac y byddai dileu'r Cyngor Llawn o'r cam terfynol yn rhoi amser ychwanegol i gyflwyno'r cyfrifon terfynol i'r pwyllgor. Rhoddwyd sicrwydd y byddai'r gwasanaeth Cyllid yn gwneud pob ymdrech i gyflwyno'r cyfrifon terfynol mewn da bryd.

Cynghorydd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro bod cyfarwyddiadau ynglŷn â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael eu derbyn wedi i'r adroddiad gael ei ddrafftio a hanner ffordd drwy'r ymgynghoriad ar y newid arfaethedig. Gan fod proses wahanol yn gysylltiedig â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, byddai'n rhaid cyflwyno adroddiad pellach i'r Cyngor Llawn yn gysylltiedig ag unrhyw newid i'r trefniadau ar gyfer ei gymeradwyo. Bydd y Dirprwy Swyddog Monitro Dros Dro yn gofyn am gyfarwyddyd ar y mater hwn pe byddai'r Cyngor Llawn yn cymeradwyo'r newid arfaethedig i'r broses ar gyfer cymeradwyo'r cyfrifon.

Nododd Carwyn Rees, Rheolwr Archwilio Perfformiad Archwilio Cymru ei bod hi, erbyn hyn, yn gyffredin iawn i gyfrifon terfynol gael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn cynghorau yng Nghymru. Fe ychwanegodd bod cyhoeddi'r cyfrifon drafft ym mis Mehefin yn rhoi digon o amser i'r aelodau etholedig a'r cyhoedd godi unrhyw faterion cyn eu cymeradwyo'n derfynol ym mis Medi.

Penderfynwyd cymeradwyo'r newid arfaethedig i Gyfansoddiad y Cyngor er mwyn rhoi'r hawl i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, yn hytrach na'r Cyngor, gymeradwyo Cyfrifon Blynyddol y Cyngor yn derfynol.

8. DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg, oedd yn cynnwys diweddariad hyd at 21 Tachwedd, 2025, ar yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf ar 30 Medi 2025, i'w ystyried gan y pwyllgor. Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu llwyth gwaith presennol y gwasanaeth Archwilio Mewnol a'i flaenoriaethau ar gyfer y tymor byr a chanolig wrth symud ymlaen. Darparwyd copïau ar wahân i'r aelodau o'r adroddiadau sicrwydd a gwblhawyd yn ystod y cyfnod dan sylw yn gysylltiedig â rheoli Perfformiad (Sicrwydd Rhesymol) a Diogelwch TGCh mewn Ysgolion uwchradd (Sicrwydd Cyfyngedig).

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Archwilio a Risg a roddodd grynodedb o'r ddau adolygiad sicrwydd a gwblhawyd yn ystod y cyfnod ac fe amlygodd y materion a nodwyd. O ran yr adolygiad a dderbyniodd Sicrwydd Cyfyngedig, fe adroddodd bod y Cyngor wedi rhoi nifer o fentrau ar waith a'i fod wedi sefydlu tîm prosiect i fynd i'r afael â'r risgiau a godwyd. Mae'r rheolwyr a'r ysgolion wedi cytuno ar gynllun gweithredu. Mae disgwyl i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau erbyn mis Gorffennaf 2026 a bydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad dilyn i fyny ym mis Ebrill 2026. Bydd y pwyllgor yn derbyn adroddiad cynnydd yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2026. Oherwydd natur y pryderon a godwyd yn ystod yr archwiliad, bydd rhaid trafod yr adroddiad sicrwydd cyfyngedig yn ystod sesiwn breifat, yn amodol ar brawf budd cyhoeddus. **Cytunodd y pwyllgor** y dylai ystyried yr adroddiad a'r cynllun gweithredu yn gysylltiedig â Diogelwch TGCh mewn Ysgolion Uwchradd (Sicrwydd cyfyngedig) yn fanwl yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2026, yn dilyn Adolygiad Cynnydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gofynnwyd i Brif Swyddog Digidol y Cyngor fod yn bresennol.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc bod y Gwasanaeth Dysgu, y gwasanaeth TGCh a'r ysgolion uwchradd wrthi'n cydweithio i roi'r argymhellion hyn ar waith, a bod nifer ohonynt wedi cael eu cwblhau eisoes. Bydd diweddariad mwy cynhwysfawr yn cael ei ddarparu yn ystod y cyfarfod ym mis Gorffennaf 2026 fel y cytunwyd.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol codwyd y pwyntiau a ganlyn gan y pwyllgor -

- Roedd gan Aelodau amheuaeth ynglŷn â pha mor effeithiol a rhagweithiol yw fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor yn sgil canlyniadau'r archwiliad, yn enwedig y sicrwydd cyfyngedig a roddwyd yn gysylltiedig ag ansawdd data ar lefel gwasanaeth a chorfforaethol, sy'n peri risg i gywirdeb y canlyniadau a adroddir.

Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod y gwasanaeth archwilio mewnol o'r farn bod y fframwaith yn effeithiol ar y cyfan a'i fod wedi ei ymgorffori ar hyd a lled y sefydliad ac mai'r prif fater yw'r anghysondeb o ran y modd y caiff perfformiad ei reoli ar draws gwasanaethau.

Ychwanegodd y Rheolwr Perfformiad Strategol a Phrosiectau bod yr archwiliad yn cefnogi'r farn bod y tîm Rheoli Perfformiad yn gweithio'n agos â gwasanaethau ar gynllunio busnes a monitro. Mae'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol wedi cael ei adolygu ar gyfer 2025/26 fel ei fod yn cyd-fynd yn well ag anghenion strategol y Cyngor ac mae'n cael ei fonitro'n rheolaidd. Roedd yn derbyn bod angen gwella'r modd y caiff data ei reoli a'i ddadansoddi, ond roedd o'r farn bod y broses graidd yn drylwyr a chadarn.

- Gofynnodd yr aelodau p'un a ddylid poeni am nifer y materion sylweddol a chymedrol a nodwyd yn ystod yr archwiliadau Rheoli Perfformiad a Diogelwch TGCh Ysgolion Uwchradd, a p'un a yw'r materion diogelwch TGCh mewn ysgolion yn gritigol.

Eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod un mater critigol wedi cael ei nodi yn yr adolygiad ar ddiogelwch TGCh mewn ysgolion uwchradd ond mae'r sgôr wedi cael ei leihau i sylweddol yn dilyn gwaith adferol. Eglurodd bod pob archwiliad yn cael ei asesu'n annibynnol ac nad yw'r lefel sicrwydd yn seiliedig ar nifer y materion a godir. Cadarnhaodd nad oes ganddi bryderon ehangach, gan fod adroddiadau sicrwydd cyfyngedig yn anghyffredin. Mae'r gwasanaeth archwilio mewnol yn rhoi blaenoriaeth i adroddiadau sicrwydd cyfyngedig ac yn sicrhau eu bod yn cael ei dilyn i fyny yn ffurfiol yn unol â phrotocol y gwasanaeth archwilio mewnol.

Penderfynwyd nodi canlyniad y gwaith Archwilio Mewnol, y sicrwydd a ddarparwyd a'r blaenoriaethu wrth symud ymlaen.

9. ADOLYGIAD O'R FFRAMWAITH RHEOLI RISG A DIWEDDARIAD AR Y GOFRESTR RISGIAU STRATEGOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio, a Risg a oedd yn cynnwys Datganiad Polisi'r Cyngor ar Reoli Risg a Chanllawiau ar Reoli Risg fel y'i diwygiwyd ym mis Rhagfyr 2025, i'w ystyried gan y pwyllgor.

Amlinellodd y Pennaeth Archwilio a Risg y newidiadau arfaethedig i fframwaith rheoli risg y Cyngor a rhoddodd ddiweddariad ar y gwaith sy'n mynd rhagddo gyda Zurich Risk Solutions, sydd wedi cael ei gomisiynu gan y Cyngor i gynnal adolygiad llawn o'i drefniadau rheoli risg. Amlygodd y newidiadau i'r Datganiad Polisi a Chanllawiau Rheoli Risg a chadarnhaodd y bydd fersiwn ddiwygiedig o'r gofrestr risgiau strategol yn cael ei chyflwyno i'r pwyllgor ym mis Chwefror, 2026.

Penderfynwyd nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd fel rhan o'r adolygiad cyflawn o'r fframwaith rheoli risg a'r gofrestr risgiau strategol.

10. RHEOLI TRYSORLYS - ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN 2025/26

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, a oedd yn nodi perfformiad y Cyngor ar ganol y flwyddyn yn gysylltiedig â strategaeth rheoli trysorlys 2025/26, i'w ystyried gan y pwyllgor.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth drosolwg o'r adroddiad yn cynnwys y cynnydd o ran cyllideb gyfalaf 2025/26, sefyllfa'r Cyngor o ran benthyca a'r rhagolygon hyd at fis Mawrth 2026 a'r incwm ar fuddsoddiadau hyd at 30 Medi 2025, ynghyd â'r sefyllfa a ragwelir ar gyfer 2025/26. Roedd Tabl 5 yn yr adroddiad yn amlinellu'r sefyllfa a ragwelir yn erbyn y dangosyddion rheoli trysorlys a therfynau. Cadarnhawyd bod perfformiad rheoli trysorlys y Cyngor yn parhau yn unol â'r strategaeth o ddefnyddio buddsoddiadau risg isel ac enillion isel, a dull benthyca a gynlluniwyd i leihau costau llog cymaint â phosib. Oherwydd mân achos technegol aethpwyd yn groes i'r arferion rheoli trysorlys am gyfnod byr, fel y nodir ym mharagraff 8 yn yr adroddiad, wedi i gyfrif galw godi'n uwch na'r terfynau a nodir yn y strategaeth rheoli trysorlys wedi i log gael ei ychwanegu i'r cyfrif. Cafodd hyn ei gywiro heb unrhyw golled i'r Cyngor.

Mewn ymateb i gwestiwn am y tebygolrwydd o wario'r gyllideb gyfalaf yn llawn erbyn diwedd y flwyddyn gan mai di ond 33% o'r gyllideb flynyddol sydd wedi ei gwario hanner ffordd drwy'r flwyddyn, dywedodd y Swyddog Adran 151 bod y rhagolygon yn seiliedig ar yr asesiadau a ddarparwyd gan y swyddogion prosiect sy'n gyfrifol am bob cynllun. Nododd bod nifer o ffactorau'n gallu effeithio ar gynnydd a gwariant a chadarnhaodd y bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod yr arian yn cael ei wario yn unol ag amodau pob grant neu y bydd yn gofyn i gael cario'r arian ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf.

Penderfynwyd nodi cynnwys yr Adolygiad Rheoli Trysorlys Canol Blwyddyn 2025/26 ac anfon yr adroddiad ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith heb unrhyw sylwadau pellach.

11. ADRODDIAD MONITRO ARCHWILIO ALLANOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid, a oedd yn crynhoi ymateb y Cyngor i'r adroddiadau archwilio allanol ac argymhellion cysylltiedig a gyhoeddwyd gan reoleiddwyr, i'w ystyried gan y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad hefyd yn darparu diweddariad ar y gwaith y mae'r Cyngor wedi'i gyflawni ers yr adroddiad monitro diwethaf a gyflwynwyd i'r pwyllgor ym mis Rhagfyr 2024.

Cadarnhaodd y Rheolwr Perfformiad Strategol a Phrosiectau bod mwyafrif yr argymhellion wedi neu ar fin cael eu gweithredu, a chafwyd eglurhad a diweddariad cynnydd ynglyn ag

unrhyw oedi. Mewn ymateb i awgrym y dylid darparu amserlen gydag argymhellion, cynghorodd y byddai hyn yn anodd gan fod nifer ohonynt yn argymhellion cenedlaethol a bod modd i awdurdodau ddewis gweithredu'r rhai mwyaf perthnasol un unol ag amgylchiadau lleol, a bod rhai eisoes ar waith mewn gwasanaethau.

Penderfynwyd nodi'r adroddiad a derbyn bod yr ymatebion a'r diweddariadau yn adlewyrchiad cywir o waith y Cyngor yn erbyn yr argymhellion perthnasol.

12. ARCHWILIO ALLANOL: MENTER TWYLL GENEDLAETHOL 2024/25 - DIWEDDARIAD AR GYFER CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cyflwynwyd nodyn briffio gan Archwilio Cymru, a oedd yn darparu diweddariad ar Fenter Twyll Genedlaethol 2024/25 ar lefel genedlaethol hyd at 31 Gorffennaf 2025, i'w ystyried gan y pwyllgor. Roedd y nodyn briffio'n cynnwys gwybodaeth leol yn ogystal ynglyn â nifer y pariadau data ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn ac roedd dadansoddiad pellach o'r pariadau data hyn yn ôl sgôr risg twyll ar gael yn Atodiad 2.

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio a Risg yr adroddiad, gan amlygu'r prif bwyntiau a nodi bod Archwilio Cymru'n annog y rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethiant i gael rhagor o fanylion lleol gan swyddogion arweiniol. Cafodd yr wybodaeth hon ei darparu i'r pwyllgor yn yr adroddiad ar Ganlyniadau Menter Twyll Genedlaethol 2024/25 a gyflwynwyd iddo yn ei gyfarfod ar 30 Medi 2025 ac a oedd yn nodi bod systemau cadarn ar waith yn fewnol ar gyfer rheoli tenantiaid/rhestrau aros, y gyflogres a chaffael. Bwriedir defnyddio darparwr allanol i gynnal adolygiad swmp, dan reolaeth o Ddisgowntiau Person Sengl y Dreth Gyngor cyn diwedd 2025/26.

Gofynnodd y pwyllgor pam bod pob un o'r 5,000 o bariadau Disgownt Person Sengl y Dreth Gyngor yn bariadau risg uchel, gan fod y statws person sengl yn ddeinamig ac yn gallu newid yn ddyddiol. Holodd yr aelodau ynglyn â'r gyfradd llwyddiant yn ogystal o ran adennill disgowntiau sy'n cael eu hawlio'n dwyllodrus neu mewn camgymeriad.

Eglurodd Carwyn Rees, Rheolwr Archwilio Perfformiad Archwilio Cymru bod Disgownt Person Sengl y Dreth Gyngor yn cael ei ystyried yn faes risg uchel yn seiliedig ar ganfyddiadau hanesyddol er nad yw pob pariad yn awgrymu bod problem.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 amlinelliad o'r dulliau sydd ar gael i'r Cyngor ar gyfer adennill disgowntiau anghymwys neu dwyllodrus a phwysleisiodd bod nifer o'r pariadau'n ddilys. Nododd hefyd bod yr adroddiad yn adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg benodol a bod y data'n cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n ddyddiol. Cadarnhaodd bod y Cyngor yn y broses o benodi darparwr allanol i adolygu Disgowntiau Person Sengl y Dreth Gyngor, ond bod oedi wedi bod.

Mewn ymateb i gwestiwn pellach gan y pwyllgor ynglyn â'r gwerth am arian yr oedd yr adroddiad yn ei gynnig o ran canfod colledion ariannol, dywedodd Carwyn Rees, Archwilio Cymru mai pwrpas yr adroddiad yw codi ymwybyddiaeth ac ysgogi ymchwiliadau pellach. Bydd adroddiad cenedlaethol, a fydd yn cael ei lywio gan yr holl ganfyddiadau lleol, yn cael ei gyhoeddi yn hydref 2026.

Penderfynwyd nodi'r nodyn briffio gan Archwilio Cymru a derbyn sicrwydd bod y Cyngor, gan ystyried yr angen i flaenoriaethu ei adnoddau, yn ceisio manteisio ar gyfleoedd a ddarperir gan y Fenter Twyll Genedlaethol i ddefnyddio dulliau dadansoddi data i gryfhau trefniadau atal a chanfod twyll.

13. ARCHWILIO ALLANOL: RHEOLAETH STRATEGOL AR FALANSAU A CHRONFEYDD WRTH GEFN - CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cyflwynwyd adroddiad gan Archwilio Cymru ar ganfyddiadau ei archwiliad i ba mor dda y mae'r Cyngor yn rheoli ei gronfeydd wrth gefn a'i falansau i'w ystyried gan y pwyllgor.

Cadarnhaodd Carwyn Rees, Rheolwr Archwilio Perfformiad Archwilio Cymru bod yr adroddiad yn galonogol a'i fod yn dod i'r casgliad bod y Cyngor yn rheoli ei gronfeydd wrth gefn yn effeithiol ac yn eu hadolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, byddai'r Cyngor yn elwa o sefydlu protocolau ffurfiol ar gyfer eu defnyddio a'u hailgyflenwi yn ogystal â meini prawf i benderfynu sut a phryd y dylid sefydlu cronfeydd wrth gefn. Un argymhelliad yw cryfhau'r trefniadau hyn. Mae'r rheolwyr wedi derbyn yr argymhelliad hwn ac mae camau ac amserlen wedi cael eu sefydlu er mwyn cyflawni'r argymhelliad.

Penderfynwyd nodi'r adroddiad a chymryd sicrwydd bod yr ymateb gan reolwyr yn cadarnhau bod camau wedi cael eu cymryd gan y Cyngor i fynd i'r afael â'r argymhellion.

14. ARCHWILIO ALLANOL: TREFNIADAU AR GYFER COMISIYNU GWASANAETHAU - CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cyflwynwyd adroddiad gan Archwilio Cymru ar ganfyddiadau ei archwiliad i drefniadau'r Cyngor ar gyfer comisiynu gwasanaethau i'w ystyried gan y pwyllgor.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Perfformiad Strategol a Phrosiectau Archwilio Cymru. Ar y cyfan, canfu Archwilio Cymru nad yw'r Cyngor yn gallu dangos ei fod yn sicrhau gwerth am arian yn rheolaidd drwy ei wasanaethau a gomisiynwyd. Fel rhan o'r archwiliad adolygwyd tri gwasanaeth lle mae'r Cyngor wedi penderfynu comisiynu gwasanaethau'n allanol - rheoli gwastraff a glanhau strydoedd, y gwasanaeth digartrefedd i bobl ifanc a thrafnidiaeth ysgolion (bysiau). Nid oedd y gwasanaethau hyn yn cytuno â chanfyddiadau'r archwiliad ac maent o'r farn bod prosesau ar waith i adolygu'r trefniadau a monitro contractau'n rheolaidd i sicrhau gwerth am arian. Er bod Archwilio Cymru wedi derbyn adborth gan y Cyngor, nid oedd yn derbyn y sylwadau hynny.

Cadarnhaodd Lora Williams, Archwilio Cymru bod yr holl adborth y mae Archwilio Cymru yn ei dderbyn gan awdurdodau lleol ynglŷn ag adroddiadau drafft yn cael ei ystyried ganddo. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn ym mhob cyngor yng Nghymru a bydd crynodeb o'r canfyddiadau cenedlaethol ar gael ym mis Ionawr 2026.

Yn ystod y drafodaeth, cododd aelodau'r pwyllgor bryderon ynglŷn â'r sylfaen dystiolaeth gan nodi nad oedd yn ddigonol i gefnogi'r casgliad cyffredinol ynglŷn â threfniadau comisiynu'r Cyngor ac nad oedd y tri gwasanaeth a ddewiswyd yn cynrychioli'r amrywiaeth ehangach o gontractau sydd gan y Cyngor. Felly, roedd rhai aelodau'n teimlo na allent dderbyn y canfyddiadau. Codwyd pryder hefyd nad oedd adborth y Cyngor wedi cael ei gynnwys yn yr adroddiad.

Nododd Lora Williams mai dim ond dau awdurdod lleol oedd wedi gwneud sylw ynglŷn â maint y sampl. Eglurodd bod yr archwiliad wedi asesu trefniadau comisiynu corfforaethol; felly hyd yn oed gyda sampl mwy, pe byddai un gwasanaeth yn dilyn safonau gwasanaeth lleol yn hytrach na rhai corfforaethol byddai'r casgliad cyffredinol yr un fath, sef nad yw trefniadau comisiynu corfforaethol y Cyngor yn dilyn arferion gorau ac yn sicrhau gwerth am arian. Fe ychwanegodd bod y tri gwasanaeth wedi cael eu dewis mewn ymgynghoriad â'r Cyngor a bod Archwilio Cymru'n dilyn safonau archwilio rhyngwladol wrth gynnal archwiliadau sy'n golygu bod gofyn iddo ystyried sylwadau'r corff y mae'n ei archwilio ond nad oes rhaid iddo eu derbyn.

Gofynnodd y pwyllgor a fyddai modd cael sicrwydd drwy brosesau archwilio mewnol. Cyngorodd y Pennaeth Archwilio a Risg nad oedd y cynllun archwilio mewnol ar gyfer 2025/26 yn cynnwys adolygu trefniadau comisiynu, ond y gellid ystyried cynnwys archwiliad o'r fath yn y cynllun ar gyfer 2026/27 ar gais.

Nododd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 er bod anghytuno ynglyn â maint y sampl, bod rheolwyr wedi ystyried yr adroddiad a'r argymhellion a darparu ymateb a'u bod yn y broses o weithredu'r argymhellion. Amlinellodd y sefyllfa bresennol o safbwynt caffael a chadarnhaodd bod y strategaeth caffael wedi cael ei mabwysiadu ond nad oes rheolwr caffael parhaol wedi cael ei benodi a bod y swydd yn cael ei chyflawn dros dro ar hyn o bryd. Mae'r swydd wedi cael ei hysbysebu ac unwaith y bydd rheolwr wedi cael ei benodi'n barhaol bydd modd datblygu proses i werthuso cydymffurfiaeth y Cyngor â'r ddeddfwriaeth caffael a chyflwyno adroddiad ar y canfyddiadau i'r pwyllgor er mwyn darparu sicrwydd.

Er nad oedd y pwyllgor yn gallu derbyn y casgliadau yn adroddiad Archwilio Cymru, fe wnaeth nodi a derbyn y bydd y Cyngor yn bwrw 'mlaen â'r cynllun gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion hynny.

Penderfynwyd nodi'r adroddiad, a nodi a derbyn y bydd y Rheolwyr yn mynd ati i gyflawni'r camau gweithredu sydd wedi eu nodi yn y ffurflen ymateb.

(Fe wnaeth y Cyngorydd Euryn Morris a'r Cyngorydd Margaret M Roberts atal eu pleidlais)

15. ADOLYGIAD O'R FLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg, a oedd yn cynnwys y flaen raglen waith ar gyfer 2025/26 a oedd wedi cael ei diwygio i adlewyrchu'r newidiadau mwyaf diweddar, i'w ystyried gan y pwyllgor.

Penderfynwyd cadarnhau bod y Flaen Raglen Waith ar gyfer 2025/26 yn cwrdd â chyfrifoldebau'r pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl.

**Mr Dilwyn Evans
(Cadeirydd)**

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad:	3 Chwefror 2026
Pwnc:	Log Gweithredodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Pennaeth Gwasanaeth:	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.llyw.cymru
Awdur yr Adroddiad:	Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru
Natur a Rheswm Dros Adrodd: Mae'r adroddiad hwn yn hysbysu aelodau'r Pwyllgor am statws y gweithredoedd / penderfyniadau y cytunwyd arnynt.	

1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae'r cofnod gweithredu hwn yn cael ei ddiweddararu cyn pob cyfarfod er mwyn galluogi'r pwyllgor i fonitro cynnydd a chwblhau'r camau/penderfyniadau y mae wedi cytuno arnynt.

2. Argymhellion

- 2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r camau y manylir arnynt yn y tabl isod a'i fod yn fodlon â'r camau a roddwyd ar waith.

Log Gweithredoedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Rhif	Dyddiad y Cyfarfod	Rhif yr Eitem	Gweithred	Perchennog y Weithred	Camau a Gymerwyd	Statws
10	27/06/24	9	Dylid cynnwys monitro nifer y bobl mewn anweithgarwch economaidd fel rhan o set ddata tueddiadau poblogaeth y Cyngor.	Rheolwr Perfformiad Strategol a Phrosiectau	Mae'r Cyngor wedi cwblhau dadansoddiad sosio-economaidd o boblogaeth yr ynys, mae hyn yn cynnwys anweithgarwch economaidd, cyflwynwyd adroddiad ar gyfer rhanbarth gogledd Môn i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf 2024 . Mae adroddiad ar gyfer yr ynys gyfan hefyd ar y gweill a bydd yn cael ei gyhoeddi'n fuan.	Wedi cwblhau.
	05/12/24	3			DIWEDDARIAD: Yn ei gyfarfod ar 5 Rhagfyr 2024 (Eitem 3), cytunodd y Rheolwr Perfformiad Strategol a Phrosiectau i roi dolen i'r pwyllgor i gael mynediad at adroddiad dadansoddiad economaidd-gymdeithasol ac effaith Quod Môn pan gaiff ei gyhoeddi.	
	08/05/25	3			DIWEDDARIAD: Yn ei gyfarfod ar 8 Mai 2025, rhoddodd y Pennaeth Archwilio a Risg ddiweddariad gan y Rheolwr Perfformiad Strategol a Phrosiectau bod dadansoddiad economaidd-gymdeithasol ac adroddiad effaith Quod Ynys Môn wedi'i gwblhau ond nad yw wedi'i gyhoeddi eto.	
	26/06/25	4			DIWEDDARIAD: Mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn ystyried sut i gyfathrebu a rhannu'r adroddiad.	
	n/a	n/a			Cylchredodd y Pennaeth Archwilio a Risg adroddiad cryno Quod ar ran y Rheolwr Perfformiad Strategol a Phrosiectau ar 26/01/26.	

Rhif	Dyddiad y Cyfarfod	Rhif yr Eitem	Gweithred	Perchennog y Weithred	Camau a Gymerwyd	Statws
20	05/12/24	11	Ar gyfer adroddiadau monitro archwilio allanol a rheoleiddwyr yn y dyfodol, bydd amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith yn cyd-fynd â diweddariadau ar gynnydd yr ymatebion i argymhellion.	Rheolwr Perfformiad Strategol a Phrosiectau	Mae'r adroddiad archwilio allanol a monitro rheoleiddwyr bellach yn cynnwys arwydd o'r cynnydd yn erbyn y dyddiad cwblhau targed.	Wedi cwblhau.
24	08/05/25	9	Y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 i godi'r mater o ganllawiau polisi ar ddefnydd Deallusrwydd Artiffisial o fewn y Cyngor gyda'r Tîm Arweinyddiaeth.	Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151	Mae polisi wedi'i ddrafftio, a'i ddiweddarau'n ddiweddar yn dilyn sylwadau a wnaed gan y Swyddog Diogelu Data. Bydd y Tîm Arweinyddiaeth yn ystyried ac yn mabwysiadu pryd y gallent ddyrannu slot.	Ar y gweill.
	26/06/25	4			DIWEDDARIAD: Ystyriodd y Tîm Arweinyddiaeth y polisi drafft yn ei gyfarfod ar 17/06/25 ac wedi gofyn iddo gael ei adolygu ymhellach.	
26	16/07/25	5	I'r Pwyllgor gael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn erbyn y materion llywodraethu a nodwyd trwy broses asesu 2024/25 yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2025.	Rheolwr Perfformiad Strategol a Phrosiectau	Mae Rheolwr Tîm Perfformiad a Phrosiectau wedi gofyn am ohirio tan gyfarfod y pwyllgor ym mis Chwefror 2026. Eitem wedi'i chynnwys ar yr agenda ar 03/02/26.	Wedi cwblhau.

Rhif	Dyddiad y Cyfarfod	Rhif yr Eitem	Gweithred	Perchennog y Weithred	Camau a Gymerwyd	Statws
27	16/07/25	5	Dylid darparu dadansoddiad o gyfradd gadael staff i aelodau'r pwyllgor, gan gynnwys dadansoddiad o symudiadau mewnol yn hytrach nag ymadawiadau allanol.	Rheolwr Perfformiad Strategol a Phrosiectau	Mae'r Rheolwr Perfformiad Strategol a Phrosiectau wedi trafod hyn gyda chydweithwyr ym maes Adnoddau Dynol. Yn anffodus, nid yw'r system AD yn caniatáu i symudiad staff rhwng gwasanaethau gael ei olrhain yn hawdd. Mae swyddogion yn edrych ar hyn ac yn gobeithio rhoi diweddariad erbyn y cyfarfod nesaf. DIWEDDARIAD 04/12/25: • 490 o swyddi wedi'u llenwi • 195 wedi'u penodi yn fewnol, sy'n cyfateb i 40% mewnol / 60% allanol • O'r 195 mewnol, symudodd 15 o un gwasanaeth i'r llall, sy'n cyfateb i 8% / 92% trosiant mewnol / wedi'i benodi o fewn yr un gwasanaeth.	Wedi cwblhau.
29	30/09/25	5	Y Prif Swyddog Diogelu'r Cyhoedd i ddod â'r cynllun strategol lechyd a Diogelwch Corfforaethol tair blynedd wedi'i gwblhau, sy'n ymgorffori camau gweithredu SMART, i gyfarfod y pwyllgor yn y dyfodol.	Prif Swyddog Diogelu'r Cyhoedd		
33	04/12/25	8	Cytunodd y pwyllgor bod adroddiad a chynllun gweithredu Diogelwch TGCh Ysgolion Uwchradd (Sicrwydd Cyfyngedig) yn cael eu hystyried yn fanwl yng nghyfarfod Gorffennaf 2026 yn	Pennaeth Archwilio a Risg / Prif Swyddog Digidol		

Rhif	Dyddiad y Cyfarfod	Rhif yr Eitem	Gweithred	Perchennog y Weithred	Camau a Gymerwyd	Statws
			dilyn adolygiad cynnydd yr Archwilio Mewnol a gofynnodd i Brif Swyddog Digidol y Cyngor fynychu.			

This page is intentionally left blank

Cyngor Sir Ynys Môn

Adroddiad i:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Pwyllgor Gwaith Y Cyngor
Dyddiadau:	3 Chwefror 2026 24 Chwefror 2026 5 Mawrth 2026
Pwnc:	Diwygio'r Cyfansoddiad - Cymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor yn Derfynol
Aelod(au) Portffolio:	
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro
Awdur yr Adroddiad:	Lisa Lord, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Swyddog Monitro Dros Dro
Aelodau Lleol:	Pawb

A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:

Argymhellion

Pwyllgor Gwaith

Bod y Pwyllgor Gwaith yn mynegi barn ar y newid arfaethedig i'r Cyfansoddiad er mwyn rhoi'r hawl i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, yn hytrach na'r Cyngor, gymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor yn derfynol.

Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Bod y Pwyllgor yn mynegi barn ar y newid arfaethedig i'r Cyfansoddiad er mwyn rhoi'r hawl i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, yn hytrach na'r Cyngor, gymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor yn derfynol.

Y Cyngor

Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r newid arfaethedig i'r Cyfansoddiad er mwyn rhoi'r hawl i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, yn hytrach na'r Cyngor, gymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor yn derfynol.

Rhesymau

- Ar hyn y bryd mae prif gamau'r broses ar gyfer paratoi a chymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor fel a ganlyn:
 - Proses fewnol (paratoi ac adolygu)

- Ailgyflwynwyd Grŵp Llywodraethu amlddisgyblaethol er mwyn cynorthwyo i lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Adolygu hyd at Fai 2026.
- Cyflwyno drafft i'r Tîm Arweinyddiaeth Mai/Mehefin 2026.
- Cyhoeddi drafft ar-lein ddiwedd Mehefin 2026. Anfonir manylion at yr holl gynghorwyr bryd hynny, gan wahodd sylwadau.

2. Adolygiad gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Gorffennaf.

3. Cymeradwyo, y Cyngor llawn sy'n gwneud hynny ar hyn o bryd (mewn da bryd ar gyfer cyhoeddi'r datganiad erbyn dim hwyrach na 30 Medi 2026)

- Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn ffurfio rhan o Gyfrifon Blynyddol y Cyngor er mwyn bodloni'r gofyniad i gyhoeddi Datganiad Rheolaeth Fewnol. Yn ddiweddar, cymeradwyodd y Cyngor newid i'r Cyfansoddiad, er mwyn dirprwyo'r hawl i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gymeradwyo'r Cyfrifon Blynyddol y Cyngor.
- Cyflwynwyd y newid hwn i gyd-fynd â Chynllun Blynyddol Archwilio Cymru ac mae'n cynnwys nod clir i fyrhau'r amserlen archwilio ar gyfer llywodraeth leol. Y dyddiad awdurdodi ar gyfer 2025/26 yw 30/09/2026 ac mae hyn fis yn gynharach nag yn 2024/25.
- Mae Llywodraeth Cymru'n argymhell cyhoeddi'r Datganiad Rheolaeth Fewnol (sef y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y Cyngor hwn) yr un pryd â'r cyfrifon heb eu harchwilio, a'u bod yn cael eu llofnodi a'u dyddio gan y swyddog ariannol cyfrifol.
- Mae hyn yn golygu fod llai o amser ar gael i ymateb i unrhyw faterion a godir gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a llunio fersiwn ddiwygiedig gywir a dwyieithog, mewn cyfnod pan fydd pwysau hefyd o ran cynhyrchu Cyfrifon Blynyddol y Cyngor.
- Os bydd y Cyngor yn parhau i fod yn gyfrifol am gymeradwyo'r ddogfen, yna bydd rhaid symud cyfarfod Medi 2026, neu bydd angen cynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor llawn.
- Mae dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn broses gymeradwyo fwy effeithiol ac mae'n golygu y byddai'r amserlen ar gyfer cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn parhau i fod yr un fath â'r amserlen gymeradwyo ar gyfer Cyfrifon Blynyddol y Cyngor. Ni fydd hyn yn creu anfantais i unrhyw gynghorydd, na'r cyhoedd, gan y bydd yr adroddiadau ar gael yn ôl yr arfer a phan gyhoeddir y Datganiad Llywodraethu Drafft (bwriedir gwneud hynny ddiwedd Mehefin 2026), anfonir copi at bob cynghorydd yn gwahodd eu sylwadau.
- Yn erbyn y cefndir hwn, gofynnir am gael addasu paragraff 3.4.8.4.2 - *"Bydd y Pwyllgor yn adolygu a chymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ~~cyn~~ gofyn am gymeradwyaeth y cyngor llawn a bydd yn ystyried p'un yw'n adlewyrchu'r amgylchedd risg a'r sicrwydd ategol yn briodol, gan gynnwys barn flynyddol y Pennaeth Archwilio a Risg. ~~Bydd yn ystyried~~ Bydd y Pwyllgor yn penderfynu p'un a yw'r arfarniad blynyddol ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn casglu'n deg bod y trefniadau llywodraethu yn addas i bwrpas, a'u bod yn cynorthwyo i gyflawni amcanion yr awdurdod."*

- O dan baragraff 2.15.2.1 o'r Cyfansoddiad "...ni fydd y Cyngor llawn yn cymeradwyo newidiadau i'r Cyfansoddiad hyd oni fydd y Pwyllgor Gwaith wedi ystyried y cynnig".
- Cyflwynir adroddiad hefyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ar 3 Chwefror 2026, er mwyn gofyn barn y pwyllgor hwnnw ar y newid arfaethedig.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Bod y Cyngor llawn yn parhau i fod yn gyfrifol am gymeradwyo'r ddogfen. Gwrthodwyd hyn gan fod y sefyllfa bresennol yn cael effaith negyddol ar effeithlonrwydd y broses, ac nid yw'r newid arfaethedig yn creu anfantais i unrhyw barti.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Nid yw hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith, a bydd y penderfyniad yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn. Fodd bynnag, o dan baragraff 2.15.2.1 o'r Cyfansoddiad, mae'n ofynnol rhoi cyfle i'r Pwyllgor Gwaith gyflwyno sylwadau ar unrhyw newidiadau y bwriedir eu gwneud i'r Cyfansoddiad.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Mae'n rhaid i'r Cyngor llawn gymeradwyo newidiadau i'r Cyfansoddiad (nad ydynt yn ymwneud â 3.5.3.6.6. a 3.4.12.6.3)

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Nid oes unrhyw effaith ar y gyllideb

Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol)

1. Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel ynys?

Mae'r newid arfaethedig yn hwyluso proses gwneud penderfyniadau effeithlon mewn perthynas â dogfennau sydd eu hangen fel rhan o gyfrifon statudol y Cyngor.

2. A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaeth ar y Cyngor yn y dyfodol? Os felly, sut?

Nid i unrhyw raddau sylweddol, ond bydd yn osgoi'r angen i gynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor.

3. A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, gyda phwy?

CIPFA

4. A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Eglurwch sut.

Nac ydy

5. Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Dim effaith

6. Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

Dim effaith

7. Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dim effaith

E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori a beth oedd eu sylwadau?

1. Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (gorfodol)	Tîm Arweinyddiaeth yn cefnogi'r cynnig (20 Ionawr 2026)
2. Swyddog Cyllid / 151	Cefnogol o'r cais a fyddai'n dod â'r broses o gymeradwyo yn unol â'r broses o gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon blynyddol
3. Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Dim gwrthwynebiad i'r argymhelliaid
4. AD	Amherthnasol
5. Eiddo	Amherthnasol
6. TG	Amherthnasol
7. Caffael	Amherthnasol
8. Sgriwtini	Amherthnasol
9. Aelodau Lleol	Ymgynghorir â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 03 Chwefror 2026

F - Atodiadau

Ff - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach)

CIPFA, Delivering good governance in local government: framework addendum (Mai 2025)
[Delivering Good Governance in Local Government Addendum](#)

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adrodd i:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad:	3 Chwefror 2026
Pwnc:	Llywodraethu Gwybodaeth mewn Ysgolion 2024-25
Pennaeth Gwasanaeth:	Aaron Evans Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc aaronevans@ynysmon.llyw.cymru
Awdur yr Adroddiad:	Caryl Lewis Swyddog Diogelu Data Ysgolion Dros Dro post@celyn.cymru
Natur a Rheswm dros Adrodd: Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ofyniad eglur i'r pwyllgor ystyried fframwaith sicrwydd y cyngor ac i sicrhau ei fod yn mynd i'r afael yn ddigonol â risgiau a blaenoriaethau'r cyngor (3.4.8.7.1). Bydd y pwyllgor yn sicrhau bod eglurder ynghylch pa sicrwydd a ddarperir, bod dyletswyddau clir wedi'u neilltuo ar gyfer darparu sicrwydd, ac y caiff dyblygu ei osgoi (3.4.8.2). I'r perwyl hwnnw, bydd y pwyllgor yn derbyn adroddiadau sicrwydd blynyddol, gan gynnwys adroddiad ynglŷn â Llywodraethu Gwybodaeth mewn Ysgolion (3.4.8.7.3).	

Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sicrwydd blynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar effeithiolrwydd llywodraethu gwybodaeth a diogelu data mewn ysgolion a gynhelir. Mae'n cynnig diweddariad cymesur sy'n seiliedig ar risgiau, yn amlygu materion a rheolaethau allweddol, ac yn llywio Adroddiad Blynyddol SIRO y cyngor.

Argymhelliad

- 2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r sicrwydd a ddarperir gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion Dros Dro.

1. Pwrpas yr Adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi datganiad sicrwydd blynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu gwybodaeth a diogelu data ar draws ysgolion a gynhelir.

Nod yr adroddiad hwn yw:

- rhoi diweddariad sicrwydd cymesur sy'n seiliedig ar risg
- amlygu materion a rheolaethau allweddol, a
- llywio Adroddiad Blynyddol y Perchennog Uwch Risg Gwybodaeth (SIRO).

2. Cyd-destun a Threfniadau DPO

Yn ystod y cyfnod adrodd, mae rôl y Swyddog Diogelu Data Ysgolion wedi'i llenwi dros dro, ar gyfartaledd o un diwrnod yr wythnos (mwy pan fo angen), yn ystod absenoldeb hirdymor deilydd gwreiddiol y swydd.

Bu ffocws rôl y Swyddog Diogelu Data Ysgolion Dros Dro ar:

- gynnal cydymffurfiaeth statudol
- rheoli risgiau a digwyddiadau byw
- darparu parhad cyngor a chefnogaeth i ysgolion
- gweithredu fel pwynt canolog ar gyfer uwchgyfeirio a sicrwydd.

Gan ystyried y capasiti cyfyngedig, mae gwaith wedi'i flaenoriaethu yn ôl risg, gyda phwyslais ar ddyletswyddau statudol, digwyddiadau a materion risg uchel yn hytrach na gweithgarwch archwilio neu ddatblygu rhagweithiol.

3. Cwmpas y Sicrwydd

Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael ag:

- ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig yn derbyn cefnogaeth y Swyddog Diogelu Data Ysgolion
- cydymffurfiaeth â'r UK GDPR a Deddf Diogelu Data 2018
- ymdrin â hawliau gwybodaeth, rheoli digwyddiadau ac uwchgyfeirio risgiau
- effeithiolrwydd rheolaethau yn gweithredu ar lefel ysgol.

4. Barn Gyffredinol ar Sicrwydd

Lefel y Sicrwydd: Sicrwydd Rhesymol

Yn seiliedig ar waith a wnaed yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion Dros Dro yn rhoi Sicrwydd Rhesymol bod:

- gan ysgolion bolisiau a gweithdrefnau diogelu data priodol ar waith yn gyffredinol
- ymarferion dyddiol o ymdrin â gwybodaeth yn gadarn iawn

- digwyddiadau a thoriadau sy'n cael eu hadrodd a cheisiadau hawliau gwybodaeth yn cael eu hadnabod a'u rheoli'n briodol
- llwybrau uwchgyfeirio i wasanaethau corfforaethol a'r SIRO yn gweithredu'n effeithiol.

Fodd bynnag, mae angen gwelliant pellach i gryfhau sicrwydd mewn perthynas â:

- chysondeb hyfforddiant gloywi a chofnodion o hyfforddiant,
- gallu ysgolion i dystiolaethu cydymffurfiaeth a hunan-fonitro parhaus, a
- cwblhad a chynhaliaeth dogfennaeth ffurfiol megis Cofnodion o Weithgareddau Prosesu (ROPA) ac Asesiadau Effaith Diogelu Data (DPIAs).

5. Gweithgareddau ac Allbynnau Allweddol

Er gwaethaf capasiti cyfyngedig y DPO, cynhaliwyd y gweithgareddau craidd canlynol i gefnogi cydymffurfiaeth a rheolaeth risgiau:

Cyngor, arweiniad a phwynt cyswllt

- Ymatebodd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion Dros Dro i ymholiadau dyddiol gan ysgolion mewn perthynas â:
 - Cheisiadau gan Wrthrych y Data (SARs) a cheisiadau am gofnodion addysg
 - ymholiadau diogelu data a llywodraethu gwybodaeth cyffredinol
 - toriadau data a thoriadau data posib wedi'u hadrodd.
- Cefnogaeth wedi'i ffocysu ar brosesu cyfreithlon, golygu priodol, amserlenni statudol a rheoli risgiau cymesur.

Rheoli digwyddiadau a risgiau

- Cefnogwyd ysgolion i asesu, cyfyngu a rheoli toriadau data a digwyddiadau agos.
- Rhoddwyd cyngor ar drothwyon adrodd yr ICO a gweithredoedd adfer, gydag uwchgyfeirio lle bo angen.

Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth

- Darparwyd sesiwn hyfforddiant diogelu data yn ystod diwrnod hyfforddiant ysgolion a drefnwyd, gan atgyfnerthu cyfrifoldebau a meysydd risg cyffredin staff.
- Atgoffwyd ysgolion o bwysigrwydd hyfforddiant gloywi a chynnal cofnodion o bresenoldeb at ddibenion atebolrwydd.

Cyfathrebu ac atgoffa

- Rhoddwyd mewnbwn rheolaidd yn y bwletin ysgolion wythnosol i:
 - atgoffa ysgolion o'u cyfrifoldebau diogelu data statudol
 - amlygu materion sy'n codi dro ar ôl tro o ddigwyddiadau ac ymholiadau
 - hyrwyddo ymarfer llywodraethu gwybodaeth da.

Bu i'r gweithgareddau hyn helpu i sicrhau parhad cydymffurfiaeth ac i annog ymgysylltiad cynnar â swyddogaeth y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn ystod absenoldeb deilydd gwreiddiol y swydd.

6. Risgiau Allweddol a Nodwyd

Amlygir y risgiau strategol canlynol at sylw'r Pwyllgor:

Risg	Crynodeb
Ymdriniaeth â hyfforddiant	Mae hyfforddiant gloywi yn anghyson ac nid yw bob amser yn cael ei dystiolaethu ar draws ysgolion.
Tystiolaeth o gydymffurfiaeth	Mae gan rai ysgolion ddiffyg dogfennaeth glir i arddangos gweithgarwch monitro a chydymffurfiaeth rheolaidd.
Aeddfedrwydd dogfennaeth	Mae ROPA, DPIAs a chofrestrau asedau ar gamau amrywiol o gwblhad ac adolygiad.
Cyfyngiadau capasiti	Mae capasiti cyfyngedig y Swyddog Diogelu Data Dros Dro yn cyfyngu ar weithgarwch archwilio a datblygu rhagweithiol.

Cydnabyddir y risgiau hyn ac maent yn cael eu rheoli'n gymesur, gydag uwchgyfeirio lle bo angen.

7. Amgylchedd Rheoli a Mesurau Lliniaru

Mae rheolaethau allweddol sydd ar waith ar hyn o bryd yn cynnwys:

- llwybr cyngor ac uwchgyfeirio Swyddog Diogelu Data canolog,
- polisïau, templedi a chanllawiau i ysgolion,
- deunyddiau hyfforddiant a gweithgarwch ymwybyddiaeth,
- blaenoriaethu risgiau byw, digwyddiadau a rhwymedigaethau statudol.

Gyda'i gilydd, mae'r rheolaethau hyn yn cefnogi cydymffurfiaeth barhaus ond byddent yn cael budd o gryfhau pellach.

8. Symud Ymlaen a Blaenoriaethau

Argymhellir y blaenoriaethau canlynol ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf:

- a) Sefydlogi capasiti'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion i gefnogi gweithgarwch sicrwydd rhagweithiol.
- b) Gwell goruchwyliaeth o hyfforddiant, gan gynnwys ymdriniaeth â hyfforddiant gloywi a chofnodion o hyfforddiant.
- c) Tystiolaeth gryfach o gydymffurfiaeth drwy hunanasesu cymesur neu archwilio wedi'i dargedu.
- d) Parodrwydd parhaus am newidiadau deddfwriaethol ym maes diogelu data.

9. Casgliad

O fewn cyfyngiadau trefniant dros dro a chyfyngedig, mae swyddogaeth y DPO ysgolion wedi:

- cynnal cydymffurfiaeth statudol
- cefnogi ysgolion yn effeithiol gyda risgiau a digwyddiadau byw
- darparu sicrwydd ar drefniadau llywodraethu gwybodaeth.


Mae'r materion a nodwyd yn gyson â'r adroddiadau blaenorol ac yn rhai y gellir eu rheoli gyda ffocws parhaus a digon o adnoddau priodol.

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
ADRODDIAD I:	PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
DYDDIAD:	3 CHWEFOR 2026
PWNC:	DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2026/27
DEILYDD PORTFFOLIO:	CYNG ROBIN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID, BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD Y CWSMER
SWYDDOG(ION) ARWEINIOL:	R MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151
SWYDDOG(ION) CYSWLLT: Ebost	CLAIRE KLIMASZEWSKI ClaireKlimaszewski@ynysmon.llyw.cymru
Natur a Rheswm dros Adrodd Er mwyn cydymffurfio â rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, Codau Darbodus a Rheoli'r Trysorlys CIPFA, mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio a chyhoeddi Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys Blyneddol (DSRhT) cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Mae'r DSRhT yn nodi'r holl ofynion y mae'n rhaid eu dilyn wrth gynnal gweithgareddau rheoli'r trysorlys Cyngor Sir Ynys Môn. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod buddsoddiadau'r Cyngor yn ddiogel ac yn ddigon hygyrch fel bod digon o arian parod ar gyfer taliadau o ddydd i ddydd wrth iddynt ddod yn ddyledus. Yn unol â gofynion y codau, mae'r DSRhT hefyd yn darparu fframwaith i sicrhau bod lefelau benthyca'r Cyngor yn parhau'n ddarbodus a fforddiadwy. O dan Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, mae'r Cyngor llawn wedi enwebu'r Pwyllgor i fod yn gyfrifol am sicrhau bod y strategaeth a pholisïau rheoli'r trysorlys yn destun craffu effeithiol. Bydd y DSRhT wedyn yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, cyn i'r Cyngor llawn ei gymeradwyo ym mis Mawrth 2026. Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:- 1. Adolygu'r DSRhT drafft ar gyfer 2026/27. 2. Cyflwyno unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith, fydd yn trafod yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 24 Chwefror 2026.	

DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS**STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL, DATGANIAD POLISI DARPARIAETH REFENIW ISAF A DATGANIAD POLISI RHEOLI'R TRYSORLYS 2026/27****1. CYFLWYNIAD**

- 1.1** Mae Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) 2026/27 yn darparu'r fframwaith ar gyfer rheoli'r trysorlys o ddydd i ddydd ac yn y tymor canolig. Mae wedi'i gwblhau'n unol â Chod Darbodus CIPFA 2021 a Chod Trysorlys CIPFA 2021.
- 1.2** Mae'r DSRhT yn rhan allweddol o brosesau cynllunio strategol y Cyngor ac mae'n helpu i sicrhau bod y Cyngor yn gallu cyflawni ei amcanion a'i weledigaeth strategol. Mae cylch strategol y Cyngor, isod, yn dangos bod Cynllun y Cyngor yn ganolog i waith y Cyngor. Rhaid i holl gynlluniau strategol a gweithredol y Cyngor fod yn gyson â Chynllun y Cyngor i ddarparu'r gwasanaethau a'r blaenoriaethau sydd eu hangen i gyflawni amcanion strategol y Cynllun. Mae'r cylch yn dangos mai Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, ochr yn ochr â'r Strategaeth Gyfalaf a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, yw'r strategaethau ariannol allweddol i sicrhau bod adnoddau ariannol y Cyngor yn cael eu rheoli yn unol â deddfwriaeth allweddol a gofynion CIPFA a'u bod yn canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod cyllid y Cyngor yn targedu'r swyddogaethau a'r gwasanaethau cywir i gyflawni nodau'r Cyngor.



2. CEFNDIR

2.1. Mae CIPFA yn diffinio rheoli'r trysorlys fel:-

"Rheoli benthyciadau, buddsoddiadau a llif arian yr awdurdod lleol, ei drafodion bancio, marchnad arian a marchnad gyfalaf; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny; a cheisio'r perfformiad gorau posib sy'n gyson â'r risgiau hynny."

- 2.2.** Mae rheoli'r trysorlys yn ymwneud â thasgau sy'n sicrhau bod digon o arian parod yng nghyfrif cyffredinol y Cyngor i dalu biliau o ddydd i ddydd a buddsoddi arian dros ben, dros yr hyn sydd ei angen yn y cyfrif cyffredinol. Rhaid i'r buddsoddiadau hyn fod mewn cyfrifon hynod ddiogel, megis banciau'r DU sydd â statws credyd uchel. Mae'r Cyngor yn blaenoriaethu diogelwch ei gronfeydd, yn unol â'r Codau, ac yn sicrhau bod digon o arian parod ar gael ar unwaith fel bod y Cyngor yn gallu talu cyflenwyr, staff a budd-daliadau, ar y dyddiadau talu gofynnol. Yr ystyriaeth olaf yw elw. Mae'r Cyngor yn buddsoddi i gael y gyfradd llog uchaf posib o fewn y gronfa o sefydliadau sy'n ddiogel ac yn cwrdd â meini prawf y strategaeth hon. Elfen olaf Rheoli'r Trysorlys yw rheoli portffolio benthyciadau'r Cyngor, i sicrhau nad yw benthycia'r Cyngor yn rhy uchel a bod costau refeniw benthycia yn fforddiadwy.
- 2.3.** Mae'r cyfraniad a wna'r swyddogaeth rheoli'r trysorlys i'r Awdurdod yn hollbwysig, gan fod y cydbwysedd rhwng y gweithgareddau buddsoddi a'r dyledion yn sicrhau hylifedd neu'r gallu i gwrdd ag ymrwymïadau gwariant wrth iddynt ddod yn ddyledus, naill ai ar gyfer refeniw dydd i ddydd neu brosiectau cyfalaf mwy. Bydd gweithgareddau'r trysorlys yn gweld y cydbwysedd rhwng y costau llog ar ddyledion a'r incwm buddsoddi sy'n codi o adneuon ariannol yn cael effaith ar y gyllideb sydd ar gael. Gan fod balansau arian parod, fel rheol, yn codi o gronfeydd wrth gefn a balansau, mae'n hanfodol bwysig sicrhau diogelwch digonol ar gyfer y symiau sy'n cael eu buddsoddi oherwydd gall colli'r symiau gwreiddiol a fuddsoddwyd arwain at ostwng cronfeydd wrth gefn ariannol y Cyngor.

3. DATGANIAD POLISI RHEOLI'R TRYSORLYS CYNGOR SIR YNYS MÔN

- 3.1** Yn ogystal â'r polisiâu risg corfforaethol, y gofrestr, y camau gweithredu a'r monitro, mae'r Cyngor yn cymryd ei gyfrifoldeb am stiwardiaeth dda o gyllid cyhoeddus o ddifri, a bydd holl arferion rheoli'r trysorlys yn diogelu arian cyhoeddus. Mae'n amhosib dileu pob risg, ond bydd holl weithgareddau rheoli'r trysorlys yn cael eu rheoli i leihau'r risg y mae cyllid y Cyngor yn agored iddo, fel a ganlyn:-
- 3.1.1** Bydd penderfyniadau buddsoddi bob amser yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch y buddsoddiad yn gyntaf. Hylifedd yw'r ail ystyriaeth, gan fod angen i'r Cyngor gael mynediad ar unwaith at ddigon o gyllid i dalu taliadau o ddydd i ddydd wrth iddynt ddod yn ddyledus. Yn olaf, ni fydd y Cyngor yn ceisio uchafu'r incwm a enillir ar fuddsoddiadau oni bai fod y buddsoddiadau'n hynod ddiogel a bod digon o fynediad ar unwaith i gronfeydd.
- 3.1.2** Dim ond mewn banciau a chymdeithasau adeiladu hynod ddiogel sydd â statws credyd uchel y bydd adneuon banc, neu fuddsoddiadau mewn banciau neu gymdeithasau adeiladu, yn cael eu rhoi, a hynny'n unol â'r meini prawf yn Atodiad 7.
- 3.1.3** Bydd benthyciadau i awdurdodau lleol yn cael eu hystyried ar ôl cwblhau gwiriadau diwydrwydd dyladwy.
- 3.1.4** Caniateir buddsoddiadau mewn cronfeydd marchnad arian cyfradd AAA.
- 3.1.5** Bydd y Cyngor yn anelu at gadw isafswm o £10m mewn cyfrifon mynediad ar unwaith, os oes digon ym malansau'r Cyngor.
- 3.1.6** Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau gwerth am arian yn ei weithgareddau rheoli'r trysorlys, yng nghyd-destun gwarchod arian cyhoeddus.
- 3.1.7** Bydd y Cyngor yn benthycia'n fewnol os oes digon o falansau arian parod, er mwyn lleihau neu ohirio llog sy'n daladwy, yn enwedig pan fo cyfraddau llog yn codi.
- 3.1.8** Os oes angen benthycia at ddibenion cymwys, dylai unrhyw fenthyciadau ystyried a yw cyfraddau'n debygol o godi neu ostwng yn y tymor canolig. Dylai benthyciadau tymor byr liniaru'r llog sy'n daladwy os yw cyfraddau'n debygol o ostwng yn y tymor byr neu'r tymor canolig, a dylid ystyried benthyciadau tymor hwy os rhagwelir y bydd cyfraddau llog yn cynyddu yn y tymor canolig i'r tymor hir.

- 3.1.9** Mae gweithgarwch rheoli'r trysorlys yn cefnogi cyflawni blaenoriaethau allweddol y Cyngor a bydd yn cyd-fynd â'r Strategaeth Gyfalaf a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig i sicrhau bod buddsoddiadau'n ddiogel, yn hygyrch ac y gwneir y gorau o'r llog derbyniadwy o fewn buddsoddiadau diogel. Bydd benthycia yn seiliedig ar ofnion Strategaeth Gyfalaf 2026/30 a rhaglenni blynyddol, ond dim ond os yw'n fforddiadwy, gan gymryd i ystyriaeth y sefyllfa ariannol ar y pryd a gwybodaeth yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd.
- 3.1.10** Ni ellir gosod y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar ei ben ei hun, a rhaid ystyried y sefyllfa economaidd gan fod hyn yn effeithio ar gyfraddau llog buddsoddi, cost benthycia a chryfder ariannol gwrthbartion.

4. Y CYD-DESTUN ALLANOL

- 4.1** Mae crynodeb llawn o'r rhagolwg economaidd wedi'i gynnwys yn Atodiad 2. Mae Tabl 1, isod, yn dangos rhagolygon diweddar Banc Lloegr (BLI) ar gyfer y gyfradd sylfaen, chwyddiant a chyfraddau Bwrdd Benthycia Gwaith Cyhoeddus (BBGC) a ddarparwyd gan MUFG Corporate Markets:-

**Tabl 1 – Rhagolwg o Gyfradd Sylfaen y Banc a Chyfraddau BBGC
Mawrth 2026 i Rhagfyr 2027**

	Mawrth	Mehefin	Medi	Rhagfyr	Mawrth	Mehefin	Medi	Rhagfyr
	2026	2026	2026	2026	2027	2027	2027	2027
Cyfradd y Banc (%)	3.75%	3.50%	3.50%	3.25%	3.25%	3.25%	3.25%	3.25%
Chwyddiant (BLI - Chwefror 2026)	3.10%	3.00%	2.70%	2.50%	2.20%	2.00%	2.00%	2.00%
Cyfradd 5ml BBGC (%)	4.60%	4.50%	4.30%	4.20%	4.10%	4.10%	4.10%	4.10%
Cyfradd 10ml BBGC (%)	5.20%	5.00%	4.90%	4.80%	4.80%	4.70%	4.70%	4.70%
Cyfradd 25ml BBGC (%)	5.80%	5.70%	5.60%	5.50%	5.50%	5.40%	5.30%	5.30%
Cyfradd 50ml BBGC (%)	5.60%	5.50%	5.40%	5.30%	5.30%	5.20%	5.10%	5.10%

- 4.2** Targed chwyddiant BLI, a osodwyd gan y Llywodraeth, yw 2%. Yn ystod 2025, cododd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) o'i lefel isaf o 2.7% ym Medi 2024, a chyrraedd 3.8% ar ei uchaf ym Medi 2025, cyn disgyn yn ôl i 3.2% ym mis Tachwedd 2025. Mae disgwyl i chwyddiant barhau i ostwng yn ystod 2026, a chyrraedd lefel targed BLI o 2% erbyn diwedd 2026.
- 4.3** Ar ddechrau'r pandemig, cafodd y gyfradd sylfaenol ei gostwng i 0.1% ar ei hisaf i gefnogi'r economi. Cynyddodd BLI y gyfradd i 0.25% yn Rhagfyr 2021, ac yna cynyddodd y gyfradd sylfaenol ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC), rhwng 0.25% a 0.75% ar ei gynnydd uchaf. Yn Awst 2023, cynyddodd y MPC y gyfradd sylfaenol i 5.25%. Ni newidiodd y gyfradd o 5.25% tan 1 Awst 2024, pan gafodd y gyfradd sylfaen ei gostwng am y tro cyntaf ers 2020, i 5%, a dyma oedd y gyfradd ar 30 Medi 2024. Ers hynny, mae'r gyfradd wedi gostwng i 3.75%, ac mae disgwyl gostyngiadau pellach yn ystod 2026.
- 4.4** Mae'r Cyngor yn elwa o gyfradd sylfaenol uwch ar gyfer buddsoddi arian dros ben, a rhagwelir y bydd hyn yn cynhyrchu tua £900k o incwm buddsoddi yn 2025/26. Fodd bynnag, mae benthyciadau i'r Cyngor yn ddrytach, a strategaeth y Cyngor yw gohirio benthycia allanol cyn hired â phosib a defnyddio balansau'r Cyngor i gyllido gwariant cyfalaf (benthycia mewnol). Fodd bynnag, gan fod y Cyngor wedi defnyddio ei gronfeydd wrth gefn i gydbwyso'r gyllideb refeniw a chyllido gwariant cyfalaf ar y Cyfrif Refeniw Tai (CRT), mae lefel yr arian dros ben bellach yn agosáu at y pwynt lle na ellir parhau i fenthycia'n fewnol a bydd rhaid benthycia'n allanol.

5. SEFYLLFA FENTHYCA BRESENNOL Y CYNGOR

- 5.1 Mae'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â benthycia gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC) i'w weld yn Nhabl 2 isod:-

Tabl 2
Benthyciadau BBGC sy'n Ddyledus

	Benthyciadau Aeddfedu	Benthyciadau EIP / Blwydd-dal	Cyfanswm
Balans ar 1 Ebrill 2025	£117.546m	£0.144m	£117.690m
Balans ar 31 Rhagfyr 2025	£117.546m	£0.128m	£117.674m
Amcangyfrif o'r Balans Benthyciadau ar 31 Mawrth 2026	£117.546m	£0.118m	£117.664m
Amser Cyfartalog cyn Ad-dalu ar 31 Mawrth 2026	18.2 mlynedd	4.4 mlynedd	14.4 mlynedd
Cyfartaledd Cyfradd Llog	5.1%	9.4%	6.3%

- 5.3 Benthyciadau Salix - sefydliad Llywodraeth Cymru (LIC) yw Salix sy'n rhoi benthyciadau di-log ac, yn fwy diweddar, grantiau ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi'r amgylchedd ac i helpu cyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru i weithio tuag at gyflawni eu targed sero net erbyn 2030. Roedd gan y Cyngor £4.393m o fenthyciadau di-log gyda Salix ar 31 Rhagfyr 2024. Mae'r benthyciadau hyn yn cael eu had-dalu dros gyfnod o 8 neu 10 mlynedd, yn dibynnu ar y cytundeb, gyda dau ad-daliad y flwyddyn fesul benthyciad. Mae'r benthyciadau hyn wedi cyllido goleuadau stryd LED, goleuadau LED mewn ysgolion a chanolfannau hamdden ac amrywiol brosiectau cynaliadwy eraill.


Tabl 3 - Benthyciadau Salix sy'n Ddyledus

	Benthyciadau Salix
Balans ar 1 Ebrill 2025	£4.393m
Balans ar 31 Rhagfyr 2025	£4.037m
Amcangyfrif o'r Balans Benthyciadau ar 31 Mawrth 2026	£3.702m
Amser Cyfartalog cyn Ad-dalu ar 31 Mawrth 2026	4.6 mlynedd
Cyfradd Llog Cyfartalog	0.00%


6. BALANSAU BUDDSODDIADAU'R CYNGOR AR 31 RHAGFYR 2025

- 6.1 Cyfanswm balans y buddsoddiadau ar 31 Rhagfyr 2025 oedd £20.993m, fel y gwelir yn Siart 1 a Siart 2 isod. Yr elw o'r buddsoddiadau hyn rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Rhagfyr 2025 oedd £0.770m, a'r disgwyl yw y bydd cyfanswm o £0.893m yn cael ei dderbyn ar y buddsoddiadau a restrir isod ar gyfer 2025/26. Bydd y llog a dderbynnir yn cael ei rannu'n briodol rhwng Cronfa'r Cyngor, y CRT, ysgolion a chyrff allanol y mae'r Cyngor yn dal cyllid ar eu rhan, yn cynnwys yr Ymddiriedolaethau.

Siart 1 - Buddsoddiad yn ôl Gwrthbarti



Siart 2 - Buddsoddiad yn ôl Math



7. EFFAITH CYNLLUNIAU'R DYFODOL AR FENTHYCA

7.1 Cyllidir gwariant cyfalaf yn rhannol trwy fenthyca, felly, mae cysylltiad agos rhwng y Strategaeth Gyfalaf a'r strategaeth hon. Mae crynodeb gwariant cyfalaf 2025/26 i 2027/28 yn cyflwyno tri opsiwn ar gyfer gwariant cyfalaf. Mae pob un o'r tri senario yn ystyried y gwaith sydd angen ei wneud ar asedau'r Cyngor, neu a fydd angen amnewid asedau. Cyflwynir y tri opsiwn fel a ganlyn:

Yr achos sylfaenol - mae hyn yn seiliedig ar y cyllid sydd eisoes ar gael ac nid os angen fawr o fenthyca digefnogaeth, os o gwbl, heblaw am yr hyn sydd ei angen ar gyfer y cynlluniau ymrwymiedig.

Uchelgeisiol - swm yn seiliedig ar yr achos sylfaenol ynghyd ag elfen o fenthyca digefnogaeth, sy'n cael ei ystyried yn rhesymol a fforddiadwy, ac mae'n golygu y gellir cynnal asedau cyfredolo ar lefel dderbyniol er mwyn gwarantu y gellir parhau i'w defnyddio yn y dyfodol a chaniatáu i Gynllun y Cyngor gael ei weithredu.

Delfrydol - dyma'r swm sydd ei angen i uwchraddio asedau'r Cyngor i'r safon uchaf ac mae'n caniatáu i holl elfennau Cynllun y Cyngor gael eu gweithredu. Mae hyn yn gofyn am gynnydd sylweddol mewn benthyca, ac efallai na fyddai'n fforddiadwy i'r Cyngor.

7.2 Mae Tablau 4a - 4ch, isod, yn dangos amcangyfrif o wariant a chyllid ar gyfer y cyfnod 2024/25 i 2029/30 ar gyfer y 3 senario:-

Tabl 4a - Gwariant a Chyllid Cyfalaf Gwirioneddol 2024/25 ac Amcangyfrif 2025/26

	Gwirioneddol 2024/25 £'m	Amcangyfrif 2025/26 £'m
Cronfa'r Cyngor - heb gynnwys Eiddo Buddsoddi	37.258	24.171
CRT	27.468	22.056
Eiddo Buddsoddi	0.000	8.940
Cyfanswm Gwariant	64.726	55.167
Grantiau Cyfalaf	45.883	34.692
Derbyniadau Cyfalaf	1.173	0.497
Cronfeydd wrth Gefn a Chyfraniadau Refeniw	10.817	13.876
Benthyca â Chefnogaeth	4.243	3.797
Benthyca Digefnogaeth	2.491	1.445
Benthyciadau Salix	0.119	0.860
Cyfanswm Cyllid	64.726	55.167

Tabl 4b Gwariant a Chyllido Achos Sylfaenol 2026/27 - 2030/31

	2026/27 £'m	2027/28 £'m	2028/29 £'m	2029/30 £'m	2030/31 £'m
Cronfa'r Cyngor - heb gynnwys Eiddo Buddsoddi	14.122	8.845	7.965	7.920	6.547
CRT	41.555	30.337	10.259	9.328	9.792
Eiddo Buddsoddi	10.652	2.000	0.000	0.000	0.000
Cyfanswm Gwariant	66.329	41.182	18.224	17.248	16.339
Grantiau Cyfalaf	34.839	14.847	5.481	5.481	5.481
Derbyniadau Cyfalaf	0.000	0.000	0.000	0.000	0.000
Cronfeydd wrth Gefn a Chyfraniadau Refeniw	15.268	10.121	9.588	9.416	8.404
Benthyca â Chefnogaeth	3.603	2.151	2.151	2.151	2.151
Benthyca Digefnogaeth	12.619	14.063	1.004	0.200	0.303
Benthyciad Salix	0.000	0.000	0.000	0.000	0.000
Cyfanswm Cyllid	66.329	41.182	18.224	17.248	16.339

Tabl 4c Gwariant a Chyllido Achos Uchelgeisiol 2026/27 - 2030/31

	2026/27 £'m	2027/28 £'m	2028/29 £'m	2029/30 £'m	2030/31 £'m
Cronfa'r Cyngor - heb gynnwys Eiddo Buddsoddi	16.689	16.351	52.016	55.102	41.431
CRT	45.950	35.819	27.569	26.893	23.294
Eiddo Buddsoddi	10.652	2.200	0.200	0.200	0.200
Cyfanswm Gwariant	73.291	54.370	79.785	82.195	64.925
Grantiau Cyfalaf	34.865	18.178	22.413	20.271	16.239
Derbyniadau Cyfalaf	0.000	0.200	0.200	0.200	0.200
Cronfeydd wrth Gefn a Chyfraniadau Refeniw	14.107	8.929	34.696	34.404	31.222
Benthyca â Chefnogaeth	3.603	3.372	4.764	4.329	4.329
Benthyca Digefnogaeth	20.716	23.691	17.712	22.992	12.936
Benthyciad Salix	0.000	0.000	0.000	0.000	0.000
Cyfanswm Cyllid	73.291	54.370	79.785	82.195	64.925

Tabl 4ch Gwariant a Chyllido Achos Ddelfrydol 2026/27 - 2030/31

	2026/27 £'m	2027/28 £'m	2028/29 £'m	2029/30 £'m	2030/31 £'m
Cronfa'r Cyngor - heb gynnwys Eiddo Buddsoddi	22.357	34.470	62.904	77.873	44.776
CRT	45.369	40.040	28.173	27.363	23.647
Eiddo Buddsoddi	10.882	2.330	2.330	2.330	2.330
Cyfanswm Gwariant	78.608	76.840	93.407	107.567	70.753
Grantiau Cyfalaf	38.665	31.490	28.507	35.878	16.189
Derbyniadau Cyfalaf	0.000	0.200	0.200	0.200	0.200
Cronfeydd wrth Gefn a Chyfraniadau Refeniw	14.015	9.406	34.704	34.985	30.890
Benthyca â Chefnogaeth	3.603	3.372	4.764	4.329	4.329
Benthyca Digefnogaeth	22.325	32.372	25.232	32.176	19.145
Benthyciadau Salix	0.000	0.000	0.000	0.000	0.000
Cyfanswm Cyllid	78.608	76.840	93.407	107.567	70.753

- 7.3** Mae effaith benthyca ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) y Cyngor yn ffactor bwysig sydd angen ei ystyried. Y GCC yw'r mesur o angen sylfaenol y Cyngor i fenthycha. Nid yw benthyca wedi'i gyfyngu i fenthychiadau allanol gan y BBGC gan ei fod, hefyd, yn cynnwys y gallu i ddefnyddio balansau ariannol y Cyngor ei hun (benthyca mewnol) sydd wedi cael eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf. Er bod benthyca mewnol yn arbed costau llog i'r Cyngor, mae tâl yn cael ei godi ar gyfer y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI) ar sail yr angen sylfaenol i fenthycha (y GCC), nid y benthychiad gwirioneddol. Mae Tabl 5, isod, yn dangos y GCC ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r CRT o dan y 3 senario:-

Tabl 5 - Gofyniad Cyllido Cyfalaf

Achos Sylfaenol	Gwir 2024/25 £'m	Amcan 2025/26 £'m	Amcan 2026/27 £'m	Amcan 2027/28 £'m	Amcan 2028/29 £'m	Amcan 2029/30 £'m	Amcan 2030/31 £'m
GCC - Cronfa'r Cyngor	114.391	119.486	125.567	127.905	128.727	128.613	129.573
GCC - CRT	37.998	36.895	35.744	47.116	59.834	59.332	57.863
Cyfanswm GCC	152.389	156.381	161.311	175.021	188.561	187.945	187.436
Symudiad net yn y GCC		+ 5.992	+ 4.930	+ 13.710	+ 13.540	-0.616	-0.509
Achos Uchelgeisiol	Gwir 2024/25 £'m	Amcan 2025/26 £'m	Amcan 2026/27 £'m	Amcan 2027/28 £'m	Amcan 2028/29 £'m	Amcan 2029/30 £'m	Amcan 2030/31 £'m
GCC - Cronfa'r Cyngor	114.391	119.486	125.567	130.114	134.741	142.620	155.016
GCC - CRT	37.998	36.895	35.744	52.784	72.145	82.313	93.340
Cyfanswm GCC	152.389	156.381	161.311	182.898	206.886	224.934	248.356
Symudiad net yn y GCC		+ 5.992	+ 4.930	+ 21.587	+ 23.988	+18.048	+23.422
Achos Delfrydol	Gwir 2024/25 £'000	Amcan 2025/26 £'000	Amcan 2026/27 £'000	Amcan 2027/28 £'000	Amcan 2028/29 £'000	Amcan 2029/30 £'000	Amcan 2030/31 £'000
GCC - Cronfa'r Cyngor	114.391	119.486	125.567	132.033	142.649	157.143	177.766
GCC - CRT	37.998	36.895	35.744	52.441	74.331	85.096	96.583
Cyfanswm GCC	152.389	156.381	161.311	184.473	216.980	242.239	274.349
Symudiad net yn y GCC		+ 5.992	+ 4.930	+23.162	+32.507	+25.259	+32.110

7.4 Bydd y 3 senario a nodir uchod yn golygu bod benthyciadau'r Cyngor yn cynyddu a bydd rhyw gymaint o fenthycia mewnol yn parhau, ond bydd y rhan fwyaf o'r benthyciadau ychwanegol yn rhai allanol, trwy'r BBGC. Mae amcangyfrif o'r gofyniad benthycia'n cael ei ddangos yn Nhabl 6, isod:-

Tabl 6
Benthycia Allanol 2024/25 - 2030/31

	Achos Sylfaenol £'m	Achos Uchelgeisiol £'m	Achos Delfrydol £'m
2024/25 Gwirioneddol	122.082	122.082	122.082
Amcangyfrif 2025/26	131.710	131.710	131.710
Amcangyfrif 2026/27	134.235	134.235	134.235
Amcangyfrif 2027/28	149.075	157.173	158.781
Amcangyfrif 2028/29	163.125	182.070	192.360
Amcangyfrif 2029/30	166.003	204.268	222.078
Amcangyfrif 2030/31	166.785	230.019	257.013

7.5 Bydd benthycia ychwanegol yn creu gwariant ychwanegol ar y cyfrif refeniw, sef costau Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) ychwanegol a chostau llog ychwanegol. Mae'n bwysig, felly, asesu effaith benthycia ychwanegol ar y cyfrif refeniw er mwyn sicrhau fod y costau refeniw yn parhau'n fforddiadwy. Y mesur gorau o fforddiadwyedd yw mynegi'r costau cyllido cyfalaf fel canran o'r gyllideb refeniw net. Maent i'w gweld yn Nhablau 7a a 7b, isod:-

Tabl 7a
Goblygiadau Refeniw Gwariant a Benthycia Cyfalaf - Cronfa Gyffredinol

	Achos Sylfaenol			Achos Uchelgeisiol		Achos Delfrydol	
	Gwariant Refeniw Net (GRN)	Amcangyfrif o DRI a Llog	DRI a Llog yn erbyn GRN	Amcangyfrif o DRI a Llog	DRI a Llog yn erbyn GRN	Amcangyfrif o DRI a Llog	DRI a Llog yn erbyn GRN
	£'m	£'m	%	£'m	%	£'m	%
2026/27	207.02	6.55	3.17	6.55	3.17	6.55	3.17
2027/28	212.20	6.74	3.18	6.90	3.25	7.04	3.32
2028/29	216.44	6.89	3.18	7.30	3.37	7.85	3.63
2029/30	220.77	6.95	3.15	7.87	3.56	8.87	4.02
2030/31	225.19	7.09	3.15	8.69	3.86	10.23	4.54

Tabl 7b
Goblygiadau Refeniw Gwariant Cyfalaf a Benthycia - CRT

	Achos Sylfaenol			Achos Uchelgeisiol		Achos Delfrydol	
	Incwm Rhent Net (IRhN)	Amcangyfrif o DRI a Llog	DRI a Llog yn erbyn IRhN	Amcangyfrif o DRI a Llog	DRI a Llog yn erbyn IRhN	Amcangyfrif o DRI a Llog	DRI a Llog yn erbyn IRhN
	£'m	£'m	%	£'m	%	£'m	%
2026/27	24.06	2.38	9.88	2.38	9.88	2.38	9.88
2027/28	25.22	3.10	12.28	3.58	14.17	3.55	14.04
2028/29	26.75	3.85	14.40	4.78	17.68	4.88	18.00
2029/30	27.31	3.94	14.42	5.49	19.70	5.63	20.12
2030/31	28.41	3.99	14.03	6.23	21.28	6.38	21.74

8. STRATEGAETH FENTHYCA

8.1 Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn parhau i gynnal sefyllfa o dan-fenthycia. Mae hyn yn golygu nad yw'r angen am fenthyciadau cyfalaf (sef y GCC) wedi'i gyllido'n llawn gan ddyledion benthycia gan fod arian wedi cael ei ddefnyddio fel mesur dros dro i gefnogi arian wrth gefn, balansau a llif arian y Cyngor. Mae hon yn strategaeth ddarbodus, gan fod disgwyl i gyfraddau benthycia tymor canolig a thymor hwy ddisgyn o'u lefelau presennol unwaith y rhoddir sylw i bryder cyffredinol am chwyddiant trwy bolisi ariannol tynn yn y tymor byr.

Yn erbyn y cefndir hwn a'r risgiau o fewn y rhagolygon economaidd, mabwysiedir dull darbodus o ran gweithgareddau trysorlys yn ystod 2026/27. Bydd y Swyddog Adran 151 yn monitro cyfraddau llog yn y marchnadoedd ariannol ac yn mabwysiadu dull pragmatig i ymateb i amgylchiadau sy'n newid:-

- os teimlir bod risg sylweddol o GWYMP sydyn mewn cyfraddau benthycia, yna bydd benthyciadau'n cael eu gohirio.
- os teimlir bod risg sylweddol o GYNNYDD llawer uwch mewn cyfraddau benthycia nag a ragwelir ar hyn o bryd, bydd cyllid ar raddfa sefydlog yn cael ei fenthycia tra bod cyfraddau llog yn is nag y rhagwelir iddynt fod yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.
- Rhagolwg tymor hir (mwy na 10 mlynedd) MUFG yw 3%. Mae holl gyfraddau sicrwydd BBGC yn sylweddol uwch na'r gyfradd hon ar hyn o bryd. Felly, gellir cael gwell gwerth o fuddsoddiadau tymor byr nes bod y cyfraddau banc yn gostwng.

8.2 Benthycia Allanol yn erbyn Benthycia Mewnol

8.2.1 Mae'r amodau presennol yn dangos bod angen bod yn hyblyg wrth ddewis rhwng benthycia mewnol ac allanol. Fodd bynnag, mae'n parhau fod rhai cyfyngiadau i allanol benthycia. Mae angen rhoi ystyriaeth gofalus barhaus i'r gwahaniaeth rhwng cyfraddau benthycia a chyfraddau buddsoddi er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cael gwerth am arian unwaith y ceir lefel briodol o reoli risg er mwyn sicrhau diogelwch ei fuddsoddiadau.

8.2.2 O blaid mewnnoli, dros y tymor canol, y disgwyl yw y bydd cyfraddau buddsoddi yn parhau i fod yn is na'r cyfraddau benthycia tymor hir. Mae hynny'n golygu bod ystyriaethau gwerth am arian yn awgrymu y gellid cael gwerth gorau trwy osgoi benthyciadau allanol newydd a thrwy ddefnyddio balansau arian parod mewnol i gyllido gwariant cyfalaf newydd, neu yn lle dyled allanol sy'n aeddfedu (cyfeirir at hyn fel benthycia mewnol). Byddai hynny'n gwneud y gorau o arbedion tymor byr.

8.2.3 Fodd bynnag, rhaid pwyso a mesur arbedion tymor byr a geid trwy osgoi benthyciadau allanol tymor hir yn 2026/27, yn erbyn y posibilrwydd o gael costau tymor hir ychwanegol, trwy ohirio cymryd benthyciadau allanol newydd nad oes modd eu hosgoi tan yn hwyrach ymlaen, gan fod cyfraddau tymor hir y BBGC yn uwch erbyn hyn.

8.2.4 Yn ychwanegol at hyn, bydd angen parhau i adolygu'n rheolaidd oblygiadau benthyciadau mewnol i lif arian a bydd yn cyfyngu ar lefel bosib y benthyciadau mewnol. Mae arian wrth gefn y Cyngor wedi gostwng yn ystod 2025/26, gan fod arian wrth gefn gronfa gyffredinol a balansau ysgolion wedi cael ei ddefnyddio i gyllido cyllidebau refeniw, a defnyddiwyd cronfa wrth gefn y CRT i gyllido gwariant cyfalaf. Mae llai o gyfle i gynnal lefel uchel o fenthycia mewnol ac mae'n debygol o leihau yn y dyfodol.

8.3 Benthycia cyn bod Angen

8.3.1 Ni fydd y Cyngor yn benthycia mwy nag y mae ei angen, na chyn bod angen gwneud hynny, a hynny er mwyn elwa o fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycir. Bydd unrhyw benderfyniad i fenthycia ymlaen llaw yn unol ag amcangyfrifon GCC a gymeradwywyd ymlaen llaw a bydd penderfyniadau o'r fath yn cael eu hystyried yn ofalus i sicrhau bod modd dangos gwerth am arian a bod y Cyngor yn gallu sicrhau diogelwch cyllid o'r fath.

8.4 Aildrefnu Dyledion

8.4.1 Efallai y byddir yn ystyried aildrefnu benthyciadau cyfredol yn ein portffolio dyledion tra bod cyfraddau ad-dalu dyled yn gynnar yn parhau i fod yn uchel, ond dim ond os oes arian dros ben ar gael i hwyluso unrhyw ad-daliad, neu os ystyrir bod ail-gydbwysu'r portffolio i roi mwy o sicrwydd yn briodol.

8.4.2 Rhoddir gwybod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am yr holl weithgareddau aildrefnu dyledion yn y cyfarfod cyntaf, lle bo'n ymarferol, ar ôl gweithredu.

8.5 Benthycha gan Sefydliadau Ariannol eraill

Y BBGC yw prif ffynhonnell benthycha'r Cyngor, ac mae ganddo rai benthychiadau gan Salix, sef y sefydliad sy'n eiddo i LIC, ar gyfer cyllido prosiectau effeithlonrwydd ynni a charbon isel. Cyfradd sicrwydd y BBGC yw giltiau ac 80 pwynt sail (0.8%). Gellid ystyried benthycha gan yr isod:-

- Awdurdodau Lleol;
- Asiantaeth UK Municipal Bond – benthychiadau cyfun;
- Bondiau Corfforaethol;
- Cronfeydd Marchnad Arian.

9. PROFFIL DYLEDION

9.1 Mae Atodiad 4 yn dangos gwybodaeth am aeddfedrwydd benthychiadau'r Cyngor, a bydd benthychiadau cyfredol yn cael eu had-dalu mewn gwahanol flynyddoedd hyd at 2068/69. Mae'r Cyngor yn anelu at sicrhau bod y dyddiad ad-dalu'n cael ei drefnu er mwyn gwastatau'r ad-daliadau i'r graddau y mae hynny'n bosibl, ond rhoddir blaenoriaeth i'r gyfradd llog sy'n daladwy pan benderfynir ar y math o fenthychiad (aeddfedrwydd neu flwydd-dal) a chyfnod y benthychiad.

9.2 Mae Tabl 8, isod, yn dangos gwerth presennol ad-daliadau benthychiadau yn y dyfodol wedi'u disgowntio yn ôl gwerth cyfraddau llog tymor hir yn y dyfodol o 3%.

Tabl 8 - Proffil Aeddfedrwydd Benthychiadau BBGC, 31 Rhagfyr 2025

Nifer o Flynyddoedd tan fydd y Benthychiad yn Aeddfedu	Prifswm £'m	Gwerth Presennol y Prifswm £'m	Cronnus %
<1	0.00	0.00	0.00
1 i 3	4.01	3.81	3.29
4 i 6	5.41	4.66	7.74
7 i 10	4.67	3.60	11.58
11 i 14	6.41	4.30	16.84
15 i 22	17.99	10.37	31.62
23 i 33	50.25	21.69	72.91
34 i 50	32.96	9.86	100.00
CYFANSWM	121.71	58.29	

10. STRATEGAETH FUDDSODDI A PHOLISI TEILYNGDOD CREDYD

10.1 Bydd buddsoddiadau'n cael eu gwneud gan gyfeirio at y balans craidd a'r gofynion llif arian a'r rhagolygon o ran cyfraddau llog tymor byr (h.y. graddfeydd ar gyfer buddsoddi am hyd at 12 mis). Fel arfer, mae modd cael enillion uwch drwy fuddsoddi am gyfnodau hwy. Mae'r Cyngor yn anelu at gael strategaeth fuddsoddi hyblyg i wneud y gorau o enillion. Yn yr un modd, er bod angen y rhan fwyaf o falansau arian i reoli cynnydd a gostyngiad mewn llif arian, lle gellir dod o hyd i symiau ariannol y gellid eu buddsoddi am gyfnodau hirach, bydd y gwerth a geir o fuddsoddiadau tymor hwy yn cael ei asesu'n ofalus.

10.2 Rheoli Risgiau

Cyngor Sir Ynys Môn yw un o'r awdurdodau lleol lleiaf yng Nghymru. Nid oes gan y Cyngor falansau mawr fel sydd gan rai o'r awdurdodau mwy, er bod yna gynghorau mwy sydd â balansau tebyg neu lai. Rheoli risg yw'r brif ystyriaeth ar gyfer holl fuddsoddiadau'r Cyngor.

10.2.1 Blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor yw diogelwch yn gyntaf, hylifedd y portffolio yn ail ac yna'r elw (enillion). Nod y Cyngor yw ceisio sicrhau cymaint o elw â phosib ar ei fuddsoddiadau sy'n gyson â'r lefel briodol o ddiogelwch a hylifedd, gydag archwaeth risg y Cyngor am fuddsoddiadau risg isel yn unig.

- 10.2.2** Defnyddir meini prawf sylfaenol o ran **statws credyd** (Atodiad 7) er mwyn cynhyrchu rhestr o wrthbartïon sydd â Theilyngdod Credyd uchel. Mae hyn hefyd yn caniatáu arallgyfeirio ac yn osgoi'r risg sy'n gysylltiedig â chanolbwyntio ar un gwrthbarti. Y graddfeydd allweddol a ddefnyddir i fonitro gwrthbartïon yw'r graddfeydd tymor byr a thymor hir.
- 10.2.3 Gwybodaeth Arall:** nid statws credyd yn unig fydd yn penderfynu ar ansawdd sefydliad. Mae'n bwysig asesu a monitro'r sector ariannol yn barhaus, a hynny ar sail micro a macro ac mewn perthynas â'r amgylcheddau economaidd a gwleidyddol y mae sefydliadau'n gweithredu ynddynt.
- 10.2.4** Gall buddsoddiadau fod yn rhai penodol neu amhenodol (mae Atodiad 7 yn diffinio'r rhain ac yn rhoi rhagor o wybodaeth). Yn unol â'i ofyniad i fuddsoddi mewn buddsoddiadau risg isel, ni fydd y Cyngor ond yn buddsoddi mewn buddsoddiadau penodol:-
- **Buddsoddiadau penodol** yw'r rheini sydd â lefel uchel o ansawdd credyd ac a fydd yn aeddfedu o fewn blwyddyn, neu fod llai na blwyddyn ar ôl cyn aeddfedu petaent, yn wreiddiol, wedi eu dosbarthu'n fuddsoddiadau amhenodol dim ond oherwydd bod y cyfnod aeddfedu'n fwy na blwyddyn.
 - **Buddsoddiadau amhenodol** yw'r rheini â lefel is o ansawdd credyd. Gallant fod am gyfnodau sydd dros flwyddyn ac / neu maent yn offerynnau mwy cymhleth y bydd angen i'r Aelodau a'r swyddogion roddi mwy o ystyriaeth iddynt cyn eu hawdurdodi ar gyfer eu defnyddio.
- 10.2.5** Bydd cyfyngiadau benthyca (symiau ac aeddfedrwydd) i bob gwrthbarti yn cael eu gosod drwy ddefnyddio'r tabl matrices, fel y'i nodir yn adran Teilyngdod Credyd y strategaeth hon.
- 10.2.6** Bydd y Cyngor hwn yn gosod cyfyngiad ar swm y buddsoddiadau y mae'n eu buddsoddi am fwy na 365 diwrnod (gweler Atodiad 10).
- 10.2.7** Ni fydd y Cyngor yn buddsoddi mewn gwrthbartïon y tu allan i'r DU oni bai fod y statws credyd yn AAA neu'n uwch ac oni bai bod amgylchiadau eithriadol, megis bod teilyngdod credyd buddsoddiadau'r DU wedi'u peryglu. Dim ond gyda gwrthbartïon o wledydd sydd â **graddfa sofraniaeth** sylfaenol penodedig y byddir yn buddsoddi (gweler Atodiad 9).
- 10.2.8** Mae'r Cyngor hwn wedi penodi **ymgynghorwyr allanol** i roi cyngor arbenigol ynghylch sut i sicrhau'r cydbwysedd priodol gorau rhwng diogelwch, hylifedd ac elw, o gofio archwaeth risg y Cyngor hwn yng nghyd-destun lefel disgwylledig y balansau ariannol a bod angen hylifedd trwy gydol y flwyddyn.
- 10.2.9** Bydd yr holl fuddsoddiadau'n cael eu dynodi mewn **sterling**.

10.3 Polisi Teilyngdod Credyd

- 10.3.1** Y brif egwyddor sy'n rheoli meini prawf buddsoddi'r Cyngor yw diogelwch ei fuddsoddiadau. Wedi rhoi sylw i'r brif egwyddor hon, bydd y Cyngor yn sicrhau:-
- Bod ganddo hylifedd digonol yn ei fuddsoddiadau. I'r perwyl hwn, bydd yn amlinellu gweithdrefnau ar gyfer penderfynu'r hyd mwyaf y byddai'n ddoeth ymrwymo cyllid. Mae'r gweithdrefnau hyn hefyd yn berthnasol i ddangosyddion darbodus y Cyngor sy'n ymwneud â'r uchafsymiau y gellir eu buddsoddi.
 - Ni fydd yn buddsoddi mewn gwrthbartïon onid oes ganddynt sgôr credyd fel y'i hamlinellir yn Atodiad 7.
- 10.3.2** Fel haen ddiogelwch ychwanegol i'r meini prawf statws credyd sylfaenol a ddisgrifir uchod, mae'r Cyngor hwn hefyd yn defnyddio'r gwasanaeth teilyngdod credyd a ddarperir gan MUFG.
- 10.3.3** Mae gwasanaeth teilyngdod credyd MUFG yn defnyddio amrywiaeth ehangach o wybodaeth na'r graddfeydd sylfaenol yn unig a, thrwy ddefnyddio system sgorio pwysoliad risg, nid yw'n dibynnu'n ormodol ar raddfeydd un asiantaeth yn unig.

- Bydd yr holl raddfeydd credyd yn cael eu monitro'n ddyddiol. Caiff y Cyngor wybod am unrhyw newidiadau i raddfeydd y tair asiantaeth drwy ei ddefnydd o wasanaeth teilyngdod credyd MUFG. Os bydd cwmp yn y raddfa'n golygu na fydd y gwrthbarti / cynllun buddsoddi'n cwrdd bellach â meini prawf sylfaenol y Cyngor, ni fyddant yn cael eu defnyddio eto ar gyfer buddsoddiadau newydd a bydd hynny'n dod i rym yn syth.

10.3.4 Ni welwyd lefelau sylweddol o raddfeydd credyd tymor byr a hir yn cael eu hisraddio ers yr argyfwng ym mis Mawrth 2020. Ar y cyfan, lle bu newidiadau, roeddent yn gyfyngedig i Ragolygon. Yn yr un modd, wrth osod isafswm ar gyfer graddfeydd dyled sofran, ni fydd y Cyngor yn gosod isafswm graddfa ar gyfer y DU.

10.4 Cyfyngiadau Gwledydd

Mae'r Cyngor wedi penderfynu y bydd ond yn defnyddio gwrthbartïon cymeradwy o wledydd, ac eithrio'r DU, â graddfa credyd sofran sydd o leiaf yn AAA yn ôl Graddfeydd Fitch (neu raddfa gyfatebol arall gan asiantaethau eraill os na fydd Fitch yn eu darparu). Fe welir rhestr o'r gwledydd sy'n gymwys trwy ddefnyddio'r meini prawf credyd hyn, ar ddyddiad yr adroddiad hwn, yn Atodiad 8. Bydd swyddogion yn ychwanegu gwledydd at y rhestr neu'n eu tynnu oddi arni pe bai'r graddfeydd yn newid, yn unol â'r polisi hwn. Yn ymarferol, mae buddsoddiadau'n dueddol o gael eu rhoi ym manciau'r DU am resymau diogelwch. Mae'r rhestr wedi'i chynnwys ar gyfer y digwyddiad annhebygol y bydd angen eithriadol i fuddsoddi mewn gwrthbartïon hynod ddiogel mewn gwledydd eraill. Er enghraifft, os bydd banciau'r DU yn digwydd colli teilyngdod eu credyd ac yn methu meini prawf penodol y Cyngor ar wrthbartïon.

11. LLYWODRAETHU A RHEOLI

11.1 Mae'r Côt Darbodus yn adlewyrchu symudiad tuag at awdurdodau lleol yn hunanreoleiddio, ac mae llywodraethu corfforaethol effeithiol yn un o'r elfennau allweddol gweithrediad llwyddiannus y Côt.

11.2 Mae Llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys yr elfennau isod:-

- Rôl ffurfiol ar gyfer y Swyddog Adran 151;
- Gosod a monitro Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys;
- Cynllun dirprwyo a phroses gymeradwyo ffurfiol;
- Adrodd ar faterion Rheoli'r Trysorlys i Aelodau.

11.3 Rôl y Swyddog Adran 151 ac Aelodau

11.3.1 Y Swyddog Adran 151 sy'n gyfrifol am sicrhau bod materion sy'n ymwneud â Rheoli'r Trysorlys a Chyllido Cyfalaf yn cael eu cymryd i ystyriaeth a'u hadrodd i'r Pwyllgor Gwaith / Cyngor llawn i'w hystyried, a bod gweithdrefnau'n cael eu sefydlu i fonitro perfformiad.

11.3.2 Rhaid i'r Swyddog Adran 151 sicrhau bod dangosyddion darbodus yn cael eu gosod a'u monitro er mwyn dangos y cydymffurfir â'r gofyn deddfwriaethol i sicrhau bod cynlluniau ariannol y Cyngor yn fforddiadwy.

11.3.3 Mae Aelodau hefyd yn chwarae rôl bwysig, nid yn unig o ran awdurdodi'r penderfyniadau perthnasol ond hefyd wrth graffu ar brosesau, penderfyniadau a pherfformiad rheoli'r trysorlys. Er mwyn ymgymryd â'r rôl hon, rhaid i'r swyddog cyfrifol, yn unol â Chôt Rheoli'r Trysorlys CIPFA, sicrhau bod Aelodau sydd â chyfrifoldeb am faterion reoli'r trysorlys yn cael hyfforddiant digonol ar y cyfryw faterion. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Aelodau sy'n gyfrifol am graffu. Er mwyn cefnogi rôl craffu aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, cafodd aelodau'r Pwyllgor hyfforddiant ar reoli'r trysorlys gan yr ymgynghorwyr rheoli'r trysorlys ar 14 Medi 2022. Trefnir rhagor o hyfforddiant yn ôl yr angen. Mae anghenion hyfforddiant swyddogion rheoli'r trysorlys yn cael sylw rheolaidd a'u hadolygu'n rheolaidd.

- 11.3.4** Mae gan swyddogion y Cyngor sy'n ymwneud â gweithgareddau rheoli'r trysorlys wybodaeth a sgiliau cynhwysfawr ar gyfer rheoli swyddogaeth rheoli'r trysorlys. Mae'r Swyddog Adran 151 yn chwarae rhan allweddol mewn Rheoli'r Trysorlys ac mae'n cymeradwyo neu'n gwrthod unrhyw fuddsoddiadau a gynigir gan y tîm. Mae'r Cyngor hefyd yn darparu hyfforddiant i gynyddu gwybodaeth a sgiliau'r rhai sy'n gyfrifol am reoli, darparu, llywodraethu a gwneud penderfyniadau.
- 11.3.5** Bydd y Tîm Adnoddau Dynol yn cadw cofnod ffurfiol o'r hyfforddiant a dderbynnir gan swyddogion sy'n ganolog i swyddogaeth y Trysorlys. Yn yr un modd, bydd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn cadw cofnod ffurfiol o hyfforddiant rheoli'r trysorlys / cyllid cyfalaf a dderbynnir gan Aelodau.
- 11.3.6** Mae Cynllun Dirprwyo Rheoli'r Trysorlys ac esboniad llawnach o rôl y Swyddog Adran 151 i'w gweld yn Atodiad 9.

12. CYNGOR RHEOLI'R TRYSORLYS

- 12.1** Mae'r Cyngor yn defnyddio MUFG Corporate Markets (Link Group gynt) fel ymgynghorwyr allanol iddo ar reoli'r trysorlys. Yn unol â rheoliadau caffael, fe wnaeth y Cyngor ail-dendro'r gwasanaeth hwn yn gynnar yn 2021, am y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2025, gydag opsiwn i ymestyn am ddwy flynedd.
- 12.2** Mae'r Cyngor yn cydnabod fod y cyfrifoldeb am benderfyniadau rheoli'r trysorlys yn aros gyda'r sefydliad bob amser, a bydd yn sicrhau na fydd yn dibynnu gormod ar ein darparwyr gwasanaeth allanol. Bydd yr holl benderfyniadau'n cael eu gwneud gan ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael, yn cynnwys gwybodaeth gan ein hymgyngorwyr trysorlys, ond ni ddibynnir arnyn nhw'n unig. Y Cyngor sy'n parhau i fod â'r cyfrifoldeb terfynol am unrhyw benderfyniadau rheoli'r trysorlys.

13. DANGOSYDDION DARBODUS A THRYSORLYS

- 13.1** Mae'r Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys a nodir yn Atodiad 10 yn ymwneud â fforddiadwyedd, bod yn ddarbodus ac maent yn gosod cyfyngiadau ar gyfer gwariant cyfalaf, dyledion allanol, y meincnod rhwymedigaethau a strwythur aeddfedu dyledion. Mater i'r Cyngor yw gosod y Dangosyddion Darbodus, ac mae'n bwysig ystyried y dangosyddion nid yn unig ar gyfer pob blwyddyn unigol ar wahân ond, hefyd, ystyried perfformiad yn y gorffennol a rhagolygon i'r dyfodol. Ceir eglurhad llawnach o bwrpas pob dangosydd yn Atodiad 10.

14. ADRODD

- 14.1** Mae angen i'r Cyngor dderbyn a chymeradwyo o leiaf bum prif adroddiad bob blwyddyn, sy'n cynnwys amrywiaeth o bolisïau, amcangyfrifon a ffigyrau gwirioneddol:-
- 1.** Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys - mae'r adroddiad cyntaf a'r pwysicaf (yr adroddiad hwn) yn edrych ymlaen ac mae'n rhoi sylw i:-
 - y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (y modd y bydd buddsoddiadau a benthyciadau'n cael eu trefnu), gan gynnwys dangosyddion rheoli'r trysorlys;
 - Strategaeth Fuddsoddi (y cyfyngiadau o ran rheoli buddsoddiadau);
 - Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) (y modd y mae gwariant cyfalaf gweddilliol yn cael ei roi yn erbyn refeniw dros gyfnod o amser);
 - Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys (diffiniad o bolisïau ac amcanion y swyddogaeth rheoli'r trysorlys); a
 - cynlluniau cyfalaf (gan gynnwys y dangosyddion darbodus cysylltiedig).
 - 2.** Strategaeth Gyfalaf - mae'n nodi'r strategaeth a gynlluniwyd ar gyfer buddsoddiad cyfalaf yn ystod y 5 mlynedd nesaf ac mae'n amlygu'r allbynnau a gynlluniwyd, y gwariant a gynlluniwyd a sut y bwriedir cyllido'r gwariant.

3. Adroddiadau monitro rheoli'r trysorlys chwarter 1 a 3 - bydd yr adroddiadau hyn yn rhoi diweddariad i Aelodau ar gynnydd y sefyllfa gyfalaf, gan ddiwygio dangosyddion darbodus fel y bydd angen, ac yn nodi a yw'r strategaeth trysorlys yn cyflawni ei hamcanion ynteu oes angen adolygu unrhyw bolisiâu. Y Deilydd Portffolio Cyllid sy'n derbyn yr adroddiadau hyn, o dan awdurdod a ddirprwywyd gan y Pwyllgor Gwaith.
4. Adroddiad monitro canol blwyddyn ar reoli'r trysorlys - mae'n debyg i'r ddau adroddiad chwarterol ond mae'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Gwaith, cyn cael ei dderbyn gan y Cyngor llawn.
5. Adroddiad rheoli'r trysorlys blynyddol diwedd blwyddyn - dogfen adolygu sy'n edrych yn ôl ar y flwyddyn yw hon ac mae'n cynnwys manylion detholiad o ddangosyddion darbodus a thrysorlys a gweithredoedd trysorlys gwirioneddol o gymharu â'r amcangyfrifon yn y strategaeth. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Gwaith hefyd yn ystyried yr adroddiad hwn cyn i'r Cyngor llawn ei dderbyn.

15. CASGLIAD

- 15.1 I grynhoi, mae Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2026/27 yn parhau'r strategaeth o ddull darbodus o fenthycu er mwyn cyfyngu'r goblygiadau refeniw, a defnyddio benthyca mewnol pan fo balansau arian parod yn caniatáu. Mae'r strategaeth fuddsoddi'n parhau'r polisi o sicrhau diogelwch a hylifedd adneuron dros elw.
- 15.2 Dros oes y strategaeth, rhagwelir y byddai parhau i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i gyfrannu at gyllido'r gyllideb refeniw a defnyddio'r CRT i gyllido gwariant cyfalaf yn golygu fod balansau arian parod yn lleihau'n sylweddol. Bydd rhaid benthyca mwy er mwyn cyllido rhaglen gyfalaf y Cyngor, tra'n parhau i gynnal balansau arian parod digonol i gyllido rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Côd Ymarfer CIPFA: Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus – darparwyd gan MUFG Corporate Markets (Link Group gynt)

Egwyddorion allweddol Côd Ymarfer CIPFA, ***Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Côd Ymarfer (Cyfrol 2021)***, fel y disgrifir yn Adran 4 o'r Côd hwnnw yw:-

Egwyddor Allweddol 1:

Dylai cyrff gwasanaethau cyhoeddus sefydlu amcanion, polisïau ac arferion, strategaethau a threfniadau adrodd ffurfiol a chynhwysfawr i reoli eu gweithgareddau rheoli'r trysorlys yn effeithiol.

Egwyddor Allweddol 2:

Dylai eu polisïau a'u harferion ei gwneud yn glir mai rheoli risgiau mewn modd effeithiol yw'r prif amcan yn eu gweithgareddau rheoli'r trysorlys a bod cyfrifoldeb am y rhain yn disgyn yn ddiamwys ar y sefydliadau eu hunain. Dylai eu harchwaeth risg ffurfio rhan o'u strategaeth flynyddol, gan gynnwys unrhyw ddefnydd o offerynnau ariannol ar gyfer rheolaeth ddarvoudus o'r risgiau hynny, a dylid sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd y portffolio wrth fuddsoddi cyllid rheoli'r trysorlys.

Egwyddor Allweddol 3:

Dylent gydnabod bod ceisio gwerth am arian yn y maes rheoli'r trysorlys a'r defnydd o fesurau perfformiad addas yn ystyriaethau dilys a phwysig i sefydliadau cyfrifol eu defnyddio i gynorthwyo i gwrdd ag amcanion eu busnes a'u gwasanaethau; ac, o fewn cyd-destun rheoli risg yn effeithiol, dylai eu polisïau a'u harferion rheoli'r trysorlys adlewyrchu hyn.

Aiff y Côd ymlaen i ddweud:-

“Wrth lunio'r argymhellion hyn, mae CIPFA yn cydnabod yr anawsterau o ran ymdrechu i reoli risg yn effeithiol, wrth anelu at sicrhau gwerth am arian ar yr un pryd. Nid yw'r Côd yn ceisio bod yn or-benodol ynghylch sut y dylai'r mater hwn gael ei drin, yn enwedig gan ei fod yn cynnwys amrywiaeth mor eang o sefydliadau. Fodd bynnag, lle bo hynny'n briodol, mae nodiadau cyfarwyddo i sectorau penodol yn rhoi cyngor addas. Mae CIPFA yn cydnabod nad oes unrhyw ddau sefydliad yn y gwasanaethau cyhoeddus yn debygol o fynd i'r afael â'r mater hwn yn union yr un modd, ond mae llwyddiant yn y maes rheoli'r trysorlys yn debygol o gael ei weld, yn enwedig yn nhermau gwerth am arian, fel arwydd o swyddogaeth rheoli'r trysorlys sy'n perfformio'n gryf”.

“Barn CIPFA, trwy'r holl wasanaethau cyhoeddus, yw mai'r flaenoriaeth yw diogelu cyfalaf yn hytrach na gwneud yr elw mwyaf. Nid yw osgoi pob risg yn briodol nac yn bosib. Fodd bynnag, mae'n rhaid cael cydbwysedd a chyfrifoldeb llym am arian cyhoeddus.”

Felly, bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu'r pedwar cymal canlynol fel rhan o'r rheolau sefydlog:-

1. Bydd yr Awdurdod yn creu ac yn cynnal, fel conglfeini ar gyfer rheolaeth effeithiol o'r trysorlys:-

- datganiad polisi rheoli'r trysorlys, sy'n datgan y polisïau, yr amcanion a'r dull o reoli risg yn ei weithgareddau rheoli'r trysorlys; ac
- arferion rheoli'r trysorlys addas (ARhT) yn nodi'r modd y bydd yr Awdurdod yn ceisio cyflawni'r polisïau a'r amcanion hynny, ac yn nodi sut y bydd yn trin ac yn rheoli'r gweithgareddau hynny.

Bydd cynnwys y Datganiad Polisi a'r ARhT yn dilyn yr argymhellion a gynhwysir yn Adrannau 6 a 7 o'r Côd, yn amodol yn unig ar newid lle bo angen i adlewyrchu amgylchiadau penodol yr Awdurdod. Ni fydd newidiadau o'r fath yn golygu y bydd yr Awdurdod yn gwyro'n sylweddol oddi wrth egwyddorion allweddol y Côd.

2. Bydd y Cyngor Sir, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn adroddiadau ar bolisïau, arferion a gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys yr Awdurdod, yn cynnwys: strategaeth a chynllun blynyddol cyn i'r flwyddyn ddechrau, adroddiad adolygu canol blwyddyn ac adroddiad blynyddol ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, mewn ffurf sydd wedi ei ragnodi gan yr ARhT.

3. Y Cyngor Sir / Pwyllgor Gwaith sy'n gyfrifol am weithredu polisiau ac arferion rheoli'r trysorlys yr Awdurdod, yn unol â'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer Rheoli'r Trysorlys. Y Swyddog Adran 151 sy'n gyfrifol am weithredu a gweinyddu penderfyniadau rheoli'r trysorlys, a bydd yn gweithredu yn unol â datganiad polisi'r Awdurdod a'r ARhT ac, os yw'n aelod o CIPFA, yn unol â Safon Arferion Proffesiynol CIPFA ar faterion Rheoli'r Trysorlys.
4. Mae'r Awdurdod yn enwebu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i fod yn gyfrifol am sicrhau bod y strategaeth a pholisiau rheoli'r trysorlys yn destun craffu effeithiol.

Diweddariad ar yr Economi a Chyfraddau Llog - cynhyrchwyd gan MUFG Corporate Markets (Link Group gynt)

1. Diweddariad ar yr Economi

- Yn ystod trydydd chwarter 2025/26 gwelwyd:-
 - Newid o -0.1% fis ar fis (m/m) yn y cynnyrch domestig gros (GDP) gwirioneddol ym mis Hydref, felly, nid oedd yr economi ddim mwy nag yr oedd ym mis Ebrill.
 - Disgynnodd y gyfradd 3 mis flwyddyn ar flwyddyn (3myy) ar gyfer twf enillion cyfartalog heb gynnwys bonwsau i 4.6% ym mis Hydref, ar ôl bod cyn uchod â 5.5% yn gynharach yn ystod y flwyddyn ariannol.
 - Disgynnodd Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn gyflym o 3.6% i 3.2% ym mis Tachwedd, a llaciodd chwyddiant CPI craidd i 3.2%.
 - Torrodd Banc Lloegr gyfraddau llog o 4.00% i 3.75% ym mis Rhagfyr, ar ôl cadw'r gyfradd fel ag yr oedd ym mis Tachwedd.
 - Amrywiodd enillion giltiau 10 mlynedd rhwng 4.4% a 4.7%, cyn gorffen y chwarter ar 4.5%.
- O safbwynt GDP, cafwyd dechrau ansefydlog i'r flwyddyn ariannol, gyda gostyngiad o 0.3% m/m mewn GDP gwirioneddol yn Ebrill, gan fod camau a gymerwyd gan fusnesau cyn i'r UDA gyflwyno tollau yn Ch1 (pan welwyd twf o 0.7% yn y GDP o gymharu â'r chwarter blaenorol) wedi pwyso ar weithgarwch. Er gwaetha'r rhesymau sylfaenol dros y gostyngiad, dyma'r gostyngiad cyntaf ers Hydref 2024 a'r gostyngiad mwyaf ers Hydref 2023. Er hynny, fe wnaeth yr economi wella ym mis Mai a Mehefin, felly, gwelwyd twf o 0.3% o un chwarter i'r llall (ch/ch) ar ddiwedd y chwarter (ond cafodd ei adolygu a'i ostwng i 0.2% ch/ch yn ddiweddarach). Serch hynny, bydd y 0.0% newid m/m yn y GDP gwirioneddol ym mis Gorffennaf, ac yna cynnydd o 0.1% m/m ym mis Awst a gostyngiad o 0.1% ym Medi wedi achosi rhywfaint o bryder (0.1% ch/ch). Mae'r newid siomedig o -0.1% m/m yn y GDP gwirioneddol ym mis Hydref yn awgrymu fod twf wedi arafu i tua 1.4% yn 2025 dros y flwyddyn gyfan.
- Gan aros gyda barn am hynt yr economi yn y dyfodol, cododd y Mynegai Rheolwyr Prynu (PMI) cyfansawdd ar gyfer y DU o 51.2 ym mis Tachwedd i 52.1 yn Rhagfyr, gan awgrymu efallai fod yr ansicrwydd cyn y gyllideb yn dechrau cilio a bod yr economi'n elwa ar hynny i raddau. Gallai hyn hefyd adlewyrchu fod y llusgiad oherwydd galw gwan o dramor yn gwanhau hefyd. Er bod y PMI gwasanaethau wedi codi o 51.3 i 52.1, roedd mwy o gynnydd yn y balans allbwn gweithgynhyrchu a gododd o 50.3 i 51.8. Yn wir, mae'r sector gweithgynhyrchu wedi bod yn fwy agored i'r galw allanol gwan a welwyd yn ddiweddar ac mae wedi bod ar ei hôl hi o gymharu â'r sector gwasanaethau ers diwedd y flwyddyn ddiwethaf.
- Gan droi yn awr at werthiant manwerthu, a'r cynnydd o 1.5% flwyddyn ar flwyddyn ym Medi, oedd yn llawer uwch na'r cynnydd o 0.7% yn Awst, a dyma'r cynnydd uchaf ers Ebrill. Serch hynny, roedd y gostyngiad o 0.1% m/m mewn gwerthiant manwerthu ym mis Tachwedd yn adeiladu ar y gostyngiad o 0.9% m/m ym mis Hydref, gan awgrymu fod effeithiau mwy hirhoedlog cyflogaeth gwan a'r ffaith fod twf cyflogau'n arafu yn cael effaith. Yn ogystal, mae dirywiad yn y mesur GfK o hyder defnyddwyr o -17 ym mis Hydref i -19 ym mis Tachwedd yn awgrymu nad yw defnyddwyr yn teimlo'n optimistaidd ar hyn o bryd.
- Cyn y Gyllideb ym mis Tachwedd, roedd sefyllfa arian cyhoeddus yn ymddangos yn wan. Roedd y £20.2 biliwn a fenthycwyd ym Medi ychydig yn uwch na rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) o 20.1 biliwn. Ar gyfer y flwyddyn hyd yma, benthycwyd £99.8 biliwn rhwng Ebrill a Medi a dyma'r ail ffigwr uchaf ar gyfer y cyfnod hwn ers dechrau cadw cofnodion yn 1993, a dim ond benthycia yn ystod y pandemig COVID-19 oedd yn uwch na hyn. Prif yrwyr y cynnydd mewn benthycia oedd costau llog uwch ar ddyledion, costau gweithredu'r llywodraeth yn cynyddu, a thaliadau budd-daliadau a gyplysir â chwyddiant uwch, ac roedd y cynnydd hwn mewn costau yn uwch na'r cynnydd yn y cyfraniadau treth ac Yswiriant Gwladol.
- Yn dilyn y Gyllideb ar 26 Tachwedd, cyfrifodd yr OBR fod y tynhau net mewn polisi ariannol yn £11.7bn (0.3% o GDP) yn 2029/30, llai na'r rhagolwg o £25bn. Fe wnaeth yr OBR israddio twf mewn cynhyrchiant gan 0.3%, o 1.3% i 1.0%, ond roedd llawer o'r dylanwad hwnnw'n cael ei wrthbwyso gan gynnydd yn y rhagolygon tymor byr ar gyfer cyflogau a chwyddiant. Ar sail hynny, barnodd yr OBR y byddai'r Canghellor yn cyflawni ei hamcanion, gyda £4.2bn yn weddill. Yna, dewisodd y Canghellor ymestyn yr hyblygrwydd cyllidol i £21.7bn, ac mae hyn yn uwch na'r ffigwr blaenorol o £9.9bn.
- Dewisodd y Canghellor hefyd gynyddu gwariant gan swm net o £11.3bn yn 2029/30. Er mwyn talu am hynny a'r cynnydd yn yr hyblygrwydd cyllidol, codwyd trethi gan £26.1bn yn 2029/30. Yr elfennau oedd yn codi'r mwyaf o refeniw oedd rhewi'r trothwyon treth incwm o 2028/29 (+£7.8bn) a chodi'r cyfraniadau yswiriant gwladol (NIC) ar gyfraniadau pensiwn trwy gynllun aberthu cyflog (+£4.8bn). Bydd cynyddu'r dreth gyngor ar eiddo sydd werth mwy na £2.0m yn cynhyrchu £0.4bn.

- Yn dilyn y Gyllideb, roedd benthyciadau net y sector cyhoeddus o £11.7bn ym mis Tachwedd yn llawer is na'r ffigwr o £13.6bn ym mis Tachwedd 2024, a dyma'r ffigwr benthycia isaf ym mis Tachwedd ers 2021, yn bennaf oherwydd bod derbyniadau treth £5.4bn yn uwch, a hynny'n bennaf oherwydd y cynnydd yn NIC y cyflogwr yn Ebrill 2025. Yn ystod wyth mis gyntaf 2025/26, roedd benthycia cronus yn parhau i fod £10bn yn uwch na chyfanswm y llynedd. Fodd bynnag, dylai chwyddiant is a chael gwared ar asedau cyn y Gyllideb olygu bod benthycia yn 2025/26 yn is na chyfanswm y llynedd.
- Roedd yn amlwg yn y gwanwyn bod y farchnad swyddi'n gwanhau. Y gostyngiad o 109,000 m/m yn y mesur cyflogaeth PAYE oedd y gostyngiad mwyaf (ac eithrio'r pandemig) ers dechrau cadw cofnodion, a'r seithfed gostyngiad mewn saith mis. Adolygwyd y newid misol, a'i ostwng, mewn pump o'r saith mis blaenorol hefyd, gyda gostyngiad o 33,000 yn Ebrill yn cael ei leihau yn dilyn adolygiad i ostyngiad o 55,000. Yn fwy diweddar, y gostyngiad o 38,000 mewn gweithwyr cyflogedig ym mis Tachwedd oedd y degfed gostyngiad misol yn ystod yr 13 mis diwethaf, gan arafu'r gyfradd dwf flynyddol ymhellach o -0.5% i -0.6%. Roedd nifer y swyddi gweigion yn ystod y tri mis hyd at fis Tachwedd 2025 yn 729,000 (roedd ar ei uchaf yng ngwanwyn 2022 gyda ffigwr o 1.3 miliwn) ond roedd Arolwg y Gweithlu Llafur, sydd yn llai dibynadwy, yn dangos gostyngiad o 16,000 mewn swyddi yn y tri mis hyd at Hydref, a bod y gyfradd ddiweithdra wedi codi ymhellach, o 5.0% i 5.1%. Mae hyn oll yn awgrymu bod y farchnad lafur yn parhau i lacio, ond yn araf.
- Mae marchnad lafur lacach yn gyrru pwysau mwy meddal ar gyflogau. Fe wnaeth cyfradd dwf 3myy enillion cyfartalog, yn cynnwys bonwsau, lacio o 4.9% ym Medi i 4.7% ym mis Hydref. Arafodd y gyfradd 3myy, heb gynnwys bonwsau, o 4.7% i 4.6%. Fe wnaeth twf cyflogau sector preifat rheolaidd barhau i arafu o 4.2% i 3.9%. Yn sgil hynny roedd ar darged, ar y cyfan, i fod yn unol â rhagolwg y Banc o 3.5% ar ddiwedd Rhagfyr.
- Disgynnodd chwyddiant CPI yn gyflym ym mis Tachwedd, gan lacio o 3.6% yn Hydref i 3.2%. Dyma'r trydydd canlyniad chwyddiant is na'r disgwyl yn olynol ac mae'n awgrymu fod cyfnod lle mae lefel chwyddiant yn gostwng wedi hen gychwyn. Gwelwyd pwysau ar brisiau'n llacio'n gyffredinol, gan arafu mewn 10 o'r 12 prif categori. Disgynnodd chwyddiant craidd o 3.4% i 3.2% a disgynnodd chwyddiant gwasanaethau o 4.5% i 4.4%. Fodd bynnag, bydd llawer iawn yn dibynnu ar yr addasiadau arfaethedig i brisiau a reoleiddir a phrisiau mynegai fis Ebrill nesaf. Mae Capital Economics yn rhagweld y bydd chwyddiant CPI yn gostwng o 3.2% ym Mawrth i 2.0% yn Ebrill, gan olygu ei fod ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed o 2.0%, neu is, erbyn diwedd 2026.
- Problem hollbresennol yn ystod y misoedd diwethaf oedd y pwysau a roddwyd ar enillion giltiau sydd â dyddiadau ad-dalu yn y tymor canol a'r tymor hwy. Symudodd enillion ar giltiau 10 mlynedd i'r ochr yn ystod ail chwarter 2025, gan godi o 4.4% ddechrau Ebrill i tua 4.8% ar ei uchaf, cyn gorffen ar 4.50% erbyn diwedd Mehefin.
- Yn fwy diweddar, cododd enillion ar giltiau 10 mlynedd o 4.46% i 4.60% ddechrau Gorffennaf, wrth i doriadau mewn gwariant gael eu gwrthdroi ac ansicrwydd ynghylch dyfodol Canghellor Reeves gynyddu pryderon ariannol. Er mai am gyfnod byr yn unig y gwelwyd y cynnydd, roedd yn tynnu sylw at sefyllfa ariannol fregus y DU. Mewn oes o ddyledion uchel, cyfraddau llog uchel a thwf GDP isel, mae'r farchnad bellach yn fwy sensitif i risgiau ariannol nag yr oedd cyn y pandemig. Yn ystod Awst, gwelwyd cynnydd mawr yn y giltiau â dyddiadau ad-dalu hir oedd yn cael eu gwerthu, gyda chynnydd o 22 pwynt sylfaen (bps) ac, erbyn diwedd y mis, roedd y gyfradd yn uwch nag y bu ers 27 o flynyddoedd, sef 5.6%. Er bod enillion wedi llacio ers hynny, roedd y gwerthiant ar y marchnadoedd wedi'i yrru gan bryderon buddsoddwyr ynghylch twf yn yr anghydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw, yn deillio o anesmwythyd ynghylch diffyg cyfnerthiad ariannol a gostyngiad yn y galw gan brynwyr traddodiadol sy'n prynu bondiau â dyddiadau ad-dalu hir, megis cronfeydd pensiwn. Ar gyfer giltiau 10 mlynedd, erbyn diwedd Medi roedd ystyfnigrwydd chwyddiant i ostwng, data gweithgarwch gwydn a phenderfyniad Banc Lloegr i reoli chwyddiant yn golygu fod enillion wedi aros yn uchel, dros 4.70%, er bod enillion giltiau wedi gostwng ar ôl y Gyllideb, wedi'i gefnogi gan gynllun ariannol tynnach, dim galw am gymaint o godiad mewn trethi gan fod rhagolwg ariannol yr OBR wedi gostwng llai na'r disgwyl, a symudiad ffafriol o ran cyhoeddi bondiau, gan symud oddi wrth ddyled hir dymor. Roedd enillion giltiau o gwmpas 4.5% ar ddiwedd y chwarter.
- Gwelwyd cwmpas sylweddol yn yr FTSE 100 yn dilyn cyhoeddiad yr UD ar "Ddiwrnod Rhyddid" y byddai'n cynyddu tollau, gyda gostyngiad o fwy na 10% yn ystod wythnos gyntaf Ebrill - o 8,634 ar 1 Ebrill i 7,702 ar 7 Ebrill. Fodd bynnag, gan fod y rhyfel masnach wedi tawelu ac yn sgil enillion corfforaethol cryf, dechreuodd y sefyllfa adfer yn gyflym ddiwedd Ebrill. O ganlyniad, roedd yr FTSE 100 ar 8,761 ar ddiwedd Mehefin, tua 2% yn uwch na'i werth ar ddiwedd Mawrth, a dros 7% yn uwch na'i lefel ar ddechrau 2025. Ers hynny, mae'r FTSE 100 wedi gweld cynnydd sylweddol pellach yn ei werth. Cyrhaeddodd y farchnad stoc ei lefel uchaf erioed, dros 9,900, ganol Tachwedd, wedi'i yrru gan adferiad byd-eang yn sgil gobeithion y byddai'r cau lawr a brofodd llywodraeth yr UD yn cael ei ddatrys, disgwyliad y byddai'r gyfradd llog yn cael ei thorri yn Rhagfyr, ac enillion corfforaethol cryf. Er gwaethaf ychydig o nerfusrwydd adeg y Gyllideb, roedd yr FTSE 100 ar 9,931 ar ddiwedd Ch4, 5% yn uwch na diwedd Medi a 22% yn uwch nag ar ddechrau 2025.

Cyfarfodydd y Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC): 8 Mai, 19 Mehefin, 7 Awst, 18 Medi, 6 Tachwedd, 18 Rhagfyr 2025

- Cynhaliwyd chwe chyfarfod o'r MPC rhwng Ebrill a Rhagfyr. Ym mis Mai, penderfynodd y Pwyllgor dorri'r Gyfradd Banc o 4.50% i 4.25% ac ni newidiodd y polisi ym mis Mehefin. Yn y bleidlais ym mis Mehefin, pleidleisiodd tri aelod o'r Pwyllgor (Dhingra, Ramsden a Taylor) o blaid torri'r gyfradd i 4.00% ar unwaith, oherwydd llacio yn amodau'r farchnad lafur. Roedd y chwe aelod arall yn fwy gofalus, gan eu bod wedi amlygu'r angen i gadw llygaid am "arwyddion o alw gwan", "cyfyngiadau cyflenwi" a "disgwyliadau chwyddiant" uwch, yn bennaf oherwydd bod prisiau bwyd yn codi. Trwy ailadrodd y dywediad a ddefnyddir yn gyson, "graddol a gofalus", roedd y MPC yn parhau i awgrymu y byddai cyfraddau yn disgyn ymhellach.
- Cafodd y gyfradd ei thorri unwaith eto yn Awst. Fodd bynnag, roedd y bleidlais 5 i 4 o blaid torri'r gyfradd i 4% yn amlygu'r gwahanol safbwyntiau o fewn y MPC, ac roedd y sylwebaeth i gyd-fynd â'r penderfyniad yn nodi fod y penderfyniad yn un "agos iawn", ac yn ategu y byddai unrhyw doriad yn y cyfraddau yn y dyfodol yn cael eu gwneud yn "raddol a gofalus". Yn y pendraw, defnyddiodd y Llywodraethwr Bailey ei bleidlais fwrw o blaid torri'r gyfradd ond, gan fod disgwyl i fesur chwyddiant y CPI gyrraedd o leiaf 4% yn ddiweddarach eleni, roedd y MPC yn wyliadwus rhag torri cyfraddau eto cyn i chwyddiant ddechrau gostwng yn araf tuag at 2%.
- Gyda chyflogau'n dal i godi gan ychydig llai na 5%, nid oedd yn syndod fod cyfarfod y MPC ym mis Medi wedi pleidleisio 7-2 o blaid cadw'r gyfradd ar 4% (pleidleisiodd Dhingra a Taylor o blaid gostyngiad pellach o 25 bps). Manteisiodd y Banc hefyd ar y cyfle i gyhoeddi y byddai ond yn lleihau ei fantolen gan £70bn yn ystod y 12 mis nesaf, yn hytrach na £100bn. Roedd ailadrodd ei bod yn briodol defnyddio dull "graddol a gofalus" ar gyfer torri cyfraddau yn awgrymu bod y Banc yn dal i gredu y byddai cyfraddau llog yn parhau i ostwng.
- Yn y cyfarfod ar 6 Tachwedd, defnyddiodd Llywodraethwr Bailey ei bleidlais fwrw unwaith eto, a chadw Cyfradd y Banc ar 4%, ond gan awgrymu'n gryf bod toriad pellach yn y gyfradd ar y gweill os byddai data'n cefnogi symudiad o'r fath. Erbyn 18 Rhagfyr, gyda chwyddiant CPI Tachwedd wedi gostwng i 3.2%, a GDP ar gyfer Ch2 wedi'i ostwng o 0.3% ch/ch i ddim ond 0.2% ch/ch yn dilyn adolygiad, a bod GDP wedi arafu eto i 0.1% yn Ch3, pleidleisiodd y MPC 5 i 4 o blaid torri cyfraddau llog eto, i 3.75%. Fodd bynnag, mynegodd Llywodraethwr Bailey yn glir y byddai angen data cryf i gefnogi unrhyw doriadau pellach, ac y byddai cyflymder unrhyw doriadau pellach yn araf o gymharu â'r misoedd diwethaf. Mae'r marchnadoedd yn disgwyl i Gyfradd y Banc gael ei dorri nesaf yn Ebrill.

2. Rhagolygon ar gyfer y gyfradd llog

Mae'r Awdurdod wedi penodi MUFG Corporate Markets fel ei ymgynghorydd trysorlys ac, fel rhan o'r gwasanaeth, maent yn cynorthwyo'r Awdurdod i lunio barn ar gyfraddau llog. Darparodd MUFG Corporate Markets y rhagolygon a'r sylwebaeth ganlynol ar 22 Rhagfyr 2025. Rhagolygon ydynt ar gyfer Cyfradd y Banc, enillion cyfartalog a chyfraddau sicrwydd y BBGC, enillion giltiau +80 bps.

MUFG Corporate Markets Interest Rate View 22.12.25													
	Mar-26	Jun-26	Sep-26	Dec-26	Mar-27	Jun-27	Sep-27	Dec-27	Mar-28	Jun-28	Sep-28	Dec-28	Mar-29
BANK RATE	3.75	3.50	3.50	3.25	3.25	3.25	3.25	3.25	3.25	3.25	3.25	3.25	3.25
3 month ave earnings	3.80	3.50	3.50	3.30	3.30	3.30	3.30	3.30	3.30	3.30	3.30	3.30	3.30
6 month ave earnings	3.80	3.50	3.50	3.40	3.30	3.30	3.30	3.40	3.40	3.40	3.40	3.40	3.40
12 month ave earnings	3.90	3.60	3.60	3.50	3.40	3.50	3.50	3.50	3.50	3.50	3.60	3.60	3.60
5 yr PWLB	4.60	4.50	4.30	4.20	4.10	4.10	4.10	4.10	4.10	4.10	4.10	4.10	4.10
10 yr PWLB	5.20	5.00	4.90	4.80	4.80	4.70	4.70	4.70	4.70	4.60	4.60	4.60	4.70
25 yr PWLB	5.80	5.70	5.60	5.50	5.50	5.40	5.30	5.30	5.30	5.20	5.20	5.20	5.20
50 yr PWLB	5.60	5.50	5.40	5.30	5.30	5.20	5.10	5.10	5.10	5.00	5.10	5.00	5.00

- Fe wnaethom ddiweddarau ein rhagolygon cyfraddau llog ddiwethaf ar 11 Awst. Ers hynny, mae cyfuniad o dwf gwan (0.2% ch/ch GDP ar gyfer Ch2 a 0.1% ch/ch GDP ar gyfer Ch3), gostyngiad mewn chwyddiant (mae CPI yn 3.2% ar hyn o bryd), a Chyllideb Tachwedd fydd yn rhoi mwy o bwysau ar incwm y rhan fwyaf o deuluoedd, wedi rhoi cyfle i MPC Banc Lloegr ostwng y Gyfradd Banc eto, o 4% i 3.75% ar 18 Rhagfyr.
- Er syndod i'r rhan fwyaf o sylwebwyr ar y marchnadoedd, ni wnaeth gostyngiad sylweddol y CPI mewn mis, o 3.6% i 3.2%, berswadio'r aelodau a bleidleisiodd yn erbyn torri'r gyfradd banc ym mis Tachwedd (Lombardelli, Green, Mann a Phil) i ymuno â'r aelodau oedd yn pleidleisio o blaid torri'r gyfradd. Yn hytrach, roedd rhaid i Lywodraethwr y Banc, Andrew Bailey, ddefnyddio ei bleidlais fwrw i sicrhau fod y bleidlais o blaid torri'r gyfradd yn ennill, ond gyda mwyafrif bychan iawn, sef 5 i 4.
- Oherwydd bod mwyafrif mor fychan o blaid torri'r gyfradd, nid oedd yn annisgwyl clywed, er y byddai cyfraddau'n parhau i ostwng yn raddol, oedd yn awgrymu bod toriad neu doriadau pellach ar y gweill, mae aelodau'r MPC eisiau asesu tystiolaeth ynglŷn â'r gweithgarwch yn y farchnad lafur a thwf cyflogau. Yn wir, gyda thwf cyflogau blynyddol yn parhau i fod dros 4.5%, ailadroddodd y MPC y byddai'r achos dros doriadau pellach yng nghyfradd y banc yn dynn iawn, a nododd Llywodraethwr Bailey nad oes fawr o le i symud wrth i'r Gyfradd Banc agosáu at lefel niwtral.

- Yn sgil hynny, adolygwyd rhagolwg MUG Corporate Markets er mwyn cynnwys toriad yn y gyfradd i 3.5% yn Ch2 2026, sy'n debygol gan fod darogan gostyngiad sylweddol mewn chwyddiant CPI o 3% ym Mawrth i 2% yn Ebrill (yn unol â rhagolwg Capital Economics), wedi'i ddilyn gan osteg byr trwy'r haf tra bod rhagor o ddata'n cael ei gasglu, ac yna toriad pellach yn y gyfradd i 3.25% yn Ch4.
- Fel yn Awst, serch hynny, mae bygythiadau i'r sefyllfa ganolog honno. Beth os fydd cynnydd mewn cyflogau'n aros yn uchel? Wedi'r cyfan, mae prinder staff yn parhau'n broblem ddifrifol mewn sawl sector yn yr economi gartref, gan gynnwys darpariaeth gofal cymdeithasol a'r diwydiannau adeiladu. Yn ogystal, erbyn Mai 2026, yn dilyn yr etholiadau lleol, bydd gennym well syniad o ph'un a fydd y tîm Starmer / Reeves yn parhau hyd ddiwedd y Senedd bresennol neu a fyddant yn wynebu her i'r Arweinyddiaeth o fewn eu plaid eu hunain. Os felly, sut fydd y marchnadoedd giltiau'n ymateb i'r amrywion hyn...ac a fydd rhaid cynnwys ffactorau geo-wleidyddol ychwanegol hefyd, yn enwedig penderfyniadau polisi ariannol y Banc Ffederal yn yr UD yn 2026 a'r frwydr barhaus i dorri cyfraddau tra bod chwyddiant yn parhau i fod yn agos at 3%.
- O'r herwydd, mae ein rhagolwg canolog a ddiweddarwyd yn cynnwys sawl rhybudd sylweddol. Rydym yn hyderus, fel y buom ers tro, fod ein rhagolwg ar gyfer y Gyfradd Banc a Chyfradd Sicrwydd 5 mlynedd y BBGC yn gadarn, ac rydym wedi dwyn ymlaen amseriad y toriad(au) nesaf yn y gyfradd fymryn. Ond, ar gyfer rhannau o'r gromlin sy'n edrych ar y sefyllfa mewn 10-, 25- a 50 mlynedd, bydd lefel cyhoeddi giltiau, a'r amseru, yn hanfodol er mwyn sicrhau amgylchedd fasnachu dawel. Nid oes gwarant o hynny ac, yn ychwanegol, mae'r rhagolygon ar gyfer chwyddiant a ffactorau gwleidyddol gartref ac, yn holl bwysig, yn yr UD, yn debygol o fod yn ddylanwadol. Dylai materion fod yn fwy eglur erbyn Mehefin yn y DU, ond cynhelir etholiadau canol tymor yr UD ym mis Tachwedd.
- Mae ein rhagolygon diwygiedig ar gyfer cyfraddau'r BBGC yn seiliedig ar y Gyfradd Sicrwydd (y gyfradd safonol llai 20 bps), sef y gyfradd fu ar gael i'r rhan fwyaf o awdurdodau ers 1 Tachwedd 2012. Noder bod y gyfradd BBGC is ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) wedi cychwyn ar 15 Mehefin 2023 ar gyfer yr awdurdodau hynny sydd â CRT (cyfradd safonol llai 60 bps) ac mae disgwyl i'r gyfradd barhau tan ddiwedd Mawrth 2026 o leiaf. Gyda gobaith, bydd estyniad pellach i'r gyfradd ostyngol hon yn cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr.
- Mae rhagolygon enillion y farchnad ariannol yn seiliedig ar enillion cyfartalog y gall awdurdodau lleol eu disgwyl am gyfnod o rhwng 3 a 12 mis.

Enillion giltiau a chyfraddau'r BBGC

Y duedd gyffredinol yn y tymor hwy yw y bydd enillion giltiau a chyfraddau'r BBGC yn gostwng yn ystod cyfnod ein rhagolygon, ond mae risg y gallai cyfraddau fod yn uwch na'r rhagolygon. Mae ein targedau ar gyfer cyfraddau benthyg yn cael eu gosod **dwyl flynedd ymlaen llaw** (gan ein bod yn disgwyl i gyfraddau ostwng) ac mae'r cyfraddau benthyca (sicrwydd) BBGC cyfredol wedi'u nodi isod:-

Benthyciadau BBGC	Cyfraddau benthyca cyfredol ar 22.12.25 p.m.	Y gyfradd fenthyca - targed presennol (diwedd Ch4 2027)	Y gyfradd fenthyca - targed blaenorol (diwedd Ch4 2027)
	%	%	%
5 mlynedd	4.81	4.10	4.20
10 mlynedd	5.39	4.70	4.70
25 mlynedd	6.01	5.30	5.30
50 mlynedd	5.78	5.10	5.10

Cyngor ynghylch benthyca: Mae ein rhagolwg tymor hir (dros 10 mlynedd) ar gyfer lefel niwtral y Gyfradd Banc yn parhau ar 3.5%. Gan fod holl gyfraddau sicrwydd y BBGC yn parhau i fod yn uwch na'r lefel hon, bydd angen adolygu strategaethau benthyca yn y cyd-destun hwnnw. Yn gyffredinol, gellir cael gwell gwerth am arian ar ben byrrach y gromlin (aeddfeirwydd BBGC <5 mlynedd / EIP BBGC <10 mlynedd) a dylid ystyried benthyciadau cyfnod sefydlog tymor byr rhwng Awdurdodau Lleol hefyd. Yn gyffredinol, bydd cyfraddau benthyca dros dro yn gostwng yn unol ag unrhyw doriad yn y Gyfradd Banc.

Mae ein hawgrym o **gyfraddau enillion cyllidebol ar gyfer buddsoddiadau** hyd at gyfnod o tua 3 mis ym mhob blwyddyn ariannol wedi'u nodi isod:-

<i>Enillion cyfartalog ym mhob blwyddyn</i>	<i>Yn awr</i>	<i>Yn flaenorol</i>
	%	%
2025/26 (gweddilliol)	3.80	3.90
2026/27	3.40	3.60
2027/28	3.30	3.30
2028/29	3.30	3.50
2029/30	3.50	3.50
Blynyddoedd 6-10	3.50	3.50
Blynyddoedd 10+	3.50	3.50

Byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau yn yr economi a'r marchnadoedd wrth iddynt ymddangos. Fel arfer, rydym yn adolygu ein rhagolygon ar ôl i Fanc Lloegr gyhoeddi ei Adroddiad Polisi Ariannol bob chwarter, ond byddwn yn ystyried ein sefyllfa yn ôl y gofyn hefyd.

Mae ein rhagolygon llog ar gyfer y Gyfradd Banc mewn camau o 25 bps, tra bod rhagolygon BBGC yn cael eu talgrynnu i'r 10 bps agosaf ac maent yn rhagolygon canolog mewn bandiau o + / - 25 bps. Yn naturiol, rydym yn parhau i gadw llygaid ar ddigwyddiadau a byddwn yn diweddarau ein rhagolygon pan fydd hynny'n briodol.

Dyddiadau Ad-dalu Benthyciadau BBGC ar 31 Rhagfyr 2025

Blwyddyn Ariannol	Aeddfedu	Cyfradd	Cyfanswm
2026/27	01/04/2026	3.67	527,601
	30/09/2026	8.63	853,800
Cyfanswm 2026/27			1,381,401
2027/28	01/04/2027	3.73	490,601
	19/08/2027	5.20	1,000,000
	30/09/2027	7.00	674,502
Cyfanswm 2027/28			2,165,103
2028/29	01/03/2029	9.50	13,920
	01/04/2028	3.80	262,440
Cyfanswm 2028/29			276,360
2029/30	01/04/2029	3.85	684,697
	01/09/2029	9.25	5,182
	06/06/2029	9.13	800
		9.25	4,087
		9.38	4,132
	06/12/2029	9.25	9,126
	09/05/2029	9.25	2,724
	30/09/2029	8.63	853,800
Cyfanswm 2029/30			1,564,547
2030/31	01/03/2031	9.25	6,295
	01/04/2030	3.91	450,706
	01/09/2030	9.25	4,382
		9.75	6,838
	06/12/2030	9.63	1,675
		9.75	6,222
	09/05/2030	9.38	6,755
	09/11/2030	9.75	3,799
Cyfanswm 2030/31			486,672
2031/32	01/04/2031	3.96	660,449
	30/09/2031	8.63	1,280,700
Cyfanswm 2031/32			1,941,149
2032/33	01/03/2033	9.88	1,074
	01/04/2032	4.01	314,886
	06/06/2032	9.25	22,319
	06/12/2032	9.50	28,420
Cyfanswm 2032/33			366,700
2033/34	01/04/2033	4.05	636,565
Cyfanswm 2033/34			636,565
2034/35	01/04/2034	4.09	623,834
Cyfanswm 2034/35			623,834
2035/36	01/04/2035	4.13	611,357
Cyfanswm 2035/36			611,357
2036/37	01/04/2036	4.16	599,130
Cyfanswm 2036/37			599,130

Blwyddyn Ariannol	Aeddfedu	Cyfradd	Cyfanswm
2037/38	01/04/2037	4.18	587,147
Cyfanswm 2037/38			587,147
2038/39	01/04/2038	4.20	225,467
Cyfanswm 2038/39			225,467
2039/40	15/04/2039	4.95	5,000,000
Cyfanswm 2039/40			5,000,000
2040/41	15/04/2040	4.95	3,500,000
Cyfanswm 2040/41			3,500,000
2042/43	01/04/2042	4.25	999,781
Cyfanswm 2042/43			999,781
2043/44	01/04/2043	4.25	1,020,120
Cyfanswm 2043/44			1,020,120
2044/45	01/04/2044	4.25	1,009,718
Cyfanswm 2044/45			1,009,718
2045/46	01/04/2045	4.25	11,464,215
Cyfanswm 2045/46			11,464,215
2050/51	16/01/2051	4.15	2,000,000
Cyfanswm 2050/51			2,000,000
2052/53	09/11/2052	4.55	6,138,400
	11/12/2052	4.25	6,000,000
	12/10/2052	4.55	4,300,000
	19/05/2052	4.05	5,000,000
	20/11/2052	4.20	6,800,000
Cyfanswm 2052/53			28,238,400
2054/55	06/05/2054	8.38	3,000,000
Cyfanswm 2054/55			3,000,000
2055/56	15/11/2055	8.00	1,500,000
	15/12/2055	7.88	2,000,000
Cyfanswm 2055/56			3,500,000
2056/57	10/10/2056	7.88	2,000,000
	15/04/2056	7.13	3,000,000
Cyfanswm 2056/57			5,000,000
2057/58	15/04/2057	6.88	3,000,000
		7.13	3,000,000
	15/10/2057	6.50	2,512,854
Cyfanswm 2057/58			8,512,854
2059/60	22/06/2059	4.25	1,763,308
Cyfanswm 2059/60			1,763,308
2064/65	25/03/2065	2.24	10,000,000
Cyfanswm 2064/65			10,000,000
2066/67	30/03/2067	2.20	6,200,000
Cyfanswm 2066/67			6,200,000
2068/69	16/01/2069	2.49	15,000,000
Cyfanswm 2068/69			15,000,000
Cyfanswm			117,673,828

Dyddiadau Ad-dalu Benthyciadau Salix

Blwyddyn Ariannol	Ad-daliadau Benthyciadau Salix £000
2026/27	658
2027/28	658
2028/29	658
2029/30	580
2030/31	568
2031/32	568
2032/33	347
Cyfanswm	4,037

Datganiad Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) 2026/27

Rhaid i'r Cyngor dalu elfen o wariant cyfalaf Cronfa'r Cyngor a'r CRT sydd wedi ei gyllido drwy fenthycu bob blwyddyn (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf - GCC) drwy dâl refeniw (y Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI)).

Yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru (LIC), rhaid i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad DRI cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi "os cynigir amrywio telerau'r datganiad gwreiddiol yn ystod y flwyddyn, dylid cyflwyno datganiad diwygiedig i'r Cyngor bryd hynny". Rhoddir nifer o opsiynau i gynghorau, ar yr amod bod darpariaeth ddarbodus yn cael ei gwneud. Argymhellir bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Datganiad Polisi DRI isod:-

O 1 Ebrill 2022, ar gyfer holl wariant cyfalaf Cronfa'r Cyngor a'r CRT sydd wedi ei gyllido drwy fenthycu â chefnogaeth a benthyca digefnogaeth (GCC), codir DRI drwy ddefnyddio'r dull blwydd-dal oes ased ar sail y gyfradd llog a godir ar y Cyngor ar gyfartaledd ar ei holl fenthyciadau ar ddiwedd pob blwyddyn berthnasol.

Ni fydd gwariant cyfalaf a wneir bob blwyddyn yn ddarostyngedig i dâl DRI tan y flwyddyn ariannol ganlynol, neu mewn rhai achosion, a gyda disgresiwn y Swyddog Adran 151, tan y flwyddyn wedi i'r ased ddod yn weithredoled lle bo'r costau'n gysylltiedig â'r ased yn £5m neu uwch.

Bydd amcangyfrif o oes yr ased yn cael ei benderfynu yn y flwyddyn y bydd y DRI yn dechrau ac ni fydd yn newid yn ystod oes yr ased. Y Swyddog Adran 151 fydd yn amcangyfrif oes yr ased, yn seiliedig ar gyngor a dderbynnir gan y swyddogion perthnasol, gan ystyried y gofynion statudol a chanllawiau LIC mewn perthynas â'r DRI ac oes asedau. Pan fo tir yn cael ei brynu, bydd oes yr ased yn seiliedig ar oes yr ased a roddir ar y tir, sef 50 mlynedd yn y rhan fwyaf o achosion, a hynny'n unol â hyd oes adeiladau fel asedau.

Oherwydd nad oes modd cysylltu rhai mathau o wariant cyfalaf a wneir gan y Cyngor ag ased unigol, bydd oes ased yn cael ei hasesu ar sail sydd yn adlewyrchu'n fwyaf rhesymol am ba hyd y rhagwelir y ceir budd o'r gwariant. Hefyd, pa fath bynnag o wariant ydyw, bydd yn cael ei grwpio gyda'i gilydd mewn dull sy'n adlewyrchu natur prif elfen y gwariant ac ni fydd ond yn cael ei rannu mewn achosion lle mae dwy neu ragor o brif elfennau ac iddynt oes economaidd ddefnyddiol sylweddol wahanol i'w gilydd.

Gordaliadau DRI – O dan y canllawiau DRI, gellir gwneud taliadau sy'n uwch na'r DRI statudol, sef darpariaeth refeniw gwirfoddol (DRG).

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wneud DRG ychwanegol i leihau dyled os ystyrir ei bod yn ddarbodus gwneud hynny ar gyfer Cronfa'r Cyngor a / neu'r CRT.

Gellir hawlio DRG yn ôl yn ddiweddarach os credir bod hynny'n angenrheidiol neu'n ddarbodus. Er mwyn gallu adennill y symiau hyn i'w defnyddio yn y gyllideb, mae'n rhaid i'r polisi hwn ddatgelu'r gordaliadau cronnus a wneir bob blwyddyn.

Mae'r gordaliadau DRG cronnus hyd yma yn £0.216m a £12.386m yn sgil gor-ddarparu ar gyfer DRI yn dilyn newid y polisi DRI yn 2018, llai £1.402m ar gyfer y tan-ddarpariaeth yn 2025/26.

Asedau ar Brydles i'r Awdurdod

O 1 Ebrill 2024, bydd y DRI a godir mewn perthynas ag asedau hawl i'w defnyddio ar brydles i'r Cyngor neu MCP (Menter Cyllid Preifat) yn gyfartal i brif elfen yr ad-daliad blynyddol.

Cyfarwyddyd Cyfalafu

Bydd yr Awdurdod yn defnyddio'r dull oes ased ar gyfer unrhyw wariant a gyfalafir o dan y Cyfarwyddyd Cyfalafu.

Benthyciadau i Drydydd Parti

Digwyddiad eithriadol o brin lle bydd y Cyngor ddarparu benthyciad i drydydd parti. Ar gyfer gwariant cyfalaf ar fenthyciadau i drydydd parti lle mae prifswm y benthyciad yn cael ei ad-dalu mewn rhandaliadau blynyddol. Defnyddir y derbyniadau cyfalaf sy'n deillio o ad-dalu prifswm y benthyciad i leihau'r GCC yn lle DRI. Lle na wneir unrhyw ad-daliad o'r prifswm mewn blwyddyn benodol, codir DRI ar gyfradd yn unol ag oes yr asedau a gyllidir gan y benthyciad.

Buddsoddiadau Penodol ac Amhenodol

Mae 'Canllawiau ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol' Llywodraeth Cymru (y Canllawiau) (a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2010) yn rhoi diffiniad o fuddsoddiadau penodol ac amhenodol.

Mae paragraff 5.1 y Canllawiau yn dweud bod buddsoddiad yn un penodol os yw'n cwrdd â phob un o'r isod:-

- (a) bod y buddsoddiad yn cael ei wneud mewn sterling ac mae unrhyw daliadau neu ad-daliadau mewn perthynas â'r buddsoddiad yn daladwy mewn sterling yn unig; a
- (b) nid yw'r buddsoddiad yn un tymor hir (*); a
- (c) nid yw gwneud y buddsoddiad yn cael ei ddiffinio'n wariant cyfalaf yn rhinwedd rheoliad 20(1)(d) o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 [OS 3239 fel y'i diwygiwyd]; a
- ch) gwneir y buddsoddiad gyda chorff neu mewn cynllun buddsoddi o ansawdd credyd uchel (**); neu gydag un o'r cyrff sector cyhoeddus canlynol:-
 - (i) Llywodraeth y Deyrnas Unedig;
 - (ii) awdurdod lleol yng Nghymru neu Loegr (fel y diffinnir yn Adran 23 o Ddeddf 2003) neu gorff tebyg yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon;
 - (iii) cyngor plwyf neu gymuned.

Mae'r Canllawiau hefyd yn dweud bod unrhyw fuddsoddiad nad yw'n cwrdd â'r diffiniad ym mharagraff 5.1 yn cael ei gyfrif fel buddsoddiad amhenodol.

Yn ystod 2025/26, nid yw'r Cyngor yn bwriadu buddsoddi mewn arian gwledydd tramor, na gyda chyrrff ansawdd credyd isel, nac unrhyw fuddsoddiadau a ddiffinnir fel gwariant cyfalaf gan y ddeddfwriaeth (megis cyfranddaliadau mewn cwmnïau). Bydd buddsoddiadau amhenodol felly yn cael eu cyfyngu i (i) buddsoddiadau tymor hir; a (ii) adneuo'n gyda banciwr y Cyngor i ddibenion gwneud trafodion os yw'n methu a chwrdd â'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y credyd; yn yr achos hwn, caiff balansau eu cyfyngu i'r eithaf lle mae hynny'n bosib.

Mae'r tabl yn Atodiad 7 yn nodi'r meini prawf a'r cyfyngiadau buddsoddi ar gyfer y gwahanol gategoriâu o fuddsoddiadau y bwriedir eu defnyddio yn ystod 2025/26 ac sydd, felly, yn sail ar gyfer y rhestr fenthycy a gymeradwyir.

Bydd raid i'r Cyngor Sir gymeradwyo ymlaen llaw unrhyw ddiwygiadau neu welliannau arfaethedig yn ystod y flwyddyn i gategoriâu o fuddsoddiadau penodol ac amhenodol a ddefnyddir ac / neu i'r meini prawf graddfeydd credyd / cyfyngiadau buddsoddi.

* Mae Adran 2.4 y Canllawiau'n diffinio buddsoddiad tymor hir fel "Unrhyw fuddsoddiad heblaw (a) un y mae disgwyl iddo gael ei ad[1]dalu cyn pen 12 mis i'r dyddiad y gwnaed y buddsoddiad neu (b) un y gallai'r awdurdod lleol fynnu ei fod yn cael ei ad-dalu o fewn y cyfnod hwnnw."

** I ddibenion ansawdd credyd uchel dywed y Canllawiau "At ddibenion paragraff 5.1 (d), mae gweinidogion Cymru yn argymhell y dylai'r Strategaeth ddiffinio ansawdd credyd uchel (a lle mae'r diffiniad hwn yn cyfeirio at statws credyd, mae paragraff 6.1 (***) yn berthnasol)."

*** Mae paragraff 6.1 y Canllawiau'n argymhell "Dylai'r Strategaeth nodi dull yr awdurdod o asesu'r risg o golli buddsoddiadau, gan egluro'n benodol : (a) i ba raddau, os o gwbl, mae asesiad risg yn seiliedig ar statws credyd a gyhoeddwyd gan un neu fwy o asiantaethau statws credyd; (b) pan ddefnyddir statws credyd, pa mor aml y mae statws credyd yn cael ei fonitro a pha gamau sydd i'w cymryd pan fydd graddfeydd yn newid; a (c) pa ffynonellau gwybodaeth eraill ar risg credyd a ddefnyddir, yn ychwanegol at neu yn lle statws credyd."

Meini Prawf Gwrthbartion - Buddsoddiadau

Categori	Graddfa Credyd Tymor Byr (Fitch)	Graddfa Credyd Tymor Byr (Moody's)	Graddfa Credyd Tymor Byr (Standard & Poor's)	Graddfa Credyd Tymor Hir (Fitch)	Graddfa Credyd Tymor Hir (Moody's)	Graddfa Credyd Tymor Hir (Standard & Poor's)	Terfyn Arian	Terfyn Amser
Banciau a Chymdeithasau Adeiladu (heb eu gwladoli neu wedi'u gwladoli'n rhannol)	F1+	P-1	A-1+	AAA	AAA	AAA	£10m	5 mlynedd
	F1+	P-1	A-1+	AA	AA2	AA	£10m	3 blynedd
	F1+	P-1	A-1+	AA	AA3	AA	£10m	364 diwrnod
	F1+	P-1	A-1+	A	A2	A	£7.5m	6 mis
Banciau'r DU sydd wedi eu Gwladoli / eu Gwladoli'n Rhannol	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	£10m	364 diwrnod
Cyfrif busnes a rheolwr arian banc NatWest - pan gedwir symiau yn NatWest fel rhan o drefniadau bancio gweithredol. Bydd y symiau a'r terfynau dilynol yn berthnasol er mwyn sicrhau fod digon o arian ar gael i dalu biliau pan fyddant yn ddyledus.	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	£20m i £25m	5 diwrnod gwaith
	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	£15m i £20m	2 fis
	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	£10m i £15m	364 diwrnod
	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	Hyd at £10m	Dim terfyn
Llywodraeth Ganolog y DU (beth bynnag yw'r raddfa credyd)	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	Dim Uchafswm	Dim terfyn
Awdurdodau Lleol y DU*	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	£10m	364 diwrnod
Cronfeydd Marchnad Arian	d/b	d/b	d/b	AAA	AAA	AAA	£5m	6 mis

*fel y diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol 2003

Nodiadau ac Eglurhad**(1) Terfyn Arian**

- (i) Mae'r terfynau arian yn berthnasol i'r gwrthbarti unigol ac i'r grŵp cyffredinol y mae'n perthyn iddo (e.e. ar gyfer y banciau o fewn Grŵp Bancio Lloyds plc (sef Bank of Scotland plc a Lloyds Bank plc), mae'r terfyn buddsoddi yn berthnasol i'r banciau hynny'n unigol a'r grŵp bancio yn ei gyfanrwydd);
- (ii) Y terfyn arian cyffredinol ar gyfer adneuo'n dros 364 diwrnod yw £15m.

(2) Terfyn Amser

- (i) I fyny at, a chan gynnwys, y cyfnod a nodwyd.

(3) Gwledydd Tramor

- (i) Bydd buddsoddiadau mewn gwledydd tramor wedi eu cyfyngu i'r rheini a chanddynt raddfa credyd sofran AA- (Fitch) neu gyfatebol (o'r asiantaethau y cyfeiriwyd atynt yn adran 4.3 o'r strategaeth hon) (yn seiliedig ar yr enwadur lleiaf), a hyd at uchafswm o £10m fesul gwlad dramor.
- (ii) Ni chaniateir buddsoddi mewn gwledydd nad yw'r raddfa sofran isaf yn AA- neu'n uwch. Ni fydd cyfyngiad gwlad yn berthnasol i fuddsoddiadau yn y DU, waeth beth fo'r raddfa credyd sofran.
- (iii) Bydd is-gwmnïau o grwpiau banciau tramor fel arfer yn cael eu hasesu yn unol â mamwlad y rhiant-sefydliad. Fodd bynnag, bydd Santander UK plc (is-gwmni Banco Santander yn Sbaen) yn cael ei gyfrif fel banc yn y DU oherwydd ei fasnachfreintiau sylweddol yn y DU a natur hyd braich y berthynas rhwng y rhiant gwmni a'r is-gwmni.

(4) Graddfa Credyd yn Gostwng

Os bydd graddfa credyd yn gostwng ac yn golygu bod y gwrthbarti yn is na'r meini prawf y mae'n rhaid cwrdd â nhw ar gyfer buddsoddi, rhoddir y gorau i ddefnyddio'r gwrthbarti cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Os bydd y Swyddog Adran 151 yn dymuno parhau i fuddsoddi gyda'r gwrthbarti hwnnw, gofynnir am ganiatâd gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac un aelod arall o ddewis y Cadeirydd, a bydd raid i'r ddau ohonynt gymeradwyo. Adroddir ar hynny fel sy'n briodol cyn gynted ag y gellir.

Gwledydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer buddsoddi [gwybodaeth yn gywir ar 25 Tachwedd 2025]

Mae'r rhestr hon yn seiliedig ar y gwledydd hynny sydd â graddfa sofran o AA- neu uwch (rydym yn dangos y raddfa isaf gan Fitch, Moody's a S&P) a hefyd (ac eithrio - ar adeg ysgrifennu - ar gyfer Hong Kong a Lwcsembwrg) a chanddynt fanciau sy'n gweithredu mewn marchnadoedd sterling sydd â statws credyd gwyrdd neu uwch yng ngwasanaeth teilyngdod credyd MUFG Corporate Markets.

Yn seiliedig ar y raddfa isaf sydd ar gael

AAA

- Awstralia
- Denmarc
- Yr Almaen
- Yr Iseldiroedd
- Norwy
- Singapore
- Sweden
- Y Swistir

AA-

- **Y Deyrnas Unedig**

Cynllun dirprwyo ar gyfer materion Rheoli'r Trysorlys**(i) Y Cyngor Sir**

- cymeradwyo'r gyllideb;
- cymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys blynyddol, Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol a'r Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI), Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys blynyddol a newidiadau iddynt;
- cymeradwyo newidiadau i'r cymalau a fabwysiadwyd gan y Cyngor;
- derbyn ac adolygu adroddiadau monitro ar bolisiâu, arferion a gweithgareddau rheoli'r trysorlys; a
- gweithredu ar argymhellion a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a / neu'r Pwyllgor Gwaith.

(ii) Y Pwyllgor Gwaith

- ystyried y gyllideb;
- cymeradwyo rhannu cyfrifoldebau;
- cymeradwyo dewis o ddarparwyr gwasanaeth allanol a chytuno ar delerau penodi;
- derbyn ac adolygu adroddiadau monitro ar bolisiâu, arferion a gweithgareddau rheoli'r trysorlys a gwneud argymhellion i'r Cyngor Sir fel sy'n briodol; a
- gweithredu ar argymhellion a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

(iii) Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

- Craffu ar faterion Rheoli'r Trysorlys, fel sy'n ofynnol o dan y Côd Ymarfer gan CIPFA ar Reoli'r Trysorlys a Pholisi Rheoli'r Trysorlys y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys:
 - craffu ar y Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys flynyddol, y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) Blynyddol, y Polisi Rheoli'r Trysorlys Blynyddol ac Arferion Rheoli'r Trysorlys a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel y bo'n briodol;
 - craffu ar y Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys flynyddol, y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) Blynyddol, y Polisi Rheoli'r Trysorlys Blynyddol ac Arferion Rheoli'r Trysorlys ac i'r cymalau a fabwysiadwyd a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel y bo'n briodol;
 - derbyn a chraffu ar unrhyw gynigion arall sy'n ymwneud â rheoli'r trysorlys ac sydd angen penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith neu'r Cyngor Sir; a
 - derbyn a chraffu ar yr adroddiad Rheoli'r Trysorlys canol blwyddyn a'r adroddiad Alldro Trysorlys, adroddiadau monitro ar bolisiâu, arferion a gweithgareddau rheoli'r trysorlys a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel y bo'n briodol.

Rôl Rheoli'r Trysorlys y Swyddog Adran 151**Mae rôl y Swyddog Adran 151 (y Swyddog Cyfrifol) yn cynnwys:-**

- argymell cymalau, polisi / arferion rheoli'r trysorlys i'w cymeradwyo, gan eu hadolygu'n rheolaidd, a monitro cydymffurfiaeth;
- cyflwyno adroddiadau polisi rheoli'r trysorlys rheolaidd;
- cyflwyno cyllidebau ac amrywiadau i'r gyllideb;
- derbyn ac adolygu adroddiadau gwybodaeth rheoli;
- adolygu perfformiad y swyddogaeth rheoli'r trysorlys;
- sicrhau digonolrwydd adnoddau a sgiliau rheoli'r trysorlys, a rhannu cyfrifoldebau'n effeithiol o fewn y swyddogaeth rheoli'r trysorlys;
- sicrhau digonolrwydd y gwaith archwilio mewnol, ac ymwneud ag archwilwyr allanol;
- argymell penodi darparwyr gwasanaeth allanol;

- mae cyfrifoldeb am weithredu a gweinyddu'r penderfyniadau trysorlys, yn cynnwys y penderfyniadau ar fenthycu, buddsoddi a chyllido, wedi eu dirprwyo i'r Swyddog Adran 151, a fydd yn gweithredu yn unol â datganiadau polisi'r Cyngor ac Arferion Rheoli'r Trysorlys (ARhT);
- paratoi strategaeth gyfalaf i gynnwys gwariant cyfalaf, cyllido cyfalaf, buddsoddiadau anariannol a rheoli'r trysorlys o fewn amserlen tymor hir;
- sicrhau bod y strategaeth gyfalaf yn ddarvoudus, yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy yn y tymor hir a'i bod yn darparu gwerth am arian;
- sicrhau diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â'r holl fuddsoddiadau trysorlys ac anariannol a'u bod yn unol ag archwaeth risg yr Awdurdod;
- sicrhau bod gan yr Awdurdod y pwerau cyfreithiol priodol i wario ar asedau anariannol a'u cyllido;
- sicrhau cymesuredd yr holl fuddsoddiadau fel nad yw'r Awdurdod yn buddsoddi ar lefel sy'n golygu bod yr Awdurdod yn agored i lefel ormodol o risg o gymharu â'i adnoddau ariannol;
- sicrhau bod proses lywodraethu ddigonol yn ei lle ar gyfer cymeradwyo, monitro a rheoli'r risg sy'n gysylltiedig ag unrhyw fuddsoddiadau anariannol a rhwymedigaethau tymor hir;
- rhoi i Aelodau restr o'r holl fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys, gan gynnwys buddsoddiadau sylweddol mewn is-gwmnïau, mentrau ar y cyd, benthyciadau a gwarantau ariannol;
- sicrhau bod Aelodau'n cael gwybodaeth ddigonol a'u bod yn deall y risgiau y mae'r Awdurdod yn agored iddynt;
- sicrhau bod gan yr Awdurdod yr arbenigedd digonol, naill ai'n fewnol neu'n allanol, i wneud yr uchod;
- creu Arferion Rheoli'r Trysorlys (ARhT) sy'n delio'n benodol â'r modd y bydd buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys yn cael eu trin a'u rheoli, gan gynnwys yr isod:-
 - Rheoli risg (ARhT1 a'r atodlenni), gan gynnwys meini prawf buddsoddi a rheoli risg ar gyfer unrhyw bortffolios buddsoddi sylweddol nad ydynt yn ymwneud â'r trysorlys;
 - Mesur a rheoli perfformiad (ARhT2 a'r atodlenni), gan gynnwys methodoleg a meini prawf ar gyfer asesu perfformiad a llwyddiant buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys;
 - Gwneud penderfyniadau, llywodraethu a threfniadaeth (ARhT5 a'r atodlenni), gan gynnwys datganiad ar ofynion llywodraethu ar gyfer gwneud penderfyniadau ar fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys; a threfniadau i sicrhau diwydrwydd dyladwy er mwyn cefnogi'r broses gwneud penderfyniadau;
 - Gwybodaeth reoli ac adrodd (ARhT6 a'r atodlenni), gan gynnwys ble a pha mor aml y cynhyrchir adroddiadau monitro;
 - Hyfforddiant a chymwysterau (ARhT10 a'r atodlenni), gan gynnwys y modd y bydd gwybodaeth a sgiliau perthnasol mewn perthynas â buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys yn cael eu trefnu.

DANGOSYDDION DARBODUS AR GYFER 2026/27 - 2030/31

		2025/26	2026/27	2027/28	2028/29	2029/30	2030/31
Fforddiadwyedd - Yn seiliedig ar y Senario Uchelgeisiol		Amcangyfrif	Amcangyfrif	Amcangyfrif	Amcangyfrif	Amcangyfrif	Amcangyfrif
	Cronfa'r Cyngor	1.52%	3.17%	3.25%	3.37%	3.56%	3.86%
	Cyfrif Refeniw Tai (yn cynnwys y setliad)	12.61%	9.88%	14.17%	17.68%	19.70%	21.28%
	Cyfanswm	2.70%	3.86%	4.41%	4.96%	5.37%	5.87%
Ymddwyn yn Ddarbodus							
3	Dyled gros a'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC)						
	<i>Ydy dyled allanol gros yn llai na'r GCC am y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon unrhyw GCC ychwanegol am y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flynedd ddilynol?</i>	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Gwariant Cyfalaf - yn seiliedig ar y Senario Uchelgeisiol							
4,5	Amcangyfrif o wariant cyfalaf [neu wariant gwirioneddol]	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
	Cronfa'r Cyngor	35,268	27,341	18,551	52,216	55,302	41,631
	Cyfrif Refeniw Tai	22,056	45,950	35,819	27,569	26,893	23,294
	Cyfanswm	57,324	73,291	54,370	79,785	82,195	64,925
6,7	Amcangyfrif o'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf [neu'r Gofyniad Gwirioneddol]	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
	Cronfa'r Cyngor	119,486	125,567	130,114	134,741	142,620	155,016
	Cyfrif Refeniw Tai	36,895	35,744	52,784	72,145	82,313	93,340
	Cyfanswm	156,381	161,311	182,898	206,886	224,934	248,356
8	Terfyn Awdurdodedig	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
	Benthyca Cyffredinol	141,710	144,235	167,173	192,070	214,268	240,019
	Rhwymedigaethau tymor hir eraill	5,000	5,000	5,000	5,000	5,000	5,000
	Cyfanswm	146,710	149,235	172,173	197,070	219,268	245,019
9	Terfyn Gweithredol	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
	Benthyca Cyffredinol	131,710	134,235	157,173	182,070	204,268	230,019
	Rhwymedigaethau tymor hir eraill	5,000	5,000	5,000	5,000	5,000	5,000
	Cyfanswm	136,710	139,235	162,173	187,070	209,268	235,019

		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
10	Dyled Allanol Gwirioneddol	131,710	124,235	147,173	172,119	194,367	220,168
Rheoli'r Trysorlys		2025/26 Amcangyfrif	2026/27 Amcangyfrif	2027/28 Amcangyfrif	2028/29 Amcangyfrif	2029/30 Amcangyfrif	2030/31 Amcangyfrif
11	Y terfyn ar gyfer cyfanswm y prifsymiau a fuddsoddir am gyfnodau o fwy na 364 diwrnod	15,000	15,000	15,000	15,000	15,000	15,000
12	Y terfynau uchaf ar gyfer strwythur aeddfedrwydd benthyciadau ar gyfraddau sefydlog						
	o dan 12 mis	<20%					
	12 mis ac o fewn 24 mis	<20%					
	24 mis ac o fewn 5 mlynedd	<20%					
	5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	<30%					
Tudalen 62	10 mlynedd a mwy	Dim terfyn uchaf					

Gwybodaeth am Ddangosyddion Darbodus a Rheoli'r Trysorlys

DANGOSYDDION DARBODUS

A) Fforddiadwyedd

1 a 2 Cymhareb costau cyllido yn erbyn y ffrwd refeniw net

Mae'r dangosydd hwn yn nodi'r tueddiad o ran cost cyfalaf (costau benthyca a chostau rhwymedigaethau tymor hir eraill net o'r incwm buddsoddi) yn erbyn y ffrwd refeniw net.

Mae'r amcangyfrifon ynghylch costau cyllido yn cynnwys ymrwymadau cyfredol a'r cynigion yn yr adroddiad hwn ar y gyllideb.

B) Ymddwyn yn Ddarbodus

3 Dyled Gros a'r GCC

Mae angen i'r Cyngor sicrhau nad yw'r ddyled gros, heblaw yn y tymor byr, yn mynd yn uwch na'r GCC yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r amcangyfrifon am unrhyw GCC ychwanegol ar gyfer 2025/26 a'r ddwy flynedd ariannol ddilynol. Mae hyn yn rhoi peth hyblygrwydd ar gyfer benthyca cynnar cyfyngedig ar gyfer blynyddoedd i ddod, ond yn sicrhau na fyddir yn benthyca at ddibenion refeniw.

C) Gwariant Cyfalaf

Cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor yw'r gyrwyr allweddol o ran gweithgareddau rheoli'r trysorlys. Adlewyrchir allbwn y cynlluniau gwariant cyfalaf yn y dangosyddion darbodus, sydd wedi'u dylunio i gynorthwyo Aelodau i gael trosolwg o'r sefyllfa gyfalaf a chadarnhau cynlluniau gwariant cyfalaf.

Mae'n darparu crynodeb o wariant cyfalaf y Cyngor. Mae'n adlewyrchu materion y cytunwyd arnynt eisoes a chynlluniau arfaethedig ar gyfer cyfnodau ariannol yn y dyfodol, fel y cânt eu nodi yn y Senario Uchelgeisiol o'r Strategaeth Cyfalaf.

Bydd lefel cyllido gwariant o'r fath yn dylanwadu ar y newid yn y dangosydd ar gyfer Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor.

4 a 5 Amcangyfrif o Wariant Cyfalaf

Dyma'r rhagolwg o'r Gwariant Cyfalaf rhwng 2026/27 a 2030/31, ac mae'n seiliedig ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2026/27 a'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer y blynyddoedd dilynol.

6 a 7 Angen y Cyngor i fenthyca (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf)

Dangosydd darbodus arall yw Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor (GCC). Yn syml, y GCC yw cyfanswm y gwariant cyfalaf hanesyddol gweddilliol nad ydyw hyd yma wedi cael ei dalu amdano o adnoddau refeniw neu gyfalaf. Yn ei hanfod, mesur o angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca yw'r GCC. Bydd unrhyw wariant cyfalaf nad ydyw wedi talu amdano ar unwaith o ffynhonnell refeniw neu gyfalaf, yn cynyddu lefel y GCC.

Nid yw'r GCC yn cynyddu i lefel amhenodol, oherwydd mae'r Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI) yn dâl refeniw blynyddol statudol sydd, yn gyffredinol, yn gostwng yr angen benthyca yn unol ag oes pob ased ac, felly, mae'n dâl ar y defnydd economaidd o asedau cyfalaf wrth iddynt gael eu defnyddio.

Mae'r GCC yn cynnwys unrhyw ymrwymïadau tymor hir eraill (e.e. cynlluniau PFI, pryddesau ariannol). Er bod y rhain yn cynyddu'r GCC ac, felly, yn cynyddu angen y Cyngor i fenthycu, mae'r mathau hyn o gynlluniau'n cynnwys cyfleuster benthycu ac felly, nid oes raid i'r Cyngor fenthycu ar wahân ar gyfer y cynlluniau hyn. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cyngor unrhyw arian mewn cynlluniau o'r fath yn y GCC.

CH) Dyledion Allanol

8. **Y terfyn a awdurdodir ar gyfer dyledion allanol.** Mae dangosydd darbodus allweddol arall yn rheoli'r uchafswm benthycu. Gwaherddir dyledion allanol y tu hwnt i'r terfyn hwn ac mae angen i'r Cyngor llawn osod neu ddiwygio'r terfyn. Mae'n adlewyrchu'r lefel o ddyled allanol y gellid, er nad yw hynny'n ddymunol, ei fforddio yn y tymor byr ond nad yw'n gynaliadwy yn y tymor hwy. Dyma'r terfyn statudol y penderfynir arno o dan Adran 3(1) Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r Llywodraeth yn cadw'r opsiwn i reoli naill ai'r cyfan o gynlluniau'r holl gynghorau, neu gynlluniau cyngor penodol, er nad ydyw hyd yma wedi defnyddio'r pŵer hwnnw.

Dywed y Swyddog Adran 151 bod y Cyngor wedi cydymffurfio gyda'r dangosydd darbodus hwn yn y flwyddyn gyfredol ac nid yw'n rhagweld anawsterau yn y dyfodol. Mae'r farn hon yn cymryd i ystyriaeth yr ymrwymïadau cyfredol, y cynlluniau presennol a'r cynigion sydd yn yr adroddiad hwn ar y gyllideb.

9. **Y terfyn gweithredol.** Terfyn yw hwn na fyddir fel arfer yn disgwyl i ddyled allanol fynd yn uwch nag o. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'n ffigwr tebyg i'r GCC, ond gall fod yn is neu'n uwch gan ddibynnu ar lefelau'r ddyled wirioneddol a'r gallu i gyllido tan-fenthycu trwy ddefnyddio adnoddau arian parod eraill.
10. **Gwir ddyledion allanol.** Mae'n rhaid i'r Cyngor ddatgelu'r balans cau ar gyfer gwir fenthycu gros mewn perthynas â'r cyfnod ariannol sydd newydd ddod i ben, ynghyd â lefel ymrwymïadau tymor hir eraill ac, felly, gwir lefel dyledion allanol yn eu crynswth ar ddyddiad y Fantolen.

DANGOSYDDION TRYSORLYS

11. **Terfynau ar gyfer Buddsoddiadau Rheoli'r Trysorlys Tymor Hir.** Mae'r Dangosydd hwn yn ceisio cynorthwyo rheoli risg hylifedd. Dylid gosod y terfynau gyda golwg ar anghenion hylifedd y Cyngor a hefyd lleihau'r angen posib i orfod gadael y buddsoddiad yn gynnar er mwyn adennill cyllid. Mae'r dangosydd yn ymwneud â buddsoddiadau'r Cyngor i ddibenion rheoli'r trysorlys yn unig.
12. **Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor osod terfynau gros ar aeddfedrwydd ar gyfer y cyfnodau a ddangosir ac mae'n ymwneud â benthyciadau ar gyfraddau sefydlog a chyfraddau sy'n amrywio. Y rheswm yw ceisio rheoli'r posibilrwydd y bydd y Cyngor yn wynebu symiau mawr sydd angen eu hailgyllido.

Rhestr Termau**GWARIANT CYFALAF**

Gwariant ar brynu ased nad yw'n gyfredol, a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau tu hwnt i'r flwyddyn ariannol gyfredol, neu wariant sy'n ychwanegu at werth ased presennol nad yw'n gyfredol, yn hytrach na dim ond cynnal gwerth yr ased. Mae enghreifftiau'n cynnwys: adeiladu ysgol newydd, prynu offer TG, gwaith adnewyddu sylweddol ar gartref gofal.

CYLLIDO CYFALAF

Cyllid sydd ar gael i dalu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd o gyllido gwariant cyfalaf, gan gynnwys benthycu, prydlesu, cyllido refeniw uniongyrchol, derbyniadau cyfalaf y mae modd eu defnyddio, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, cronfeydd wrth gefn refeniw a chronfeydd wrth gefn clustnodedig.

GOFYNIAD CYLLIDO CYFALAF (GCC)

Y cyfanswm gwariant cyfalaf hanesyddol sydd heb ei dalu'n barod naill ai o adnoddau refeniw neu gyfalaf. Yn ei hanfod, mae'n adlewyrchiad o angen sylfaenol y Cyngor i fenthycu.

RHAGLEN GFYFALAF

Y cynlluniau cyfalaf y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gweithredu dros gyfnod penodol o amser.

DERBYNIADAU CYFALAF

Derbyniadau cyfalaf yw'r elw o waredu tir neu asedau eraill nad ydynt yn asedau cyfredol. Gellir defnyddio cyfran o'r derbyniadau cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf newydd, o fewn y rheolau a osodir gan y Llywodraeth, ond ni ellir eu defnyddio i gyllido gwariant refeniw.

CIPFA

Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Y prif gorff proffesiynol a rheoleiddiol ar gyfer cyfrifon llywodraeth leol.

CYFRIF REFENIW TAI (CRT)

Cyfrif ar wahân i Gronfa'r Cyngor yw'r CRT ac mae'n cynnwys yr incwm a gwariant sy'n gysylltiedig â darpariaeth tai'r Cyngor.

LLOG A DDERBYNNIR NEU A DELIR

Defnyddir y dull cyfradd llog gwirioneddol i fesur beth yw gwerth ased ariannol neu rwymedigaeth a fesurir yn ôl y gost llai amorteiddiad cronedig, ac i neilltuo incwm neu dreuliau cysylltiedig i'r cyfnod perthnasol. Y gyfradd llog wirioneddol yw honno sy'n rhoddi disgownt cysâct ar y taliadau arian parod neu'r derbyniadau yr amcangyfrifir y'u derbynnir yn y dyfodol dros oes ddisgwyliedig yr offeryn ariannol yn ôl y swm a gafodd ei gydnabod iddo yn y lle cyntaf. Mae'r gyfradd llog wirioneddol yn cael ei haddasu yn ôl y tâl llog neu'r derbyniadau gwirioneddol trwy'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn i sicrhau mai dim ond llog gwirioneddol a godir yn erbyn y Dreth Gyngor. Yn achos asedau a rhwymedigaethau ariannol sy'n cael eu cario yn ôl y gost, gan fod y llog gwirioneddol yr un faint â'r llog cario, mae'r gwerth cario'n cael ei ddiwygio ar gyfer llog cronus.

DARPARIAETH REFENIW ISAF (DRI)

Yr isafswm sydd raid ei godi ar y cyfrif refeniw bob blwyddyn er mwyn darparu ar gyfer ad-dalu benthyciadau a symiau eraill a fenthycir gan y Cyngor.

DYLED NET

Benthyciadau'r Cyngor llai arian parod ac adnoddau hylifol.

BWRDD BENTHYCIADAU GWAITH CYHOEDDUS (BBGC)

Asiantaeth Llywodraeth Ganolog sy'n rhoi benthyciadau am flwyddyn a / neu fwy i awdurdodau ar raddfeydd llog sydd ond ychydig yn uwch na'r rheini y gall y Llywodraeth fenthycu arnynt ei hun.

GWARIANT REFENIW A GYLLIDIR GAN GYFALAF O DAN STATUD (REFCUS)

Gwariant y gellir ei ohirio'n briodol (h.y. ei drin fel cyfalaf o ran ei natur) ond nad yw'n arwain at ased diriaethol, na'n parhau i fod yn gysylltiedig â hi. Mae enghreifftiau o daliadau gohiriedig yn cynnwys grantiau o natur gyfalaf i sefydliadau gwirfoddol.

GRANT CYNNAL REFENIW

Grant a delir gan Lywodraeth Ganolog i awdurdodau, ac sy'n cyfrannu tuag at gost gyffredinol eu gwasanaethau.

BENTHYCA Â CHEFNOGAETH

Mae'r Cyngor yn benthycu arian i gyllido rhan o'i raglen gyfalaf. Cydnabyddir y benthyciad gan Lywodraeth Ganolog wrth gyfrifo ei fformiwla gyllido ar gyfer y Cyngor.

BENTHYCA DROS DRO

Arian a fenthycir am gyfnod o lai na blwyddyn.

BENTHYCA DIGEFNOGAETH

Gall y Cyngor fenthycu arian ychwanegol i'r benthycu a gefnogir gan y Llywodraeth, a hynny er mwyn cyllido ei wariant cyfalaf cyn belled â'i fod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy. Fe lywodraethir y pŵer hwn gan Gôd Darbodus CIPFA, sef Côt y mae'r Cyngor yn llwyr gydymffurfio ag ef.

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad:	3 Chwefror 2026
Pwnc:	Diweddariad Archwilio Mewnol
Pennaeth Gwasanaeth:	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.llyw.cymru
Awdur yr Adroddiad:	Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru
Natur a Rheswm dros Adrodd: Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gosod dyletswydd benodol ar y pwyllgor i oruchwyllo trefniadau archwilio mewnol y cyngor fel rhan o'i ddyletswyddau deddfwriaethol, dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. (3.4.8.10.1) Mae gofyn i'r pwyllgor ystyried y diweddariadau ar waith archwilio mewnol yn cynnwys canfyddiadau allweddol, materion sy'n achosi pryder, ymatebion rheolwyr a'r camau sydd wedi eu cymryd o ganlyniad i waith archwilio mewnol. Gofynnir i'r pwyllgor ystyried crynodebau o adroddiadau archwilio mewnol penodol fel y gofynnwyd, gan gynnwys effeithlonrwydd rheoliadau mewnol a bydd yn monitro gweithrediad camau a gytunwyd arnynt. (3.4.8.10.10) Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni gofynion y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (sector cyhoeddus y DU) newydd, sy'n cael eu mandadu o 1 Ebrill 2025 ac maent yn cynnwys Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) yr IIA a'r Nodyn Gweithredu: Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang sector cyhoeddus y DU a Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y DU. Mae hefyd yn cyd-fynd â'r arferion sy'n cael e hargymell ar gyfer goruchwyllo archwilio mewnol, fel y nodir yn Natganiad Sefyllfa CIPFA: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu 2022.	

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae Safon 11.3 y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) yn gofyn i'r prif swyddog archwilio rannu canlyniadau gwasanaethau archwilio mewnol gyda'r bwrdd ac uwch reolwyr yn rheolaidd ac ar gyfer pob gweithgaredd. Yn ychwanegol at hyn, mae Safon 15.1 yn gofyn i'r prif swyddog archwilio rannu'r cyfathrebiad olaf gyda'r rheiny a all sicrhau bod y canlyniadau'r cael eu hystyried yn briodol.
- 1.2 Mae'r adroddiad hwn yn diweddarau'r pwyllgor, fel y mae'r sefyllfa ar 21 Ionawr 2026, ar yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf ar 21 Tachwedd 2025, llwyth gwaith presennol archwilio mewnol a'n blaenoriaethau ar gyfer y tymor byr a chanolig wrth symud ymlaen.

2. Argymhelliad

- 2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried:
 - canlyniad gweithgareddau Archwilio Mewnol,
 - y sicrwydd a ddarparwyd a'n
 - blaenoriaethau wrth symud ymlaen.

Archwilio Mewnol Diweddariad

Chwefror 2026



Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS

Pennaeth Archwilio a Risg



Cynnwys

- Crynodeb o Waith Sicrwydd a Gwblhawyd ers y Diweddariad Diwethaf ____ 1
- Lefelau Sicrwydd _____ 1
 - Diffiniadau o'r Lefelau Sicrwydd _____ 1
 - Rheolaeth ffisegol ac amgylcheddol o ganolfannau data _____ 2
- Gwaith ar y Gweill _____ 2
- Camau Gweithredu sy'n Weddill _____ 3
- Blaenoriaethau _____ 3
 - Blaenoriaethau Tymor Byr/Canolig _____ 3
 - Blaenoriaethau yn y Tymor Hwyr _____ 3

Crynodeb o Waith Sicrwydd a Gwblhawyd ers y Diweddariad Diwethaf

- Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o adroddiadau sicrwydd a gwblhawyd ers y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2025, gan gynnwys y radd sicrwydd gyffredinol a nifer y materion/risgiau/cyfleoedd a godwyd.
- Rydym wedi cwblhau **un** darn o waith sicrwydd yn ystod y cyfnod, darperir crynodeb isod a rhagor o fanylion yn nes ymlaen yn yr adroddiad:

Teitl	Lefel Sicrwydd	Critigol	Sylweddol	Cymedrol
Diogelwch ffisegol a rheolaeth amgylcheddol o ganolfannau data	Rhesymol	0	0	1

Lefelau Sicrwydd

3. Ar hyn o bryd mae timau archwilio mewnol yn y sector cyhoeddus fel arfer yn darparu crynodeb o'u barn a lefel sicrwydd mewn adroddiadau archwilio mewnol. Fodd bynnag, nid oes diffiniad safonol na therminoleg, ac felly mae pob pennaeth archwilio mewnol yn gyfrifol am ddewis dull addas.
4. Gan fod sefydliadau yn y sector cyhoeddus bellach yn cydweithio'n amlach â chyrrff cyhoeddus eraill, uwch reolwyr ac aelodau pwyllgorau cynllunio o bob cwr o'r sector cyhoeddus rydym yn aml iawn yn derbyn adroddiadau gan fwy nag un archwilydd mewnol. Roedd yr archwilydd yn cael eu herio ynglŷn â chysondeb gan fod pawb yn defnyddio gwahanol derminoleg.
5. Oherwydd hyn penderfynodd Grŵp Diddordebau Arbennig Archwilio Mewnol CIPFA adolygu'r arferion presennol ac ystyried dull cyffredin. Cyhoeddodd y grŵp nodyn briffio yn 2020, a oedd yn argymhell safoni termau a chynnig cyfres o farnau a diffiniadau i'w defnyddio gan dimau archwilio mewnol.
6. Mae lefelau sicrwydd y cyngor yn debyg i'r lefelau a gynigwyd gan y grŵp ac mae'r diffiniadau sicrwydd yn debyg i'r diffiniadau a gynigwyd gan y grŵp i rannau helaeth.
7. Cytunodd aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilion ar y diffiniadau yn ei gyfarfod ym mis [Ebrill 2019](#), a gwnaed mân ddiwygiadau iddynt wedi i CIPFA gyhoeddi'r nodyn briffio ym mis [Gorffennaf 2020](#).
8. Er mwyn cynorthwyo aelodau newydd y pwyllgor, mae'r lefelau sicrwydd wedi'u nodi ar y dde. Efallai y byddant yn helpu'r aelodau i ddeall y lefelau sicrwydd a bennir yn dilyn pob archwiliad a'r sicrwydd y mae'r lefelau hynny'n eu cynnig.
9. Fel y trafodwyd mewn cyfarfod diweddar, nid oes fformiwla ar gyfer pennu lefel sicrwydd ac nid oes cyswllt uniongyrchol rhwng y lefelau a nifer y materion, risgiau neu gyfleoedd a godir.
10. Wrth benderfynu ar y farn fwyaf addas, mae'r archwilydd yn defnyddio ei farn broffesiynol ei hun ac yn ystyried lefel y risg yn gyffredinol, yn cynnwys yr effaith ar y sefydliad cyfan. Y prif ffactor wrth ddod i benderfyniad yw'r ymateb i'r prif gwestiwn.

Diffiniadau o'r Lefelau Sicrwydd

Lefel Sicrwydd	Diffiniad
Sicrwydd Sylweddol	Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn dda . Dim Risgiau/Materion sylweddol nac o bwys wedi eu canfod.
Sicrwydd Rhesymol	Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn rhesymol . Mae mân wendidau o ran rheoli risgiau a / neu fesurau rheoli ond nid oes unrhyw risgiau o ran cyflawni amcanion. Gall Rheolwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth roi sylw iddynt.
Sicrwydd Cyfyngedig	Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn gyfyngedig . Mae gwendidau sylweddol wrth reoli risgiau a / neu reolaethau sy'n peryglu cyflawni amcanion. Mae angen i Benaethiaid Gwasanaeth eu datrys ac efallai y bydd angen hysbysu'r UDA.
Dim Sicrwydd	Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn sylweddol ddiffygiol . Mae gwendidau sylfaenol wrth reoli risgiau / a neu reolaethau a fydd yn arwain at fethu â chyflawni amcanion. Mae angen i'r UDA roi sylw iddynt ar unwaith ac efallai y bydd angen ymyrraeth y Pwyllgor Gwaith.

Rheolaeth ffisegol ac amgylcheddol o ganolfannau data

Sicrwydd Rhesymol	Materion / Risgiau / Cyfleoedd	
	0	Critigol
	0	Sylweddol
	1	Cymedrol

- Tudalen 71
11.

Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:
A oes gan y cyngor drefniadau digonol ar waith i leihau'r risgiau'n gysylltiedig â mynediad ffisegol a risgiau amgylcheddol o fewn seilwaith TG allweddol y Cyngor?
12.

Cadarnhaodd yr archwiliad o ddwy ganolfan ddata'r cyngor bod diogelwch ffisegol a rheolaethau amgylcheddol yn effeithiol ar y cyfan, a bod gan y naill safle'r un diogeliadau fwy neu lai er mwyn diogelu caledwedd TG a lleihau'r risg o golli data neu wasanaethau. Mae'r prif safle wedi'i diogelu'n gadarn, tra bod mân risg yn gysylltiedig â'r safle arall gan fod modd gweld y gweinyddion o'r tu allan. Mae CCTV a synwryddion a systemau llethu tân ar waith, er bod angen mynd i'r afael â monitro allanol a gwydnwch rhag camrybuddion.
13.

Mae'r rheolaethau amgylcheddol, yn cynnwys llif aer, tymheredd, lleithder a'r trefniadau ar gyfer y cyflenwadau trydan, yn gweithio i raddau helaeth ond mae monitro annigonol a gwall UPS yn effeithio arnynt. Mae'r risg y gallai dŵr fynd i mewn i'r safle yn isel iawn yn y prif safle ar hyn o bryd ond mae'r risg yn uwch yn y safle arall gan fod y gweinydd ar y llawr gwaelod a chan nad oes synwryddion i ganfod gollyngiadau.
14.

Mae'r trefniadau wrth gefn ac adfer yn dilyn digwyddiad yn rhesymol ond byddai'n fanteisiol pe byddai dogfennau ffurfiol ar gael. Wrth i'r cyngor barhau â'i strategaeth 'cwmwl yn gyntaf', bydd y risgiau ffisegol yn lleihau a bydd mwy o ffocws ar reoli contractau trydydd parti.
15.

At ei gilydd, roedd canlyniad ein hadolygiad yn gadarnhaol, ac mae archwilwyr TG Cyngor Salford wedi nodi pum argymhelliad. Ar ôl eu hasesu yn erbyn matrices asesu risg y cyngor, roedd un yn gymedrol a'r gweddill yn fân (gwyrd).


Gwaith ar y Gweill

16. Mae'r gwaith canlynol ar y gweill ar hyn o bryd:

Maes	Rheswm dros yr Archwiliad	Cam
Rheoleiddio ac Economaidd	Ymchwiliad	Gwaith Maes
Archwiliad TG Rheoli Asedau TG	Cofrestr Risgiau Strategol (YM3)	Wedi'i ohirio tan 2026-27 ar gais y Prif Swyddog Digidol
Cyllid Gofal Cymdeithasol Oedolion: Asesiadau Ariannol - Gofal Preswyl a Nyrsio	Adolygiad Dilydol Cyntaf	Gwaith Maes
Rheoli'r Risg Diogelu: - Dilyn i fyny - Athrawon Llanw	Cofrestr Risgiau Strategol (YM10/YM12)	Gwaith maes (wedi'i ohirio oherwydd ymweliad Arolygiaeth Gofal Cymru)
Rhaglenni Addysg Gynnar a Grantiau Gofal Plant	Adolygiad Dilydol Cyntaf	Gwaith Maes
Rheolaeth Ariannol	Cofrestr Risgiau Strategol (YM1)	Gwaith Maes
Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	Ail Adolygiad	Gwaith Maes
Systemau Ariannol - y Gyflogres	AM Blaenoriaeth Strategol 2025-26	Gwaith Maes
Systemau Ariannol - Credydwy	AM Blaenoriaeth Strategol 2025-26	Gwaith Maes
Systemau Ariannol - Cysoni Banciau	AM Blaenoriaeth Strategol 2025-26	Pennu Cwmpas
Systemau Ariannol - Y Cyfriflyfr Cyffredinol	AM Blaenoriaeth Strategol 2025-26	Pennu Cwmpas
Systemau Ariannol - Rheoli Trysorlys	AM Blaenoriaeth Strategol 2025-26	Pennu Cwmpas

Camau Gweithredu sy'n Weddill

17. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi gwasanaethau i fynd i'r afael â'r holl 'Faterion / Risgiau / Cyfleoedd' a godwyd, a rhoi'r holl gamau gweithredu sy'n weddill ar waith.
18. Ar 19/01/26 roedd tair gweithred 'sylweddol' a naw gweithred 'cymedrol' wedi cyrraedd y dyddiad targed ar gyfer eu cwblhau ac felly'n 'hwyr'.



19. Mae'r rhain yn gysylltiedig â dau adroddiad archwilio sydd wrthi'n cael eu dilyn i fyny a bydd adroddiadau'n cael cyflwyno yn ystod y cyfarfod nesaf:
 - Rhaglenni Addysg Gynnar a Grantiau Gofal Plant
 - Cyllid Gofal Cymdeithasol Oedolion: Asesiadau Ariannol - Gofal Preswyl a Nyrsio

Blaenoriaethau

Blaenoriaethau Tymor Byr/Canolig

20. Mae ein gwaith presennol i'w weld yn yr adran [Gwaith ar y Gweill](#) yn gynharach yn yr adroddiad. Mae'r Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2025-26 yn mynd rhagddi yn dda ac mae nifer o'r archwiliadau bron â chael eu cwblhau. Bydd digon o waith wedi cael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn i alluogi'r Pennaeth archwilio i ddarparu barn archwilio flynyddol.

Blaenoriaethau yn y Tymor Hwyr

21. Bydd gweithredu gofynion y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang newydd yn y Sector Cyhoeddus yn y DU yn parhau dros y 18 mis nesaf.
22. Yn dilyn eu cyflwyno ym mis Ebrill 2025, mae'r Safonau Archwilio Mewnol Rhyngwladol yn Sector Cyhoeddus y DU wedi cael eu hadolygu a'u diwygio i gynnwys Gofynion Cyfredol Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol (IIA). Mae'r rhain yn rhan fandadol o Fframwaith Ymarfer Proffesiynol Rhyngwladol (IPPF) yr IIA, ond nid ydynt, o reidrwydd, yn berthnasol i archwilio mewnol yn sector cyhoeddus y DU.
23. Mae'r Bwrdd Ymgynghorol Safonau Archwilio Mewnol (IASAB), ar ran y Gosodwr Safonau Archwilio Mewnol Perthnasol (RIASS), wedi penderfynu y bydd gofynion Seiberddiogelwch yr IIA a'r canllawiau i ddefnyddwyr yn dod yn berthnasol i sector cyhoeddus y DU ar 5 Chwefror 2026. Yn y DU, mae safonau ychwanegol hefyd yn berthnasol i'r maes hwn a bydd archwilwyr y DU yn ystyried fframwaith asesu'r Ganolfan Diogelwch Seiber Genedlaethol (CAF).

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad:	3 Chwefror 2026
Pwnc:	Diweddariad ar y Gofrestr Risgiau Strategol
Pennaeth Gwasanaeth:	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.llyw.cymru
Awdur yr Adroddiad:	Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru
Natur a Rheswm dros Adrodd: Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys gofyniad penodol i'r pwyllgor adolygu, asesu ac adrodd ar ba mor effeithiol yw'r cyngor wrth ddatblygu a gweithredu trefniadau rheoli risg o fewn y cyngor (3.4.8.8.1). Fel rhan o'r cyfrifoldeb hwn, bydd yn adolygu'r gofrestr risgiau strategol ac yn ceisio sicrhwydd bod rheolwyr yn perchnogi risgiau'n briodol a'u rheoli'n effeithiol, a bydd yn ystyried a yw trefniadau ar gyfer adnabod ac asesu risgiau'n ddigonol ac effeithiol a ph'un a yw mesurau lliniaru a gynlluniwyd yn briodol ac effeithiol, gan wneud argymhellion i'r perchennog risg cyfrifol lle bo hynny'n briodol. (3.4.8.8.3)	

1. Cyflwyniad a Chefndir

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno cofrestr risgiau strategol ddiwygiedig yn dilyn yr adolygiad cynhwysfawr y llynedd. Dyma'r fersiwn ddiweddaraf ond caiff ei diweddarau'n barhaus (gweler Atodiad A).
- 1.2 Fel yr adroddwyd ym Mis Rhagfyr 2025, yn sgil ymadawiad y Rheolwr Yswiriant a Risg cafwyd cyfle i adolygu strwythur a chyfrifoldebau swyddogion o fewn fframwaith rheoli risg y cyngor, ynghyd â chynnal adolygiad cynhwysfawr o'r gofrestr risgiau strategol. Un o'r prif newidiadau yw mai'r Rheolwr Gweithredol (Tîm Arweinyddiaeth) sydd bellach yn gyfrifol am gynnal y gofrestr risgiau strategol.
- 1.3 Fel rhan o'n contract yswiriant gyda Zurich Municipal (ZM), rydym yn derbyn gwasanaethau Zurich Risk Solutions (ZRS) a gomisiynwyd i weithio gyda ni ar adolygiad llawn o drefniadau rheoli risg y cyngor.

2. Y Gofrestr Risgiau Strategol Ddiwygiedig

- 2.1 Mae ZRS wedi bod yn gweithio gyda'r Tîm Arweinyddiaeth er mwyn helpu i adolygu'r gofrestr risgiau strategol. Cynhaliodd ZRS weithdy gyda'r Tîm Arweinyddiaeth, ac mae nifer y risgiau ar y gofrestr risgiau strategol wedi gostwng o 16 i 11 risg yn sgil hynny.
- 2.2 Mae'r Tîm Arweinyddiaeth wedi cytuno ar y gofrestr risgiau strategol hon, sy'n fwy cryno. Mae'r gofrestr ar ffurf dogfen Microsoft Word ar hyn o bryd gan fod RSM, y cwmni sy'n darparu'r system rheoli risgiau (4risk), wrthi'n ail ffurfweddu strwythur y system fel ei bod yn cyd-fynd yn well ag anghenion y cyngor.

- 2.3 Mae'r Rheolwr Gweithredol(Tîm Arweinyddiaeth) yn parhau i weithio â'r Tîm Arweinyddiaeth ar y gofrestr risgiau strategol ddiwygiedig; mae perchnogion risgiau wedi cael eu nodi ac mae camau ychwanegol yn cael eu datblygu i sicrhau bod risgiau'n cael eu lliniaru i lefel briodol. Bydd y gwaith hwn yn digwydd ochr yn ochr â'r gwaith a gomisiynwyd gan ZRS i adolygu archwaeth risg y cyngor.
- 2.4 Bydd y gofrestr risgiau strategol gyflawn yn cael ei chyflwyno i'r pwyllgor unwaith y bydd y gwaith hwn wedi cael ei gwblhau.

3. Map gwres

- 3.1 Mae'r mapiau gwres isod yn darparu crynodeb o'r risgiau strategol, gan fanylu ar nifer y risgiau cynhenid a gweddilliol.

Nifer y risgiau cynhenid

Bron yn sicr	5			2	2	2
Tebygol	4			2	1	
Posib	3			1		1
Annhebygol	2					
Prin	1					
		1	2	3	4	5
		Dinod	Bychan	Cymedrol	Sylweddol	Trychinebus

Nifer y risgiau gweddilliol

Bron yn sicr	5					
Tebygol	4			2	2	
Posib	3			3	1	
Annhebygol	2			2	1	
Prin	1					
		1	2	3	4	5
		Dinod	Bychan	Cymedrol	Sylweddol	Trychinebus

- 3.2 Y ddau risg weddilliol â sgôr coch yw: YM2 - TG a seiber-ymosodiadau ac YM10 - Asedau ffisegol.

4. Argymhelliad

- 4.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r gwaith sydd wedi cael ei gyflawni hyd yma fel rhan o'r adolygiad cyflawn o'r gofrestr risgiau strategol.

Y Gofrestr Risgiau Strategol – Chwefror 2026

Rhif Adnabod	Risg	Perchennog y Risg	Cynhenid (Effaith x Tebygolrwydd)	Rheolaethau / Rheolaethau Presennol	Gweddilliol (Effaith x Tebygolrwydd)
YM1	Cyllid a rheoli cyllid Cyllid sy'n hanfodol er mwyn darparu gwasanaethau statudol a chyflawni amcanion strategol yn lleihau neu'n annigonol.	Marc Jones - Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151	Critigol (5:3=15)	Balansau o dros 5% o'r gyllideb flynyddol yn cael eu cadw wrth gefn. Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) - CATC ar gyfer y cyfnod 2026/27 i 2028/29 wedi cael ei gymeradwyo. Monitro cyllid yn rheolaidd a darparu diweddariadau i'r arweinwyr. Proses gadarn ar gyfer pennu cyllidebau a darogan. Protocol ar waith ar gyfer Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi ers Rhagfyr 2025. Archwilio a sicrwydd - archwiliadau mewnol ac allanol yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Hyfforddiant rheoli cyllid parhaus ar gyfer staff perthnasol. Caiff cyllidebau eu gosod a'u rheoli'n agos er mwyn diogelu cronfeydd wrth gefn i ddelio ag argyfyngau. Ystyriaeth o newidiadau demograffig a'r effaith ar wasanaethau pan fo'r galw'n uwch. Lobio - ymgysylltu'n barhaus â'r llywodraeth a chyrff cyllido i sicrhau bod gennym adnoddau digonol.	Sylweddol (4:3=12)

Rhif Adnabod	Risg	Perchennog y Risg	Cynhenid (Effaith x Tebygolrwydd)	Rheolaethau / Rheolaethau Presennol	Gweddilliol (Effaith x Tebygolrwydd)
YM2	TG ac ymosodiadau seiberddiogelwch Methiant TG yn amharu'n sylweddol ar barhad busnes.	Rhys Hughes - Dirprwy Brif Weithredwr Lynn Ball - Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)	Critigol (5:5=25)	Hyfforddiant ymwybyddiaeth seiberddiogelwch gorfodol i bob aelod o'r staff. Ymarferion dynwared ymosodiadau gwe-rwydo yn yr arfaeth. Cyfres o becynnau meddalwedd a gweithdrefnau i leihau'r risg o ymosodiad seiberddiogelwch yn erbyn y cyngor. Asesiadau bregusrwydd a phroffion hacio rheolaidd. Polisiâu diogelwch TG a defnydd priodol o TG ar waith. Mae'r strategaeth wrth gefn yn cyd-fynd â gofynion parhad busnes y gwasanaeth sy'n berchen ar y system. Mae gan bob gwasanaeth gynllun parhad busnes ac mae cynllun parhad busnes ar waith ar gyfer y cyngor cyfan. Defnyddio Cymru SOC i ddarparu goruchwyliaeth ychwanegol a chefnogi digwyddiadau seiber. Mae Cynllun Strategol Digidol y cyngor ar gyfer 2024-2029 yn darparu fframwaith strwythuredig ar gyfer datblygiadau digidol ar draws y cyngor. Mae'r Cynllun Strategol Digidol Addysg ar gyfer 2026-2031 yn darparu fframwaith strwythuredig ar gyfer datblygiadau digidol yn ein hysgolion.	Critigol (4:4=16)

Rhif Adnabod	Risg	Perchennog y Risg	Cynhenid (Effaith x Tebygolrwydd)	Rheolaethau / Rheolaethau Presennol	Gweddilliol (Effaith x Tebygolrwydd)
YM3	Diogelu Methu â diogelu oherwydd prosesau aneffeithiol.	Fôn Roberts - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd	Critigol (4:5=20)	Mesur ataliol - ymwybyddiaeth o drawma a mentrau Oed Gyfeillgar. Sicrhau bod staff, aelodau a'r cyhoedd yn deall eu dyletswydd i roi gwybod am bryderon diogelu a bod ganddynt ffydd yn y broses i'w galluogi i wneud hynny. Polisi Diogelu Corfforaethol gyda threfniadau llywodraethu clir ar waith ar gyfer riportio ar lefel uwch, polisïau a gweithdrefnau o fewn y cyngor. Fframwaith hyfforddi sy'n darparu dull cyngor cyfan i sicrhau bod y gweithlu'n ymwybodol o feysydd diogelu / ecsbloetio / cam-drin allweddol a hyfforddiant trylwyr ar ddiogelu ar lefel sy'n gymesur â rôl a chyfrifoldebau'r gweithiwr. Fframwaith o bolisïau a gweithdrefnau i sicrhau bod pob swydd yn cael ei llenwi a bod y gweithlu'n cael ei reoli'n gwbl unol â'r gofynion statudol - polisi recriwtio a dethol, polisi DBS a pholisi recriwtio'n fwy diogel CSYM. Cynllun Gweithredu Diogelu, sy'n canolbwyntio ar weithredu ar draws y cyngor cyfan a meysydd allweddol y dylai'r bwrdd diogelu corfforaethol gadw llygaid arnynt. Partneriaethau. Y cyngor cyfan, iechyd, addysg a'r heddlu ar gyfer ymyriadau cydlynol. Cynrychiolaeth briodol ar fyrdau statudol rhanbarthol / partneriaethau / byrddau isranbarthol.	Cymedrol (3:3=9)

Rhif Adnabod	Risg	Perchennog y Risg	Cynhenid (Effaith x Tebygolrwydd)	Rheolaethau / Rheolaethau Presennol	Gweddilliol (Effaith x Tebygolrwydd)
				Rhoi'r hyn a ddysgwyd yn dilyn yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR) ar waith a gweithredu y broses os adroddi'r am ddigwyddiad difrifol.	
YM4	Recriwtio, cadwraeth a pharhad mewn arweinyddiaeth Gall methu â recriwtio'n ddigon cyflym a phrinder talent leihau gallu'r gweithlu, gwanhau parhad mewn arweinyddiaeth, ac amharu ar wasanaethau.	Dylan Williams - Prif Weithredwr	Critigol (4:5=20)	Cynllunio'r gweithlu - mae cynllun ar waith ar gyfer pob gwasanaeth. Cyfweliadau ymadael a holiaduron i ddechreuwyd newydd ar waith i gael adbordd i wella strategaethau recriwtio a chadw staff. Micro safle gyrfaoedd pwrpasol sydd yn amlinellu y manteision o weithio efo y cyngor. Defnyddir platfformau cyfryngau cymdeithasol i hysbysebu swyddi gwag. Cydweithio ag ysgolion / colegau / addysg bellach i ddatblygu a hyrwyddo'r sector gofal (Denu Talent). Mae prosesau denu talent a rhaglenni datblygu mewnol ar waith, e.e. (Twf a Datblygu) ynghyd â chynllun i raddedigion, Dyfodol Môn. Mae pob gwasanaeth yn adolygu disgrifiadau swyddi a manylebau person yn rheolaidd i wneud yn siŵr eu bod yn realistig ac yn cyd-fynd â'r farchnad lafur. Adnabod talent. Adolygu ac adnabod arweinwyr y dyfodol yn rheolaidd drwy'r sgwrs flynyddol.	Sylweddol (3:4=12)

Rhif Adnabod	Risg	Perchennog y Risg	Cynhenid (Effaith x Tebygolrwydd)	Rheolaethau / Rheolaethau Presennol	Gweddilliol (Effaith x Tebygolrwydd)
				Fforwm Môn - fforwm sy'n galluogi uwch swyddogion y cyngor i dderbyn, rhannu a thrafod.	
YM5	Partneriaethau Partneriaethau aneffeithiol, heb ddigon o oruchwyliaeth, ac a all gael effaith negyddol ar wasanaethau a gwerth am arian.	Susan Owen Jones - Rheolwr Gweithredol (TA)	Sylweddol (3:4=12)	Cytundebau ffurfiol gyda phartneriaid a rolau a chyfrifoldebau clir. Strwythur llywodraethu clir - sefydlu grwpiau llywio lle bo angen. Partneriaid strategol yn mynychu cyfarfodydd y pwyllgor sgriwtini partneriaeth yn unol â'r rhaglen. Cyfarfodydd monitro ac adolygu perfformiad rheolaidd. Gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar gyfer trydydd bartion. Rhoi cytundebau lefel gwasanaeth, memoranda cyd-ddealltwriaeth a threfniadau rheoli contractau ar waith yn ôl y galw. Cofrestr partneriaethau ar waith ac yn cael ei hadolygu'n gyfnodol.	Cymedrol (3:3=9)
YM6	Cadwyn Gyflenwi Gall dibyniaeth ar lond llaw o gyflenwyr allweddol fel rhan o gadwyn gyflenwi'r cyngor achosi oedi i wasanaethau a lleihau gwydnwch.	Marc Jones - Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151	Critigol (4:4=16)	Amrywiaeth o gyflenwyr a chynlluniau wrth gefn. Adolygu ac archwilio perfformiad cyflenwyr yn rheolaidd er mwyn nodi'r prif gyflenwyr. Cymalau cytundebol ar gyfer amserlenni cyflawni a chosbau.	Sylweddol (4:22=8)

Rhif Adnabod	Risg	Perchennog y Risg	Cynhenid (Effaith x Tebygolrwydd)	Rheolaethau / Rheolaethau Presennol	Gweddilliol (Effaith x Tebygolrwydd)
				Rhestr o gyflenwyr cymeradwy. Cytundebau fframwaith. Cynlluniau parhad busnes ac adfer yn dilyn argyfyngau. Monitro methiannau critigol ac unigol yn y gadwyn gyflenwi yn agos. Monitro parhaol o weithgareddau mewn sectorau perthnasol (e.e. adeiladu) a'i gefnogi gan broses glir i uwchgyfeirio pryderon yn brydlon. Wedi ymrwymo i gôd ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi. Cynllun Strategol Caffael a'r dogfennau templed.	
YM7	Yr Iaith Gymraeg Methu â chydymffurfio â safonau'r Gymraeg a Pholisi'r Gymraeg, yn cynnwys y gofyniad i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.	Aaron Evans - Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc	Sylweddol (3:4=12)	Polisi'r Gymraeg - Cynnal a diweddarau'r polisi'n rheolaidd i gyd-fynd â gofynion statudol. - Mae'r gronfa ddysgu a'r porth polisi yn sicrhau bod staff ac aelodau yn ymwybodol bod Polisi'r Gymraeg a'r ddeddfwriaeth yn orfodol. Hyfforddiant i staff - darparu hyfforddiant rheolaidd i staff ar safonau'r Gymraeg, y disgwyliadau a gwasanaeth cwsmer. Recriwtio a chefnogi – gofynion iaith Gymraeg i wahanol swyddi yn cael eu hystyried a gweithredwyd fframwaith sgiliau iaith Gymraeg.	Cymedrol (3:2=)

Rhif Adnabod	Risg	Perchennog y Risg	Cynhenid (Effaith x Tebygolrwydd)	Rheolaethau / Rheolaethau Presennol	Gweddilliol (Effaith x Tebygolrwydd)
				Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg (a'r cynllun gweithredu blynyddol) yn cael ei weithredu mewn partneriaeth â'r Fforwm Iaith. Monitro Perfformiad - Paratoi arolwg hunanasesu ac adroddiad blynyddol. - Adrodd ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol fel rhan o'r cerdyn sgorio.	
YM8	Cynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol Yr ansicrwydd o ran polisiau cenedlaethol a buddsoddiadau allanol yn effeithio ar gynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.	Dylan Williams - Prif Weithredwr	Sylweddol (3:5=15)	Adolygiadau data rheolaidd. Dadansoddi data demograffig, economaidd a diwylliannol rheolaidd er mwyn llywio penderfyniadau a Chynlluniau Strategol. Ymgysylltu â rhanddeiliaid - cynnwys cymunedau, busnesau a phartneriaid lleol. Cynllunio senarios - Defnyddir offer rhagolygon i ddarogan anghenion gwasanaethu yn y dyfodol.	Sylweddol (3:4=12)
YM9	Llywodraethiant a chydymffurfiaeth Llywodraethu gwan neu aneffeithiol a all arwain at ddiffyg cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddio, a chosbau neu ddifrod i'n henw da.	Lynn Ball - Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)	Critigol (4:5=20)	Fframwaith llywodraethu cadarn – diffiniad clir o rolau, cyfrifoldebau, pwysedd â'r awdurdod i wneud penderfyniadau ac uwch gyfeirio. Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac camau gwella a nodwyd sydd yn cael eu graffu gan grŵp Llywodraethu amlddisgyblaethol o ar draws y cyngor. Rhaglen hyfforddiant gorfodol – caiff cwblhau a dealltwriaeth y staff o'r eHyfforddiant gorfodol eu holrhain a'u monitro drwy system rheoli eDdysgu. Yn sefydlu ymddygiadau disgwylidiedig, lleihau y risg o	Cymedrol (3:3=9)

Rhif Adnabod	Risg	Perchennog y Risg	Cynhenid (Effaith x Tebygolrwydd)	Rheolaethau / Rheolaethau Presennol	Gweddilliol (Effaith x Tebygolrwydd)
				wrthdystio ac yn cefnogi cydymffurfiaeth gyson â safonau cyfreithiol a sefydliadol. Mae rhaglen archwilio mewnol effeithiol yn darparu sicrwydd annibynnol, sydd yn seiliedig ar risg dros lywodraethu, rheoli risg, a rheolaethau mewnol i'r uwch arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Diweddaru polisiau - diweddaru polisiau yn unol â'r ddeddfwriaeth ac anghenion yr awdurdod lleol. Mae polisiau gorfodol yn cael eu cyhoeddi i'r gweithlu trwy borth polisi sydd yn olrhain a monitro cydnabyddiaeth a dealltwriaeth trwy adroddiadau adeiledig gan ddarparu tystiolaeth o gydymffurfiaeth â rhwymedigaethau rheoleiddol a defddwriaethol. Mae rheolaethau sefydledig sefydliadol ar waith, gan gynnwys gweithdrefnau ariannol, fframweithiau llywodraethu a rheoli perfformiad, methodoleg rheoli prosiect, prosesau cynllunio strategol, rheolaethau gweithredol, cyfathrebu strwythiedig staff, goruchwyliaeth swyddog statudol, a rhaglen archwilio mewnol.	
YM10	Asedau ffisegol Methu â defnyddio adeiladau'r cyngor ac asedau eraill oherwydd eu bod mewn cyflwr gwael.	Rhys Hughes - Dirprwy Brif Weithredwr	Critigol (5:5=25)	Cofrestr asedau. Rhestr eiddo cynhwysfawr a diweddaru o asedau'r Cyngor, ac eithrio tai cyngor. Arolygon cyflwr. Cynnal adolygiadau ac asesiadau risg rheolaidd.	Critigol (4:4=16)

Rhif Adnabod	Risg	Perchennog y Risg	Cynhenid (Effaith x Tebygolrwydd)	Rheolaethau / Rheolaethau Presennol	Gweddilliol (Effaith x Tebygolrwydd)
				Gwasanaethu, arolygu , a chynnal a chadw cylchol wedi'u hamserlennu. Symud tuag at Sero Net. Gweithio tuag at targedau Sero Net a chydnabod llwyddiant y gwaith addasu i'r hinsawdd. System Rheoli Eiddo newydd yn casglu data am adeiladau ac yn rhoi gwybod am yr angen am fuddsoddiadau a blaenoriaethu. Mae'r Strategaeth Cyfalaf yn darparu fframwaith strwythuredig ar gyfer gwariant cyfalaf.	
YM11	Cartrefi i bobl leol Prinder tai fforddiadwy ac addas i gwrdd ag anghenion tai lleol.	Marc Jones - Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151	Cymedrol (3:3=9)	Cynllun Strategol Tai - blaenoriaethu tai i drigolion lleol. Asesu anghenion tai. Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2024-2029 wedi'i gwblhau. Cydweithio. Prosiectws tai blynyddol a chyflawni'r rhaglen tai cymdeithasol i nodi a blaenoriaethu cynlluniau ar gyfer cymdeithasau tai a datblygu tai cyngor. Mae'r cyngor a chymdeithasau tai eraill yn gweithio ag adeiladwyr lleol i gynyddu'r stoc dai. Mae premiwm ar ail gartrefi yn cynhyrchu incwm i ariannu prosiectau i helpu i ddarparu cartrefi i drigolion lleol. Codi premiwm ar berchnogion ail gartrefi i leihau nifer yr ail gartrefi.	Cymedrol (3:2=6)

Rhif Adnabod	Risg	Perchennog y Risg	Cynhenid (Effaith x Tebygolrwydd)	Rheolaethau / Rheolaethau Presennol	Gweddilliol (Effaith x Tebygolrwydd)
				Gorfodi polisïau cynllunio - tai fforddiadwy.	

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad:	3/2/2026
Pwnc / Testun:	Diweddariad Cynnydd yn erbyn y Camau Gwella a nodwyd yn yr Hunanasesiad a'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol (AGS) ar gyfer 2024/25
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Huw Ynyr Pennaeth Digidol, Perfformiad ac Moderneiddio HuwYnyr@ynysmon.llyw.cymru
Awdur yr Adroddiad:	Gwyndaf Parry Rheolwr Cynllunio Perfformiad a Rhaglen Corfforaethol GwyndafParry@ynysmon.llyw.cymru Alwyn Williams Dadansoddwr Perfformiad a Busnes Corfforaethol AlwynWilliams@ynysmon.llyw.cymru
Natur a Rheswm dros Adrodd: Mae'r Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad hwn yn unol ag adran 3.4.8.4 (Adrodd ar Lywodraethu) ac adran 3.4.8.15 (Adroddiad Hunanasesu) o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor.	

Cyflwyniad

1. Er mwyn arddangos Llywodraethu da, mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r gwaith y mae'r Cyngor wedi'i gyflawni yn erbyn y meysydd gwella a nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol (AGS) a'r Adroddiad Hunanasesu a Pherfformiad (Llesiant) ar gyfer 2024/25.
2. Mae Gwasanaethau wedi darparu diweddariadau ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y camau gweithredu ers i'r adroddiadau gael eu hystyried gan y Pwyllgor ym mis Medi a mis Rhagfyr 2025.

Argymhelliad

3. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:
 - a. Yn ystyried yr adroddiad ac yn derbyn bod yr ymatebion a'r diweddariadau'n adlewyrchiad cywir o waith y Cyngor yn erbyn y meysydd gwella a nodwyd.

Adroddiad Hunanasesiad a Perfformiad (Llesiant) 2024/25 + Datganiad Llywodraethiant Blynyddol

Cynnydd yn erbyn y camau gwella a nodwyd

Paratowyd gan – Y Gwasanaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio

Dyddiad Cyhoeddi: Ionawr 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg / This document is available in English

Cynnydd yn erbyn y camu gwella a nodwyd

Mae'r adroddiad hwn yn darparu diweddariad ar y gwaith a gwblhawyd yn erbyn y meysydd sydd wedi'u nodi fel cyfleoedd i wella a'u monitro yn yr [Hunanasesiad Corfforaethol ar gyfer 2024/25](#).

1. Parhau i foderneiddio ei seilwaith digidol a seilwaith data

Dyddiad Targed – Mawrth 2027

Camau i fynd i'r afael â'r gwendid	Gwasanaeth(au) Arweiniol	Diweddariad	Statws ⁱ
Datblygu Cynllun Strategol Data gyda'r nod o ddod yn Gyngor sy'n cael ei lywio gan ddata	Digidol, Perfformiad a Moderneiddio	Cyflwynwyd achos busnes i'r Tîm Arweinyddiaeth i geisio am adnoddau ychwanegol ar gyfer diweddaru'r platfform data ac ar gyfer penodi Rheolwr Data.	Ar waith
Parhau i symud ymlaen â'r 4 blaenoriaeth allweddol yn y Cynllun Strategol Digidol	Digidol, Perfformiad a Moderneiddio	- Mae'r gwaith ar y pedwar blaenoriaeth yn parhau, gyda nifer o gyflawniadau nodedig, gan gynnwys: - System Rheoli Llyfrgelloedd: Disodli'r system wedi'i gydlynw fel rhan o raglen uwchraddio genedlaethol. - Platfform democratiaeth: Gwelliannau gweledol a hygyrchedd wedi'u cyflwyno. - Cynllun Datblygu Lleol: Darparwyd elfennau platfform digidol a gwasanaeth cwsmeriaid ar gyfer y lansiad. - Seiberddiogelwch a diogelwch e-bost: Offer wedi'u huwchraddio i wella ymarferoldeb a lleihau costau. - Ffurflenni a llifoedd gwaith digidol: Datblygwyd ar gyfer sawl maes gwasanaeth, yn fewnol ac ar gyfer cwsmeriaid. - Rheoli Eiddo Civica: System newydd wedi'i chaffael a'i gweithredu. - Mudo i'r cwmwl: Cwblhawyd mudo meddalwedd incwm Pay360 a system rheoli dogfennau NEC. - Cof Cyfieithu: Meddalwedd newydd wedi'i chaffael a'i gweithredu i gefnogi gwaith cyfieithu. - System deleffoni: Gweithredwyd system deleffoni'r Cyngor, y ganolfan gyswllt a galwadau drwy Teams. - Tudalen we meysydd parcio ceir: Trawsnewidiwyd	Ar waith

Camau i fynd i'r afael â'r gwendid	Gwasanaeth(au) Arweiniol	Diweddariad	Statws ⁱ
		- o PDF statig i fap rhyngweithiol wedi'i integreiddio â'r ap talu. - o Dadansoddi ymwelwyr i'r gwefan: Ystadegau heb gwcis wedi'u treialu a'u lansio i sicrhau cydymffurfiaeth GDPR a dibynadwyedd gwell. - o Uwchraddio mapio GIS: Integreiddio â Chofrestr Tir EM a chynnal statws Aur ar gyfer data cyfeiriadau a strydoedd.	
Datblygu'r rhyngwyneb 'Chatbot' i ddarparu profiad gwell i gwsmeriaid	Digidol, Perfformiad a Moderneiddio	Mae gwelliannau'n cael eu harchwilio ar y cyd â'r cyflenwr, ac mae prawf cysyniad yn cael ei ddatblygu ar blatfform technoleg amgen rhag ofn na ellir cyflawni'r gwelliannau arfaethedig.	Ar waith
Adolygu canolfannau cyswllt cwsmeriaid ac ystyried argymhellion i wella profiad y cwsmer	Digidol, Perfformiad a Moderneiddio	- Cwblhaodd contractwr adolygiad o'n canolfannau cyswllt cwsmeriaid rhwng Medi a Hydref 2025. - Derbyniwyd y canfyddiadau ac fe'u hystyriwyd gan y Grŵp Llywio Prosiect, sydd wedi cytuno i baratoi cynnig yn seiliedig ar argymhellion yr adolygiad. - Mae angen mewnbwn gan y Pennaeth Gwasanaeth newydd cyn y caiff y cynnig ei ystyried gan y Tîm Rheoli Corfforaethol.	Ar waith

2. Rhaid i'r cyngor sicrhau ei fod yn bodloni gofynion Deddf Caffael 2023

Dyddiad Targed – Mawrth 2026

Camau i fynd i'r afael â'r gwendid	Gwasanaeth(au) Arweiniol	Diweddariad	Statws
Rhoi'r camau a gytunwyd yn y Cynllun Strategol Caffael ar waith	Adnoddau	- Mae STAR yn parhau i weithio gyda'r Cyngor ar y cynllun gweithredu. Mae'r Cyngor wedi llwyddo i benodi Rheolwr Caffael parhaol, a fydd yn dechrau ym mis Ebrill ac yn adolygu'r cynllun. - Mae llawlyfr caffael newydd ar gael ar Monitor i staff, er mwyn eu harwain drwy'r broses gaffael yn unol â gofynion y Ddeddf newydd.	Y tu ôl i'r amserlen

3. Mae gwydnwch ariannol y cyngor dan straen oherwydd yr argyfwng costau byw a gostyngiad mewn cyllid

Dyddiad Targed – Mawrth 2026

Camau i fynd i'r afael â'r gwendid	Gwasanaeth(au) Arweiniol	Diweddariad	Statws
Ennill cymaint o'r grantiau sydd ar gael i'r Cyngor â phosib	Adnoddau	Mae gwaith yn parhau i gyflwyno ceisiadau am grantiau sydd ar gael, yn enwedig grantiau cyfalaf. Mae protocol wedi'i sefydlu ar gyfer awdurdodi ceisiadau am grantiau cyfalaf, ac mae pob grant a gwariant yn cael eu monitro i sicrhau nad oes unrhyw grant yn cael ei golli oherwydd diffyg cydymffurfio â'r amodau.	Wedi'i gwblhau
Monitro ac adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP)	Adnoddau	Mabwysiadodd y Pwyllgor Gwaith Gynllun Ariannol Tymor Canolig newydd ym mis Medi 2025, a bydd hwn yn cael ei ddiweddarau unwaith y caiff cyllideb 26/27 ei chytuno.	Wedi'i gwblhau
Adnabod arbedion ar gyfer 2026/27 ymlaen	Adnoddau	Mae £975k o arbedion wedi'u nodi fel rhan o osod cyllideb refeniw 26/27, ac mae'r arian hwn yn cael ei ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau.	Wedi'i gwblhau
Parhau i adolygu a symleiddio prosesau i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau a lleihau effaith y gostyngiad mewn cyllid	Adnoddau	Mae hyn yn digwydd ac yn parhau ar draws y gwasanaethau, gyda chronfeydd wrth gefn wedi'u neilltuo i ariannu costau newid. Enghreifftiau ledled y Cyngor yw buddsoddi yn y system deleffoni, defnyddio'r CRM, defnyddio Call Secure i dderbyn taliadau dros y ffôn, cyflwyno peiriannau 'Chip a PIN' i gasglu incwm ar y traethau, a chynnal adolygiad trafndiaeth ar draws y Cyngor. Gellir darparu enghreifftiau pellach gan y Gwasanaethau.	Wedi'i gwblhau

4. Mae'n rhaid i'r cyngor reoli a rhesymoli asedau er mwyn sicrhau bod galw amdanynt, eu bod nhw'n addas at eu diben ac os nad ydynt yn cael eu hadnabod, rhaid gweithio i wella safonau

Dyddiad Targed – Mawrth 2026

Camau i fynd i'r afael â'r gwendid	Gwasanaeth(au) Arweiniol	Diweddariad	Statws
Adolygu a chyhoeddi strategaeth rheoli asedau ar gyfer y stad mân-ddaliadau	Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Bydd drafft o'r cynllun strategol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgrwtini ar 18/02/2026 ac i'r Pwyllgor Gwaith i'w gymeradwyo ar 27/02/2028.	Ar waith
Parhau i weithredu'r System Rheoli Cyfleusterau drwy Gymorth Cyfrifiadur	Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Mae'r system wedi'i gweithredu'n sylweddol. Mae swyddogaeth Desg Gymorth Eiddo bellach yn gwbl weithredol, ac mae ymarferoldeb ychwanegol—megis y modiwlau Gwasanaethu, Archwilio a Chyfleustodau—yn cael eu cyflwyno. Bydd y system yn parhau i ddatblygu ac yn dod yn fwy ymarferol wrth i ragor o wybodaeth gael ei chasglu a'i llwytho. Disgwylir i ymarferoldeb y system gynyddu dros nifer o flynyddoedd. Mae trafodaethau'n parhau ynghylch integreiddio posibl â system Ariannol Civica.	Ar waith
Rhesymoli asedau'r Cyngor yn unol â'r Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024-29	Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Nid yw gwaith rhesymoli wedi symud ymlaen i'r cam gweithredu eto. Wrth i'r wybodaeth a gedwir o fewn system Rheoli Eiddo Civica ddatblygu a gwella, bydd yn bosibl ystyried ac argymhell opsiynau rhesymoli yn y dyfodol.	Y tu ôl i'r amserlen

5. Mae'n rhaid i'r cyngor ymateb i heriau sydd wedi'u hadnabod wrth gynllunio gweithlu, gan gynnwys proffil oed mewn rhai gwasanaethau a phroblemau recriwtio a chadw staff mewn gwasanaethau eraill

Dyddiad Targed – Mawrth 2026

Camau i fynd i'r afael â'r gwendid	Gwasanaeth(au) Arweiniol	Diweddariad	Statws
Adolygu a gweithredu ymgyrch recriwtio ar gyfer yr Uned Ddarparu	AD, Cyfathrebu a Phrofiad y Cwsmer	- Fel rhan o gynllun Dyfodol Môn, mae'r Rhaglen Denu Talent (hyd at 10 wythnos o leoliad gwaith cyflogedig dros fisoedd yr haf) wedi'i gweithredu dros ddwy flynedd yn olynol o fewn yr Uned Ddarparwyr. Mae'r ymgyrch recriwtio hon wedi bod yn llwyddiannus, gan ddenu diddordeb gan fyfyrwyr Chweched Dosbarth, Coleg a Phrifysgol. - Yn gwyno: - Mae 12 o bobl ifanc o Ynys Môn wedi manteisio ar y cynllun hyd yma. - Mae 8 wedi sicrhau cyflogaeth gyda'r Awdurdod, naill ai ar sail amser llawn neu fel staff achlysurol. - Mae 1 arall wedi mynegi diddordeb mewn cymhwyso fel Gweithiwr Cymdeithasol yn y dyfodol. - Mae 4 wedi dychwelyd i addysg gyda golwg newydd ar y Cyngor fel darpar gyflogwr, ac wedi'u hysbrydoli o ran eu dyheadau gyrfa yn y dyfodol, gyda diddordeb mewn cymryd rhan yn y Rhaglen eto. - Bydd y Tîm Dysgu a Datblygu yn parhau i weithio'n agos gyda'r Uned Ddarparwyr a'r timau Gwasanaethau Cymdeithasol ehangach i barhau â'r cynnig hwn yn 2026.	Ar waith
Gwasanaethau i fyfyrion a gweithio gydag Adnoddau Dynol i wneud pob ymdrech i 'dyfu staff eich hunan' trwy gyfleoedd hyfforddi a datblygu sy'n wedyn yn gwella recriwtio a chadw staff.	AD, Cyfathrebu a Phrofiad y Cwsmer	Mae'r Tîm Adnoddau Dynol yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn gyda'r Cyfarwyddwr/Penaethiaid Gwasanaeth a'r Rheolwr Busnes i drafod Cynllunio'r Gweithlu, ac yn dilyn hynny caiff adroddiad ei rannu gyda'r Tîm Arweinyddiaeth.	Wedi'i gwblhau

Camau i fynd i'r afael â'r gwendid	Gwasanaeth(au) Arweiniol	Diweddariad	Statws
Cynllun graddedigion Dyfodol Môn – parhau â'r rhaglen yn 25/26 - gan greu cyfleoedd deinamig i raddedigion uchelgeisiol ddatblygu sgiliau arbenigol a dechrau gyrfa gyda'r cyngor.	AD, Cyfathrebu a Phrofiad y Cwsmer	- Yn 2025 lansiwyd cynnig Graddedigion Dyfodol Môn. - Yn ystod Blwyddyn 1, llwyddwyd i recriwtio 4 o raddedigion talentog. - Mae hyn yn cynnwys 2 Raddedig Cyfrifeg, 1 Raddedig Peirianeg Drydanol ac 1 Raddedig Datblygu Economaidd. - Bydd cynigion lleoliadau Blwyddyn 2 yn cael eu rhyddhau ym mis Mawrth 2026.	Ar waith

6. Nid yw'r Cyngor yn mapio ei ffynonellau sicrwydd ar hyn o bryd

Dyddiad Targed – Mawrth 2026

Camau i fynd i'r afael â'r gwendid	Gwasanaeth(au) Arweiniol	Diweddariad	Statws
Cynnal adolygiad ar y ffordd orau o adolygu a monitro'r llinell sicrwydd gyntaf a'r ail	Trawsnewid	- Mae adolygiad o'r Gofrestr Risgiau Strategol yn parhau. - Yn dilyn yr adolygiad, bydd y Grŵp Llywodraethu newydd ei sefydlu yn adolygu'r llinellau sicrwydd fel rhan o'i waith parhaus ar y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol, y Cod Llywodraethu Lleol a'r Hunanasesiad Corfforaethol.	Y tu ôl i'r amserlen
Cynnal ymarfer mapio sicrwydd ar gyfer y Cyngor	Trawsnewid	Bydd y gwaith mapio'n cael ei gwblhau gan y Grŵp Llywodraethu unwaith y bydd yr adolygiad o'r Gofrestr Risgiau Strategol wedi'i gwblhau.	Y tu ôl i'r amserlen

ⁱ Gwyrdd – Wedi'i gwblhau, Melyn – Ar waith, Ambr – Y tu ôl i'r amserlen, Coch – Yn sylweddol y tu ôl i'r amserlen ac yn gofyn am ymyrraeth reoli

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adrodd i	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad	3 Chwefror 2026
Pwnc	Crynodeb Archwilio Blynyddol 2025
Pennaeth Gwasanaeth	Huw Ynyr Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio
Awdur yr Adroddiad	Gwyndaf Parry Rheolwr Perfformiad Strategol a Phrosiectau
Natur a rheswm dros adrodd Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi (3.4.8.11.2) y bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiad blynyddol yr archwilydd allanol, adroddiadau perthnasol eraill a'r adroddiad i'r rhai sy'n 'gyfrifol am lywodraethu'. Hefyd (3.4.8.11.3) bydd y Pwyllgor yn goruchwyllo trefniadau archwilio allanol, yn rhoi sylwadau ar gwmpas a dyfnder y gwaith archwilio allanol ac yn sicrhau ei fod yn rhoi gwerth am arian. Bydd yn ystyried adroddiadau archwilio allanol a bydd yn monitro eu hargymhellion.	

1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r adroddiad yn nodi Crynodeb Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn.
- 1.2 Mae'n crynhoi'r prif ganfyddiadau o waith archwilio 2025 a wnaed i gyflawni cyfrifoldebau Archwilio Cymru o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- 1.3 Derbyniodd Archwilio Cymru y cyfrifon drafft yn unol â'r dyddiad cau statudol ar 30 Mehefin 2025. Roedd ansawdd y cyfrifon drafft a'r papurau gwaith yn gyffredinol yn dda.
- 1.4 Cyhoeddodd yr archwilydd cyffredinol farn ddiamod ar y cyfrifon cyn y dyddiad cau statudol o 31 Hydref. Roedd un camddatganiad heb ei gywiro yn y cyfrifon. Nid oedd unrhyw faterion arwyddocaol eraill i'w hadrodd.
- 1.5 Canfu gwaith archwilio perfformiad fod gan y Cyngor drefniadau cadarnhaol ar gyfer monitro eu cronfeydd wrth gefn ond mae angen iddo gryfhau ei drefniadau comisiynu er mwyn gwella cysondeb.
- 1.6 Gwnaed sawl argymhelliad i'r Cyngor yn ystod 2025, gan ganolbwyntio ar ffurfioli ac ymgorffori trefniadau comisiynu i sicrhau gwerth am arian, a chryfhau'r rheolaeth strategol ac adolygu cronfeydd wrth gefn ariannol.

2.0 ARGYMHELLIAD

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- Ystyried yr adroddiad ac yn derbyn sicrwydd o'i gynnwys.

Cyngor Sir Ynys Môn – Crynodeb Archwilio Blynyddol 2025

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2026



Cynnwys

Cynnwys	2
Cyflwyniad	4
Cipolwg ar eich archwiliad	5
Canfyddiadau archwilio cyfrifon	6
Canfyddiadau archwilio perfformiad	9
Ansawdd archwilio	10
Gwybodaeth bellach	11

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw ddibyniaeth ar y ddogfen hon neu ddefnydd arall ohoni gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na gweithiwr arall yn rhinwedd eu swydd unigol, neu unrhyw ddefnydd gan unrhyw drydydd parti.

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cyflwyniad



Adrian Crompton

Archwilydd
Cyffredinol Cymru

Mae'n bleser gennyf rannu fy Nghrynodeb Archwilio Blynyddol ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn [y Cyngor]. Mae'n crynhoi'r prif ganfyddiadau o'm gwaith archwilio yn 2025 a gynhaliwyd i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rhoddais farn ynghylch a oedd y cyfrifon wedi'u paratoi'n briodol, ac a oeddent yn rhoi darlun gwir a theg, ym mhob agwedd berthnasol.

Mae fy nhîm archwilio hefyd wedi asesu a yw'r Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau, ac wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Wrth wneud hynny, mae fy nhîm archwilio wedi adolygu Rheolaeth Strategol y Cyngor o Falansau a Chronfeydd Wrth Gefn, a'i Drefniadau ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau. Fel y nodir yn fy nghynllun archwilio, mae'r adolygiadau hyn wedi'u cynnal yn unol â'r Safonau Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

Mae canfyddiadau manwl ar gyfer pob un o fy archwiliadau wedi'u nodi yn yr adroddiadau priodol y mae fy nhîm archwilio wedi'u cyflwyno drwy gydol y flwyddyn. Mae'r adroddiadau archwilio perfformiad ar gael ar wefan Archwilio Cymru a cheir rhagor o ddolenni yn y crynodeb.

Dylid rhannu'r Crynodeb Archwilio Blynyddol gyda y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. Yna byddaf yn sicrhau bod y crynodeb ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i swyddogion y Cyngor am eu cymorth a'u cydweithrediad drwy gydol fy archwiliad.

Cipolwg ar eich archwiliad



Cefais y cyfrifon drafft yn unol â'r dyddiad cau statudol ar 30 Mehefin 2025. Roedd ansawdd y cyfrifon drafft a'r papurau gwaith yn dda.



Rhoddais farn ddiamod ar y cyfrifon cyn y dyddiad cau statudol ar 31 Hydref 2025. Roedd un camddatganiad nas cywirwyd yn y cyfrifon. Nid oedd unrhyw faterion arwyddocaol eraill i'w nodi.



Canfu fy ngwaith archwilio perfformiad fod gan y Cyngor drefniadau cadarnhaol ar gyfer monitro cronfeydd wrth gefn ond bod angen iddo gryfhau eu threfniadau comisiynu i wella cysondeb.



Gwnaeth fy nhîm archwilio nifer o argymhellion i'r Cyngor sy'n canolbwyntio ar ffurfioli a gwreiddio trefniadau comisiynu i sicrhau gwerth am arian, a chryfhau rheolaeth strategol ac adolygiad o gronfeydd wrth gefn ariannol.



Mae fy nhîm archwilio wedi cwblhau y gwaith archwilio fel y'i nodir yn fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2024-25

Canfyddiadau archwilio cyfrifon

Mae paratoi cyfrifon blynyddol yn rhan hanfodol o ddangos stiwardiaeth arian cyhoeddus. Mae'r cyfrifon yn dangos perfformiad ariannol y sefydliad ac yn nodi ei asedau net/cronfeydd wrth gefn, cyfanswm yr incwm a'r gwariant cynhwysfawr, a'i lif arian parod. Mae fy archwiliad blynyddol o'r cyfrifon hynny yn rhoi barn ynghylch a gafodd y cyfrifon eu paratoi'n briodol ac a oeddent yn rhoi golwg wir a theg, ym mhob agwedd berthnasol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau wrth archwilio'r cyfrifon yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

Cyflwynwyd y cyfrifon drafft i'w harchwilio ar 30 Mehefin 2025. Roedd hyn yn unol â'r dyddiad cau ar 30 Mehefin 2026 a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd ansawdd y cyfrifon drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio yn dda ar y cyfan.

Fy marn archwilio

Rhaid i mi roi gwybod am faterion sy'n codi o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu i'w hystyried cyn i mi gyhoeddi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Nodais y materion hyn yn fy Adroddiad Archwiliad o Gyfrifon i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 23 Hydref 2025.

Cywirdeb y paratoi

Gwnaed nifer o newidiadau i'r cyfrifon drafft yn deillio o'm gwaith archwilio.

Roedd un camddatganiad nas gywirwyd yn weddill yn y cyfrifon a archwiliwyd. Roedd hyn yn ymwneud â 32 o asedau a oedd yn dal balansau yn anghywir yn y Gronfa Ailbrisio a'r Cyfrif Addasu Cyfalaf, nad yw hyn yn cael ei ganiatáu o dan arferion cyfrifyddu priodol. Cyfanswm y gwall oedd £1.561 miliwn, sydd islaw ein trothwy perthnasedd ac felly ni effeithiodd ar ein gallu i gyhoeddi barn wir a theg ddiamod.

Ni wnaeth y Cyngor ddiwygio'r cyfrifon yn ystod yr archwiliad oherwydd natur amherthnasol y camddatganiad a'r amser cyfyngedig oedd ar gael i adolygu cofnodion ategol cyn y dyddiad cau ar gyfer ardystio. Mae'r Cyngor wrthi'n cywiro ei gofnodion a bydd yn addasu'r gwall hwn yn ei gyfrifon 2025-26.

Nid oedd unrhyw faterion arwyddocaol eraill i'w nodi.

Gwellodd amseroldeb papurau gwaith mewn sawl maes eleni, gyda sawl dogfen wedi'u paratoi cyn yr archwiliad. Fodd bynnag, roedd rhai papurau gwaith allweddol yn dal i gael eu cwblhau yn ystod wythnosau cynnar y ffenestr archwilio. Yn benodol, ni dderbyniwyd adroddiad y Prisiwr tan ganol mis Awst 2025, ac nid oedd papurau gwaith IFRS16 ar gael tan ganol mis Hydref 2025.

Dosbarthwyd y ddau faes fel rhai risg uchel oherwydd eu cymhlethdod, ac mae profion archwilio cynnar yn hanfodol i sicrhau cwblhau amserol, yn enwedig lle gall gwallau olygu bod angen profion estynedig a gwaith dilynol.

Er na wnaeth yr oedi hyn ein hatal rhag cyrraedd y dyddiad cau y cytunwyd arno eleni, bydd y ffenestr archwilio yn fyrrach y flwyddyn nesaf, a gallai oedi tebyg gyflwyno risg i gyrraedd y dyddiad cau ardystio diwygiedig o 30 Medi.

Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaethau mewnol ond gwneuthum sawl argymhelliad a oedd yn ymwneud â rheolaethau TG ac Ariannol. Bydd cynnydd yn erbyn yr argymhellion hyn yn cael ei fonitro yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf.

Paratowyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif y Cyngor yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol ac â'm gwybodaeth i am y Cyngor.

Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon y Cyngor wedi'u paratoi'n briodol ac yn gywir yn eu hanfod a rhoddais farn archwilio ddiamod arnynt.

Cwblhau'r archwiliad

Cyhoeddais y dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o gyfrifon 2024-25 wedi'i gwblhau ar 20 Hydref 2025.

Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan

Cynhaliais hefyd adolygiad o ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Deuthum i'r casgliad bod y wybodaeth cyfuno partïon i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2025 a bod y ffurflen wedi'i pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

Mae gwaith cyfrifon eraill yn dal i fynd rhagddo

Yn ogystal â'm cyfrifoldebau dros archwilio cyfrifon y Cyngor mae gennyf gyfrifoldeb hefyd am ardystio nifer o hawliadau a ffurflenni grant.

Nid yw ein gwaith archwilio mewn perthynas â Threthi Annomestig Cenedlaethol a Chymhorthdal Pensiwn Athrawon wedi nodi unrhyw broblemau sylweddol. Fodd bynnag, rydym yn parhau i fynd i'r afael â gwaith Budd-dal Tai sydd wedi cronni o ganlyniad i broblemau hanesyddol, ac mae gwallau'n parhau i gael eu nodi drwy ein profion.

Ar adeg yr adroddiad, mae archwiliad yr hawliad am Gymhorthdal Budd-dal Tai 2023-24 wedi'i gwblhau i raddau helaeth, ac mae gwaith archwilio ar hawliad 2024-25 yn parhau.

Canfyddiadau archwilio perfformiad

Trefniadau comisiynu

Edrychodd fy nhîm ar sut mae trefniadau comisiynu'r Cyngor yn cymhwyso ystyriaethau gwerth am arian ac egwyddor datblygu cynaliadwy. Archwiliad thematig oedd hwn a gynhaliwyd ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol.

Pwysleisiodd y meini prawf archwilio y gall cymhwyso trefniadau comisiynu yn gyson ar lefel gorfforaethol gryfhau sicrwydd bod y Cyngor yn sicrhau gwerth am arian. Llwyddodd y Cyngor i ddangos lle'r oedd rhai gwasanaethau wedi cymhwyso'r meini prawf hyn, er enghraifft, cynnal asesiad opsiynau trylwyr ar gyfer comisiwn hirdymor mawr. Fodd bynnag, canfûm nad oedd hwn yn ddull corfforaethol cyson, gan i ni nodi amrywiad ar draws yr enghreifftiau a archwiliwyd gennym.

Gwneuthum ddau argymhelliad yn canolbwyntio ar sefydlu a gwreiddio trefniadau comisiynu corfforaethol cyson y gellir eu cymhwyso'n gymesur â graddfa ac arwyddocâd y gwasanaeth a gomisiynwyd.

Rheoli Strategol Balansau a Chronfeydd wrth Gefn

Edrychodd fy nhîm ar sut mae'r Cyngor yn rheoli ei gronfeydd wrth gefn. Canolbwyntiodd ar lywodraethu, rheoli risg, adrodd ariannol, a sut mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio'n strategol i wneud yn siŵr bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda i gefnogi sefydlogrwydd hirdymor.

Gwelais fod y Cyngor yn rheoli ac yn adolygu cronfeydd wrth gefn yn effeithiol ac yn rheolaidd ond y byddai'n elwa o sefydlu protocolau ffurfiol ar gyfer eu defnyddio a'u hailgyflenwi. Byddai meini prawf cliriach ar sefydlu a dal cronfeydd wrth gefn a chynllunio ymlaen llaw ar gyfer eu cynnal a'u cadw yn gwella gwydnwch ariannol hirdymor.

Gwneuthum un argymhelliad yn canolbwyntio ar ffurfioli sut mae'r Cyngor yn sefydlu ac yn defnyddio ei gronfeydd wrth gefn.

Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru yn absoliwt. Credwn fod ansawdd archwilio yn ymwneud â gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio tair llinell o sicrwydd i ddangos sut rydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydlyn a goruchwyllo'r trefniadau hynny. Rydym yn craffu'n annibynnol ar ein gwaith gan Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr, ac mae Cadeirydd y Bwrdd yn gweithredu fel cyswllt â'n Bwrdd ar ansawdd archwilio. I gael rhagor o wybodaeth gweler ein [Hadroddiad Ansawdd Archwilio 2024](#).



Ein Pobl

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- Goruchwyliaeth ac adolygu



Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio Dewis y tîm cywir

- Platform archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technelogol



Sicrwydd annibynnol

- Adolygiadau Ansawdd Allanol
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddiad o wraidd y problem
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

Gwybodaeth bellach

Mae gan Archwilio Cymru amrywiaeth o wybodaeth arall i gefnogi gwaith craffu ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru, ac i barhau i wella'r gwasanaethau mae'n eu darparu i bobl yng Nghymru.

Ewch i'n gwefan i weld:



Ein cyhoeddiadau sy'n ymdrin â'n gwaith archwilio mewn cyrff cyhoeddus.



Gwybodaeth am ein gwaith sydd ar ddod a'n rhaglen waith ar gyfer archwilio perfformiad.



Offer data i'ch helpu i ddeall tueddiadau gwariant cyhoeddus yn well.



Manylion ein gwaith a digwyddiadau Arfer Da gan gynnwys rhannu arferion sy'n dod i'r amlwg a mewnwelediadau o'n gwaith archwilio.



Ein cylchlythyr sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi'n rheolaidd am ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da, a digwyddiadau.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.



CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad	3 Chwefror 2026
Pwnc	Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith ar gyfer 2025-26 f6
Pennaeth Gwasanaeth	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.llyw.cymru
Awdur yr Adroddiad	Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru
Natur a Rheswm dros Adrodd Darparu Blaenraglen Waith ar gyfer 2025-26 i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w cynorthwyo i gyflawni Cylch Gorchwyl y Pwyllgor.	

1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae blaen raglen waith ynghlwm yn [Atodiad A](#), ynghyd â rhaglen ddatblygu yn [Atodiad B](#).
- 1.2 Mae'r rhaglen wedi'i datblygu gan ystyried cylch gorchwyl y Pwyllgor a'i gyfrifoldebau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

2.0 ARGYMHELLIAD

- 2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:
 - yn ystyried a yw'r Blaenraglen Waith a gynigir ar gyfer 2025-26 yn bodloni cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl.

Atodiad A – Blaen Raglen Waith 2025-26 f6

Tudalen 108

Swyddogaeth Graidd	26 Mehefin 2025	16 Gorffennaf 2025	30 Medi 2025	23 Hydref 2025 ¹	4 Rhagfyr 2025	3 Chwefror 2026	14 Mai 2026 (drafft)
Cyfansoddiad a threfniadau (3.4.8.2)							Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor (3.4.8.2.1) Cyfarfod preifat gydag archwilwyr mewnol ac allanol heb swyddogion yn bresennol (3.4.8.2.6) (3.4.8.10.15) (3.4.8.11.5)
Trefniadau Atebolrwydd (3.4.8.3)	Log Gweithredodd Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2025-26 f2 (3.4.8.3.2) Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2024-25 (3.4.8.3.1/2)	Log Gweithredodd Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2025-26 f3 (3.4.8.3.2)	Log Gweithredodd Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2025-26 f4 (3.4.8.3.2)		Log Gweithredodd Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2025-26 f5 (3.4.8.3.2)	Log Gweithredodd Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2025-26 f6 (3.4.8.3.2)	Log Gweithredodd Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2026-27 (3.4.8.3.2)
Llywodraethiant (3.4.8.4)	Adroddiad Blynyddol Sgriwtini 2024-25 (3.4.8.4.4)	Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft 2024-25 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.6.1/2/3) (3.4.8.8.2)		Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol 2024-25 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.8.2)		Diweddariad ar gynnydd yn erbyn y materion llywodraethu a nodwyd drwy Ddatganiad Llywodraethu	

¹ Cyfarfod arbennig

Swyddogaeth Graidd	26 Mehefin 2025	16 Gorffennaf 2025	30 Medi 2025	23 Hydref 2025 ¹	4 Rhagfyr 2025	3 Chwefror 2026	14 Mai 2026 (drafft)
						Blynyddol 2024-25 (3.4.8.4.2)	
Rheoli Trysorlys (3.4.8.5)		Adroddiad Blynyddol 2024-25 (3.4.8.5.1/2/3/4)	Adroddiad Blynyddol 2024-25 (3.4.8.5.1/2/3/4)		Adroddiad Canol Blwyddyn (3.4.8.5.3)	Strategaeth a Dangosyddion Darbodus 2026-27 (3.4.8.5.1/3/4)	
Gwerth am arian (3.4.8.6)	Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2024-25 (3.4.8.10.6/7/8/9/12/14/15) (3.4.8.6.3)	Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft 2024-25 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.6.1/2/3) Datganiad Cyfrifon Drafft 2024-25 (3.4.8.12.1/2) (3.4.8.6.1/2/3)		Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol 2024-25 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.6.1/2/3) Datganiad Cyfrifon Terfynol 2024-25 (3.4.8.12.1/2) (3.4.8.6.1/2/3) Adroddiad Archwilio Cyfrifon (3.4.8.11.2/3) (3.4.8.6.3)		Crynodeb Archwilio Blynyddol 2025 (3.4.8.11.2/3) (3.4.8.6.3)	
Fframwaith Sicrwydd (3.4.8.7)		Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant Gwybodaeth (SIRO) 2024-25 (3.4.8.7.1/2/3)	Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol 2024-25 (3.4.8.7.1/2/3) Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh 2024-25 (3.4.8.7.1/2/3)		Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant mewn Ysgolion 2024-25 (3.4.8.7.1/2/3) Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh 2024-25 (3.4.8.7.1/2/3)	Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant mewn Ysgolion 2024-25 (3.4.8.7.1/2/3)	

Swyddogaeth Graidd	26 Mehefin 2025	16 Gorffennaf 2025	30 Medi 2025	23 Hydref 2025 ¹	4 Rhagfyr 2025	3 Chwefror 2026	14 Mai 2026 (drafft)
					Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant Gwybodaeth (SIRO) 2024-25 (3.4.8.7.1/2/3)		
Rheoli Risg (3.4.8.8)			Adolygiad Blynyddol o Fframwaith Rheoli Risg (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) Diweddariad Cofrestr Risg Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)		Adolygiad o Fframwaith Rheoli Risg (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) Diweddariad Cofrestr Risg Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)	Diweddariad Cofrestr Risg Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)	
Atal Twyll a Llygredd (3.4.8.9)		Adroddiad Pryderon, Cwynion a Chwythu Chwiban Blynyddol 2024-25 (3.4.8.9.1) (3.4.8.14.2)	Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2024-25 (3.4.8.9.4/5/6) Canlyniadau Menter Twyll Genedlaethol 2024-26 – Adroddiad Cynnydd (3.4.8.9.6)		Archwilio Cymru Nodyn Briffio: Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 – diweddariad ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn (3.4.8.9.6) (3.4.8.11.1/2/3)		

Swyddogaeth Graidd	26 Mehefin 2025	16 Gorffennaf 2025	30 Medi 2025	23 Hydref 2025 ¹	4 Rhagfyr 2025	3 Chwefror 2026	14 Mai 2026 (drafft)
			<i>Adroddiad Pryderon, Cwynion a Chwythu Chwiban Blynyddol 2024-25 (3.4.8.9.1) (3.4.8.14.2)</i>				
Archwilio Mewnol (3.4.8.10)	Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2024-25 (3.4.8.10.5/6/7/8/11/14/15) (3.4.8.6.3) Asesiad Ansawdd Allanol o Gydymffurfiaeth gyda Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus 2024-25 (3.4.8.10.1/8/11/13) Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol 2025-26 (3.4.8.10.1/2/4/5)	Adroddiad Diweddarau Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3) Dadansoddiad o fylchau o gydymffurfiaeth â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU (3.4.8.10.1/2/8/11/13)	Adroddiad Diweddarau Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3) Materion / Risgiau / Cyfleoedd sy'n Weddill (3.4.8.10.9/10)		Adroddiad Diweddarau Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3)	Adroddiad Diweddarau Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3)	Adroddiad Diweddarau Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3) Materion / Risgiau / Cyfleoedd sy'n Weddill (3.4.8.10.9/10)

Swyddogaeth Graidd	26 Mehefin 2025	16 Gorffennaf 2025	30 Medi 2025	23 Hydref 2025 ¹	4 Rhagfyr 2025	3 Chwefror 2026	14 Mai 2026 (drafft)
	Adolygiad o'r Siartr Archwilio Mewnol (3.4.8.10.2/12)						
Archwilio Allanol (3.4.8.11)	Cynllun Archwilio Blynnyddol 2025 (3.4.8.11.1/3)		Rhaglen Waith ac Amserlen – Diweddariad Chwarterol (Ch1 2025) (3.4.8.11.2/3)	Adroddiad Archwilio Cyfrifon (3.4.8.11.2/3) (3.4.8.6.3) (3.4.8.12.4)	Rhaglen Waith ac Amserlen – Diweddariad Chwarterol (Ch2 2025) (3.4.8.11.2/3) Trefniadau comisiynu gwasanaethau (3.4.8.11.1/2/3) Rheolaeth strategol cronfeydd wrth gefn (3.4.8.11.1/2/3) Archwilio Cymru Nodyn Briffio: Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 – diweddariad ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn (3.4.8.9.6) (3.4.8.11.1/2/3)	Rhaglen Waith ac Amserlen – Diweddariad Chwarterol (Ch3 2025) (3.4.8.11.2/3) Crynodeb Archwilio Blynnyddol 2025 (3.4.8.11.1/2/3) (3.4.8.6.3)	Rhaglen Waith ac Amserlen – Diweddariad Chwarterol (Ch4 2025) (3.4.8.11.2/3)

Swyddogaeth Graidd	26 Mehefin 2025	16 Gorffennaf 2025	30 Medi 2025	23 Hydref 2025 ¹	4 Rhagfyr 2025	3 Chwefror 2026	14 Mai 2026 (drafft)
Adrodd Ariannol (3.4.8.12)		Datganiad Cyfrifon Drafft 2024-25 (3.4.8.12.1/2/3/ 5) (3.4.8.6.1/2/3)		Datganiad Cyfrifon Terfynol 2024-25 (3.4.8.12.1/2/3/ 5) (3.4.8.6.1/2/3)			
Rheoleiddwyr ac Archwilwyr Eraill (3.4.8.13)					Adolygiadau Cenedlaethol a'u Hargymhellion Cysylltiedig (3.4.8.11.3) (3.4.8.13.1)		
Delio â Chwynion (3.4.8.14)		Adroddiad Blynyddol Pryderon, Cwynion a Chwythu Chwiban 2024-25 (3.4.8.14.1/2)	Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2024-25 (3.4.8.14.1) Adroddiad Blynyddol Pryderon, Cwynion a Chwythu Chwiban 2024-25 (3.4.8.14.1/2)		Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2024-25 (3.4.8.14.1) Adroddiad Blynyddol Pryderon, Cwynion a Chwythu Chwiban 2024-25 (3.4.8.14.1/2)		
Adroddiad Hunanasesu (3.4.8.15)		Adolygiad o'r Adroddiad Corfforaethol Hunanasesu Blynyddol Drafft 2024-25 (3.4.8.15.1/2/3)	Adolygiad o'r Adroddiad Corfforaethol Hunanasesu Blynyddol Drafft 2024-25 (3.4.8.15.1/2/3)	Adroddiad blynyddol Hunan- asesiad, Perfformiad a Llesiant 2024-25 (3.4.8.15.1/2/3)			

Swyddogaeth Graidd	26 Mehefin 2025	16 Gorffennaf 2025	30 Medi 2025	23 Hydref 2025 ¹	4 Rhagfyr 2025	3 Chwefror 2026	14 Mai 2026 (drafft)
Aseiad Perfformiad Panel (3.4.8.16) ²		Themâu i'w hystyried gan Aseiad Perfformiad y Panel (3.4.8.16.1)				Adroddiad Aseiad y Panel (3.4.8.16.1/2/3)	Adroddiad Aseiad y Panel (3.4.8.16.1/2/3)
3.4.8.17 Archwiliad Arbennig gan yr Archwilydd Cyffredinol ³							

² O leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol cynhelir aseiad o berfformiad gan banel yn ystod y cyfnod rhwng etholiadau cyffredin ar gyfer cyngorwyr i'r cyngor. Gall y cyngor ddewis comisiynu mwy nag un aseiad gan banel mewn cylch etholiadol, ond nid yw hyn yn ofynnol o dan y ddeddfwriaeth. (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rhaid i'r cyngor drefnu bod drafft o'i ymateb i'r aseiad o berfformiad gan banel ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio, a rhaid i'r pwyllgor hwnnw wedyn adolygu'r ymateb drafft a gall wneud unrhyw argymhellion ynglŷn â newidiadau i'r ymateb i aseiad y panel.

³ Os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliad arbennig (gan ei fod o'r farn nad yw'r Cyngor, neu efallai na fydd y Cyngor, yn cwrdd â'i ofynion perfformiad), a bod adroddiad yn cael ei anfon at y Cyngor, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl derbyn adroddiad o'r fath, rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Atodiad B – Rhaglen Ddatblygu (3.4.8.2.10)

Hyfforddiant i'r pwyllgor

Maes	Dyddiad a ddarparwyd ddiwethaf	Cyfrwng	Darparwr	Dyddiad Darparu / Wedi'i Drefnu
Cyflwyniad i Ddeallusrwydd Artiffisial a Lliniaru Risg	Amherthnasol	Sesiwn briffio	Mathew Henshaw, Prif Swyddog Digidol	11/02/25
Deall Cyfrifon Awdurdodau Lleol ar gyfer Cynghorwyr	Mehefin 2023 Awst 2023			
Rheoli Trysorlys (3.4.8.5.2)	Medi 2023	Sesiwn briffio	I'w gadarnhau	Chwefror 2026
Sgiliau Cadeirio Effeithiol	Hydref 2023			
Atal Twyll a Llygredd	Rhagfyr 2023			
Rheoli Risg	Mawrth 2024	Sesiwn briffio	Zurich Resilience Solutions	04/12/25

Hyfforddiant gorfodol

Maes	Cyfrwng	Darparwr	Dyddiad Darparu / Wedi'i Drefnu
Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)	e-ddysgu	Mewnol	Ar gael unrhyw bryd
Seiber Ninjas ar gyfer Cynghorwyr	e-ddysgu	Mewnol	Ar gael unrhyw bryd
Ymwybyddiaeth Sylfaenol o Ddiogelu	e-ddysgu	Mewnol	Ar gael unrhyw bryd
Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (dewisol ar gyfer aelodau llewyg)	e-ddysgu	Mewnol	Ar gael unrhyw bryd
Atal/Prevent (dewisol ar gyfer aelodau llewyg)	e-ddysgu	Mewnol	Ar gael unrhyw bryd
Caethwasiaeth Fodern (dewisol ar gyfer aelodau llewyg)	e-ddysgu	Mewnol	Ar gael unrhyw bryd

Cyfarwyddiadau i'r pwyllgor

Teitl	Arwynebedd	Canolig	Darparwr	Dyddiad Darparwyd
Diweddariad y Pwyllgor Archwilio – Rhifyn 40: Safonau Archwilio Mewnol Newydd	Newidiadau sydd ar ddod i'r safonau archwilio mewnol a sut y bydd hynny'n effeithio ar aelodau'r pwyllgor archwilio.	Nodyn Briffio	CIPFA	24/12/24
Cylchlythyr CIPFA Llywodraethu Gwell	Gwybodaeth i bwyllgorau archwilio ynghylch cyhoeddi Cod Ymarfer CIPFA i gefnogi awdurdodau i sefydlu a chynnal eu trefniadau archwilio mewnol, ynghyd â gwybodaeth am yr ymgynghoriad ar yr Atodiad i Fframwaith Llywodraethu 2016 sy'n cwmpasu'r adolygiad blynyddol o lywodraethu a'r datganiad llywodraethu blynyddol.	Cylchlythyr	CIPFA	07/02/25
Archwilio Cymru - Pwyllgorau Archwilio: arferion effeithiol a chanllawiau poced ar effaith gadarnhaol	Mae Archwilio Cymru wedi cyhoeddi canllaw poced sy'n crynhoi arferion effeithiol ar gyfer pwyllgorau archwilio.	Canllaw poced	Archwilio Cymru	25/02/25
Diweddariad y Pwyllgor Archwilio – Rhifyn 42: Llywodraethu Archwilio Mewnol	Y Cod Ymarfer newydd ar Lywodraethu Archwilio Mewnol sy'n dod i rym o 1 Ebrill 2025.	Nodyn Briffio	CIPFA	17/04/25
Erthygl Cyllid Cyhoeddus CIPFA – Gallai mabwysiadu AI 'arbed £8bn y flwyddyn i gynghorau Cymru a Lloegr'	Erthygl sy'n amcangyfrif y gallai awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr arbed £8bn bob blwyddyn trwy integreiddio deallusrwydd artiffisial yn eu gweithrediadau.	Erthygl Cylchgrawn Proffesiynol	CIPFA	15/05/25
CIPFA / Solace Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol: Cyhoeddi Atodiad	Cyhoeddi canllawiau newydd ar yr adolygiad blynyddol o lywodraethu a rheolaethau mewnol a pharatoi'r datganiad llywodraethu blynyddol (AGS) sy'n dod i rym ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26.	Cyhoeddiad	CIPFA	20/05/25
Erthygl Cyllid Cyhoeddus – Rheolau technoleg: pwysigrwydd cael polisi DA	Erthygl ar bwysigrwydd sefydliadau sydd â pholisi Deallusrwydd Artiffisial (DA).	Erthygl Cylchgrawn Proffesiynol	CIPFA	15/07/25
Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru - Cwestiynau Cyffredin	Gwybodaeth am rôl Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (CCGC) ac is-bwyllgor y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.	Cwestiynau cyffredin	CCGC	02/12/25